Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR GWAITH | | THE EXECUTIVE |
| DYDD MAWRTH<br>19 MAWRTH 2024<br>10.00 o'r gloch | | TUESDAY<br>19 MARCH 2024<br>10.00 am |
| CYFARFOD HYBRID – YN YSTAFELL BWYLLGOR 1 AC YN RHITHWIR | | HYBRID MEETING – VIRTUAL AND IN COMMITTEE ROOM 1 |
| Swyddog Pwyllgor | Ann Holmes<br>01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/The Party of Wales**

Neville Evans, Carwyn E Jones, Llinos Medi, Gary Pritchard, Alun Roberts, Nicola Roberts, Robin Wyn Williams

**Y Grŵp Annibynnol/The Independent Group**

Dafydd Roberts, Dafydd Rhys Thomas

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdudrod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod***

**R H A G L E N**

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2 MATERION BRYS ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG**

Dim materion brys ar adeg anfon y rhaglen hon.

**3 COFNODION** (Tudalennau 1 - 22)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft cyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol: -

- 20 Chwefror 2024
- 29 Chwefror 2024 (Arbennig)

**4 BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 23 - 30)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth.

**5 MONITRO'R CERDYN SGORIO - CHWARTER 3, 2023/24** (Tudalennau 31 - 44)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn - AD a Thrawsnewid.

**6 ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON YR YMDDIRIEDOLAETH ADDYSG BELLACH AR GYFER 2022/23** (Tudalennau 45 - 68)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**7 CYNLLUN STRATEGOL TACLO TLODI 2024-29** (Tudalennau 69 - 90)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

**8 CYNLLUN STRATEGOL RHEOLI ASEDAU CORFFORAETHOL 2024-2029** (Tudalennau 91 - 110)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo.

**9 CYNLLUN BUSNES CYFRIF REFENIW TAI 2024 - 2054** (Tudalennau 111 - 142)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

10 **<u>CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD</u>** (Tudalennau 143 - 144)

Ystyried mabwysiadau'r canlynol –

"Dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae modd cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol, oherwydd y posibilrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd eithriad ohoni."

11 **<u>RHAGLEN AMLINELLOL STRATEGOL - RHAGLEN DREIGL</u>** (Tudalennau 145 - 208)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc.

12 **<u>CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD</u>** (Tudalennau 209 - 210)

Ystyried mabwysiadau'r canlynol –

"Dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae modd cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol, oherwydd y posibilrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd eithriad ohoni."

13 **<u>PORTHLADD RHYDD YNYS MÔN - LLYWODRAETHIANT</u>** (Tudalennau 211 - 218)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 20 Chwefror 2024

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos Medi (Arweinydd) (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Carwyn Jones, Gary Pritchard, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Nicola Roberts, Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion (ar gyfer eitem 9)<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (ar gyfer eitem 14)<br>Pennaeth Democratiaeth<br>Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid<br>Rheolwr Tîm TG (MH) (ar gyfer eitem 11)<br>Rheolwr Strategaeth a Busnes (NH) (ar gyfer eitem 14)<br>Rheolwr Gwasanaeth Tai Cymunedol (LlW) (ar gyfer eitem 12)<br>Rheolwr Polisi a'r Gymraeg (FO) (ar gyfer eitem 8)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH)<br>Swyddog Gweddarlledu (FT) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Neville Evans |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Dyfed Wyn Jones (Is-gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol), R. Llewelyn Jones, Dylan Rees (Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio), Rheolwr Sgriwtini (AGD), Cyfreithiwr (AO). |

---

### 1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Bu i'r Cynghorydd Llinos Medi ddatgan diddordeb personol mewn perthynas ag eitem 10 ar y rhaglen gan ei bod yn cynrychioli'r Awdurdod Lleol ar gorff llywodraethu Ysgol Llanfechell.

### 2. MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG

Dim i'w adrodd.

### 3. COFNODION

Cyflwynwyd, i'w cadarnhau, cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith ar gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2024.

**Penderfynwyd cadarnhau cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2024 fel rhai cywir.**

## 4. BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Democratiaeth yn ymgorffori Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod rhwng Mawrth a Hydref 2024 i'r Pwyllgor Gwaith ei gadarnhau.

Cyflwynodd y Pennaeth Democratiaeth ddiweddariad i'r Pwyllgor Gwaith ar y newidiadau i'r Flaen Raglen Waith, sy'n cael eu hadlewyrchu yn yr adroddiad a gyflwynwyd, a thynnodd sylw at eitem ychwanegol ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 19 Mawrth 2024 nad oedd wedi'i chynnwys yn y Rhaglen Waith a gyhoeddwyd, yn ymwneud â llywodraethiant Porthladd Rhydd Ynys Môn.

**Penderfynwyd cadarnhau Blaen Rhaglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi'i diweddaru am y cyfnod Mawrth i Hydref 2024 gyda'r newid ychwanegol a amlinellwyd yn y cyfarfod.**

## 5. ADOLYGIAD RHEOLI TRYSORLYS CANOL BLWYDDYN 2023/24

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried, adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yn ymgorffori adolygiad canol blwyddyn o'r sefyllfa rheoli trysorlys ar 30 Medi 2023.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Robin Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid, a chyfeiriodd at y gofynion adrodd mewn perthynas â rheoli trysorlys o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a Chod Darbodus CIPFA 2021, ac un o'r gofynion hynny yw llunio adolygiad canol blwyddyn o weithgareddau rheoli trysorlys. Cadarnhaodd bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi craffu ar yr adroddiad yn ystod cyfarfod y pwyllgor hwnnw ar 8 Chwefror 2024 a'i fod wedi ei anfon ymlaen at y Pwyllgor Gwaith heb wneud unrhyw sylwadau pellach.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 nad oedd ymagwedd y Cyngor o ran benthyca a buddsoddi wedi newid yn ystod cyfnod yr adroddiad. Mae balansau arian parod yn parhau i gael eu defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf er mwyn osgoi benthyca'n allanol, ac mae unrhyw falansau arian parod sy'n weddill yn cael eu buddsoddi mewn banciau diogel yn y DU ac awdurdodau lleol. Mae'r Cyngor wedi elwa ar gynnydd yn y gyfradd log yn ystod y cyfnod ac roedd yr elw ar fuddsoddiadau'n well na'r disgwyl. Parhau'n sefydlog wnaeth sefyllfa Rheoli Trysorlys y Cyngor ac roedd yr holl ddangosyddion darbodus o fewn y terfynau a'r targedau a osodwyd yn y Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2023/24.

**Penderfynwyd nodi adroddiad Adolygiad Canol Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys a'i anfon ymlaen i'r Cyngor Llawn heb sylw pellach.**

## 6. DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS 2024/25

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yn ymgorffori'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2024/25 i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried.

Cyflwynodd y Cynghorydd Robin Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid, yr adroddiad a dywedodd ei fod yn amlinellu strategaeth y Cyngor ar gyfer rheoli benthyca a buddsoddi yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25, ynghyd â'r dangosyddion darbodus a thrysorlys a nodir yn Atodiad 11 yn yr adroddiad. Mae'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys yn nodi faint o arian fydd angen ei fenthyca i ariannu'r rhaglen gyfalaf, yn ogystal

â'r meini prawf ar gyfer buddsoddi arian y Cyngor. Craffodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio arno yn ei gyfarfod ar 8 Chwefror 2023/24 a phenderfynodd ei anfon ymlaen at y Pwyllgor Gwaith heb wneud unrhyw sylwadau pellach.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 bod disgwyl i'r agwedd tuag at fenthyca newid yn ystod cyfnod y strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2024/25. Gan fod arian wrth gefn y Cyngor yn cael ei ddefnyddio fel cyfraniad i gydbwyso'r gyllideb a chronfa'r CRT yn cael ei defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf, bydd cyfanswm y balansau arian parod yn disgyn yn sylweddol ac, oherwydd hynny, bydd llai o arian ar gael i'w fuddsoddi a bydd lefel y benthyca mewnol y gellir ei gefnogi yn gostwng. Rhagwelir felly y bydd angen mwy o fenthyca allanol i ariannu gofynion rhaglen gyfalaf y Cyngor. Dywedodd y Swyddog Adran 151 y caiff unrhyw fenthyca ariannol ei amseru er mwyn cadw'r cyfraddau benthyg cyn ised â phosib, a thrwy hynny leihau'r gost i'r gyllideb refeniw.

**Penderfynwyd nodi'r Datganiad ar Strategaeth Rheoli'r Trysorlys am 2024/25 a'i anfon ymlaen i'r Cyngor Llawn heb sylw pellach.**

## 7. FFIOEDD A THALIADAU 2024/25

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried, adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yn ymgorffori rhestr o ffioedd a thaliadau arfaethedig ar gyfer 2024/25.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Robin Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid, a dywedodd fod y Pwyllgor Gwaith wedi gosod targed o gynyddu'r holl ffioedd a thaliadau anstatudol gan 5% ar gyfartaledd ar draws pob gwasanaeth unigol. Mae hyn yn galluogi Penaethiaid Gwasanaeth i gynyddu ffioedd unigol gan fwy neu lai na 5% os yw'r cynnydd cyffredinol ar draws y gwasanaeth yn cyfateb i 5%. Mae'r holl ffioedd statudol wedi eu cynyddu yn ôl y swm a osodir gan y corff cymeradwyo, lle mae'r cynnydd wedi'i gyhoeddi. Lle nad yw'r taliad diwygiedig yn hysbys dangosir y ffi fel 'i'w gadarnhau' a bydd yn cael ei diweddaru unwaith y bydd gwybodaeth am y ffi newydd yn cael ei dderbyn. Cyflwynir adroddiad ar wahân i'r Pwyllgor Gwaith ar y cynnydd mewn ffioedd Gofal Cymdeithasol.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r ffioedd a thaliadau am 2024/25 fel y'u hamlinellir yn y llyfryn ynghlwm wrth yr adroddiad.**

## 8. CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2024-2028

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro yn ymgorffori'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-28 i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried.

Cyflwynodd y Cynghorydd Llinos Medi, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Portffolio Datblygu Economaidd, y Cynllun a dywedodd ei fod yn nodi sut fydd y Cyngor yn cyflawni'r ddyletswydd a osodir ar gyrff cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 i roi sylw dyledus i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau ym mhob agwedd o'i waith. Mae'r Cynllun yn un uchelgeisiol a'i amcan yw sicrhau fod cydraddoldeb yn cael ei ymgorffori ym mhob agwedd o waith y Cyngor.

Cyfeiriodd y Pennaeth Democratiaeth at yr wyth amcan hirdymor yn y cynllun ar gyfer cryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb ar Ynys Môn ac o fewn y Cyngor ac maent yn seiliedig, yn fras, ar 'feysydd bywyd' y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar gyfer monitro cydraddoldeb. Mae'r Cynllun hefyd yn cynnwys trefniadau ar gyfer monitro cynnydd y

Cyngor tuag at gyflawni ei amcanion cydraddoldeb, ac, yn ogystal â hynny, mae'n cyfrannu at weledigaeth ehangach Cynllun y Cyngor, sef creu Ynys Môn iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu.

Cadarnhaodd y Rheolwr Polisi a'r Gymraeg fod ymgysylltu uniongyrchol gyda rhai grwpiau gwarchodedig, gan gynnwys y Fforwm Ieuenctid, Mencap Môn a defnyddwyr darpariaeth gofal dydd, wedi dylanwadu ar y Cynllun. Un o'r prif ddatblygiadau sy'n deillio o weithredu'r Cynllun yw'r pwyslais ar sut mae'r Cyngor fel cyflogwr yn defnyddio ei ddylanwad i hyrwyddo cydraddoldeb ym mhob rhan o'r sefydliad. Bydd strwythurau mewnol y Cyngor yn cael eu hadolygu er mwyn cryfhau'r gallu hwn a bydd grŵp cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant newydd, gyda chynrychiolwyr o bob gwasanaeth, yn cael ei sefydlu.

Cafwyd adborth gan y Cynghorydd Dylan Rees, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio o gyfarfod y Pwyllgor ar 18 Ionawr 2024 pan graffwyd ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-28. Cyfeiriodd at y materion a drafodwyd yn y cyfarfod hwnnw a chadarnhaodd fod y Pwyllgor wedi argymell y Cynllun i'r Pwyllgor Gwaith, gyda chais iddo hefyd ystyried addasu teitl Amcan Cydraddoldeb 2 (Gwaith) er mwyn egluro rôl y Cyngor fel cyflogwr.

Cadarnhaodd y Rheolwr Polisi a'r Gymraeg fod Amcan Cydraddoldeb 2 wedi cael ei addasu i gyfeirio at y "Gweithle".

Roedd aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn croesawu'r Cynllun Strategol drafft fel un amserol o ystyried y tensiynau cymdeithasol sy'n bodoli ar hyn o bryd a'i fod hefyd yn greiddiol i bopeth a wna'r Cyngor, gan gynnwys ei wasanaethau a'i arferion cyflogi. Wrth gydnabod bod llwyddo i gyflawni'r wyth amcan cydraddoldeb yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni yn bryder i'r Pwyllgor Sgriwtini, nododd y Pwyllgor Gwaith mai gweledigaeth y Cyngor a gyflëir yng Nghynllun y Cyngor yw creu Ynys Môn sy'n iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu a phwysleisiwyd na all pobl a chymunedau ffynnu oni bai bod cyfle cyfartal yn cael ei sicrhau i bawb a bod anghenion yr holl grwpiau mewn cymdeithas yn cael eu trin yn gyfartal ac mae'r Cynllun, felly, yn bwysig gan ei fod yn darparu fframwaith i alluogi hynny. Cyfeiriodd nifer o aelodau'r Pwyllgor Gwaith at eu hymwneud â Mencap Môn a gwerth gwrando ar safbwyntiau unigolion nad yw eu lleisiau bob amser yn cael eu clywed. Cyfeiriwyd hefyd at gyd-destun amcan cydraddoldeb 5 mewn perthynas â diogelwch personol, yn ogystal â'r cynnydd a gofnodwyd mewn troseddau casineb ac, er mwyn egluro sefyllfa'r Cyngor, gofynnwyd pwy sy'n delio â'r troseddau hyn.

Cadarnhaodd y Rheolwr Polisi a'r Gymraeg fod yr Heddlu'n gyfrifol am ddelio gyda throseddau casineb a dywedodd hefyd fod Swyddog Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol, sydd wedi'i leoli yn y Cyngor, yn cael ei gyflogi i weithio ar draws Ynys Môn, Conwy a Gwynedd ac mae'n cydweithio â'r Heddlu ar faterion cydlyniant cymunedol ac ymwybyddiaeth.

**Penderfynwyd argymell i'r Cyngor Llawn ei fod yn cymeradwyo'r Cynllun Cydraddoldeb Stratgeol drafft am 2024-2028 ac yn awdurdodi'r Swyddogion mewn ymgynghoriad â'r Deilydd Portffolio i gwblhau a chyhoeddi'r Cynllun erbyn 31 Mawrth 2024.**

## 9. CARTREFI'R AWDURDOD LLEOL I BOBL HŶN – PENNU FFI'R SAFONOL AR GYFER 2024/25

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i bennu'r ffi safonol ar gyfer cartrefi gofal y Cyngor.



DRAFFT

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Alun Roberts, Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion, a dywedodd fod hyn yn ofyn blynyddol o dan Adran 22 Deddf Cymorth Gwladol 1948.

Cyfeiriodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion at yr ystyriaethau a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r ffi safonol ar gyfer cartrefi gofal y Cyngor, fel y'u nodir yn yr adroddiad, a dywedodd mai'r argymhelliad yw codi am gost lawn y gwasanaeth yn 2024/25, sef £927.77 yr wythnos.

**Penderfynwyd gosod ffi safonol o £927.77 yr wythnos sef cost llawn y gwasanaeth.**

**10. CYNNIG I DROSGLWYDDO DISGYBLION O YSGOL CARREGLEFN I YSGOL LLANFECHELL A CHAU YSGOL CARREGLEFN**

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried, adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc yn amlinellu cynnig i drosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a chau Ysgol Carreglefn.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Dafydd Roberts, Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg, ac roedd yn gofyn i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r cynnig i drosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a chau Ysgol Carreglefn, yn ogystal â chyhoeddi rhybudd statudol i'r perwyl hwnnw. Ysgrifennwyd y papur cynnig unol â disgwyliadau'r cod diwygiedig, sef Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc at y rhesymau dros y cynnig i gau Ysgol Carreglefn, gan gynnwys y gost fesul disgybl, sef £17,200, a'r uchaf o blith yr holl ysgolion cynradd yng Nghymru, mae nifer y lleoedd gwag yn 80% ac mae disgwyl i nifer y disgyblion ostwng o 9 disgybl eleni i 5 disgybl o fis Medi 2024; costau cynnal a chadw (presennol a dyfodol) o £317,350, yn ogystal â'r her o addysgu dosbarth oedran cymysg gan fod yr holl ddisgyblion yn cael eu haddysgu mewn un dosbarth. Disgrifiodd y gweithdrefnau a ddilynwyd wrth ystyried dyfodol Ysgol Carreglefn a llunio'r cynnig i gau'r ysgol hon, sydd yn ysgol wledig ddynodedig, a chyfeiriodd at yr opsiynau amgen rhesymol a ystyriwyd ac y cyfeirir atynt yn adran 6 yn y papur cynnig. Os yw'r cynnig yn cael ei gymeradwyo yna bydd Ysgol Carreglefn yn cau ym mis Awst 2024 a'r disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Llanfechell ym mis Medi 2024. Gan fod llai na 10 disgybl wedi'u cofrestr yn yr ysgol pan gynhaliwyd y cyfrifiad ym mis Ionawr 2024, mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn caniatáu i'r awdurdod ddilyn proses symlach i gau'r ysgol yn swyddogol. Os bydd yr ysgol yn cau, mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i weithio gyda chymuned Carreglefn i geisio sicrhau dyfodol hirdymor adeilad yr ysgol bresennol fel adnodd i'r gymuned, yn ogystal â darparu cludiant am ddim i ddisgyblion cymwys o Garreglefn i Ysgol Llanfechell, yn unol â pholisi trafnidiaeth ysgolion y Cyngor, gan fod y ffordd rhwng y ddau bentref yn rhy beryglus i ddysgwyr oedran cynradd gerdded arni i'r ysgol ac yn ôl.

Cyflwynodd y Cynghorydd Dyfed Wyn Jones, Is-gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, adborth o gyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 13 Chwefror 2024 pan ystyriwyd y cynnig i drosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a chau Ysgol Carreglefn. Roedd y Pwyllgor wedi trafod nifer o faterion, a cheisiodd sicrwydd ynglŷn â'r ffactorau a oedd yn gyrru'r cynnig, yr opsiynau amgen a ystyriwyd, y goblygiadau ariannol, darparu cludiant, yr effaith ar ddisgyblion, staff a'r gymuned a'r gefnogaeth fyddai ar gael iddynt, yn ogystal â dyfodol adeilad yr ysgol. Wrth ystyried dyfodol adeilad yr ysgol, pwysleisiodd y Pwyllgor ei bod yn bwysig gweithio gyda'r gymuned i ganfod ffordd o gadw adeilad yr ysgol er defnydd y gymuned os yw'r ysgol yn cau. Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad ac ar lafar yn y cyfarfod, penderfynodd y Pwyllgor gefnogi ac argymell i'r Pwyllgor Gwaith y cynnig i drosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a chau Ysgol Carreglefn.

Nododd Aelodau'r Pwyllgor Gwaith y ffactorau sy'n gyrru'r cynnig i gau Ysgol Carreglefn mewn perthynas â chost y ddarpariaeth addysg fesul disgybl a fyddai'n codi i £32k y disgybl os yw nifer y disgyblion yn yr ysgol yn disgyn, yn ôl y disgwyl, i 5 ym mis Medi 2024, canran y lleoedd gwag yn yr ysgol a'r ffaith fod nifer y disgyblion yn parhau i ostwng, yn ogystal â materion cynnal a chadw a heriau'n gysylltiedig ag addysgu. Cyfeiriodd yr Aelodau hefyd at yr heriau y mae ysgol gyda chyn lleied o ddisgyblion yn eu hwynebu o ran cynnig y profiadau a'r cyfleoedd amrywiol hynny y mae disgyblion mewn ysgolion mwy yn gallu manteisio arnynt, megis gweithgareddau tîm, clwb neu grŵp, yn ogystal â mwy o gyfleoedd i gymdeithasu gyda disgyblion eraill, rhywbeth sy'n fuddiol i'w llesiant a'u datblygiad. Byddai trosglwyddo i Ysgol Llanfechell yn rhoi mwy o gyfle hefyd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg trwy gymysgu â mwy o ddisgyblion. Barn yr Aelodau oedd bod cost uchel y ddarpariaeth addysg yn Ysgol Carreglefn yn anghynaladwy yn y tymor hir a'i fod hefyd yn annheg o ran cydraddoldeb y ddarpariaeth ar draws holl ysgolion cynradd Ynys Môn. Roedd aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn cytuno â safbwynt y Pwyllgor Sgriwtini ynglŷn â phwysigrwydd diogelu adeilad yr ysgol at ddefnydd y gymuned pe byddai'r ysgol yn cau ac roeddent o blaid cynnal trafodaethau gyda'r gymuned i'r perwyl hwnnw. Nododd y Pwyllgor yr amrywiaeth o weithgareddau cymunedol a gynhelir yn adeilad yr ysgol ac y cyfeirir atynt yn yr adroddiad.

Roedd y Cynghorydd Llinos Medi, fel Aelod Lleol, yn cydnabod bod y cynnig i gau'r ysgol yn un anodd a diolchodd i bawb sydd wedi ceisio cadw Ysgol Carreglefn ar agor yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Serch hynny, oherwydd bod niferoedd disgyblion yn gostwng, ac o ystyried yr heriau a ddaw yn sgil hynny o ran addysgu a chyllido'r ysgol, roedd yn derbyn mai'r cynnig gerbron yw'r ateb gorau i fynd i'r afael â'r gyrwyr allweddol yn yr ardal. Cyfeiriodd at y cysylltiadau agos rhwng y ddwy gymuned a dywedodd hefyd fod cadw adeilad yr ysgol i'r gymuned ei ddefnyddio yn y dyfodol yn bwysicach fyth oherwydd bod cymuned Carreglefn yn cynnal cymaint o weithgareddau. Os derbynnir y cynnig, yna bydd dalgylch Ysgol Llanfechell yn cael ei ymestyn i gynnwys dalgylch presennol Ysgol Carreglefn.

**Penderfynwyd –**

- **Cymeradwyo'r cynnig "i drosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a chau Ysgol Carreglefn."**
- **Awdurdodi Swyddogion i symud ymlaen i ran nesaf y broses sy'n cael ei nodi yn y Côd Trefniadaeth Ysgolion (2018) a chyhoeddi Rhybudd Statudol am gyfnod o 28 diwrnod (pan fydd Rhybudd Statudol yn cael ei gyhoeddi, bydd gan rhanddeiliaid 28 diwrnod i wrthwynebu'n statudol i'r cynnig).**
- **Awdurdodi Swyddogion i ymateb i unrhyw wrthwynebiadau (os oes gwrthwynebiadau) gan lunio Adroddiad Gwrthwynebu i'w ystyried ymhellach gan y Pwyllgor Gwaith.**
- **Awdurdodi Swyddogion i gynnal trafodaethau gyda'r gymuned i roi cyfle i sicrhau hyfywedd hirdymor adeilad presennol yr ysgol fel adnodd cymunedol pe bai angen.**

## 11. CYNLLUN STRATEGOL DIGIDOL CYNGOR SIR YNYS MÔN

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid yn ymgorffori Cynllun Strategol Digidol Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer 2025-29 i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried a'i gymeradwyo.

Cyflwynwyd y Strategaeth gan y Cynghorydd Carwyn Jones, Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer, a dywedodd ei bod yn gosod cyfeiriad a gweledigaeth glir ar gyfer gwasanaethau TG corfforaethol, a hynny'n seiliedig ar egwyddorion cyffredinol y Cyngor a'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer darparu gwasanaethau TGCh. Mae'n olynu'r

Strategaeth Ynys Ddigidol flaenorol gan fod angen adolygu a diweddaru'r strategaeth honno yn dilyn mabwysiadu Cynllun y Cyngor ar gyfer 2023-28. Bydd cynlluniau gwasanaeth yn eistedd o dan y Strategaeth yn ôl yr angen a bydd is-strategaethau'n cael eu datblygu ar gyfer ffrydiau gwaith a rhaglenni sylweddol. Y bwriad yw llunio cynllun gweithredu blynyddol i sicrhau fod y Cynllun Strategol yn cael ei roi ar waith, ei fonitro a'i adolygu os bydd angen. Dywedodd y Cynghorydd Carwyn Jones fod TG a darpariaeth ddigidol yn greiddiol i brosesau mewnol y Cyngor yn ogystal â phrofiad ei gwsmeriaid, a dyna pam fod y Cynllun mor allweddol i siwrne'r Cyngor wrth gyflawni disgwyliadau ei drigolion. Er bod y Cynllun yn nodi uchelgais y Cyngor i ddatblygu, gwella, moderneiddio a symleiddio prosesau gan ddefnyddio technoleg, mae'n cydnabod hefyd nad oes gan bawb yr un mynediad i'r byd digidol ac mae'n ceisio sicrhau fod gan drigolion Ynys Môn, ac ymwelwyr, fynediad i wasanaethau o ansawdd uchel trwy gyfrwng amrywiaeth o sianelau digidol a thraddodiadol.

Roedd aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn cydnabod fod dibyniaeth ar dechnoleg yn cynyddu a bod cyfranogiad digidol yn bwysig mewn bywyd o ddydd i ddydd ac roeddent yn falch o nodi nad yw'r Cynllun Strategol Digidol, sy'n ceisio gwella a datblygu cynnig digidol presennol y Cyngor, yn atal trigolion nad oes ganddynt fynediad at dechnoleg ddigidol neu'r hyder i'w ddefnyddio rhag parhau i gysylltu â'r Cyngor trwy ddulliau traddodiadol. Roeddent o'r farn fod hyn yn hanfodol i sicrhau fod y Cyngor yn parhau'n gynhwysol ac yn agored i bawb. Ceisiodd y Pwyllgor Gwaith sicrwydd hefyd y byddai'n bosib addasu'r Cynllun Strategol er mwyn ymateb i ddatblygiadau mewn technoleg yn ystod cyfnod y Cynllun.

Dywedodd y Rheolwr Tîm TG fod prif ffocws y Cynllun ar egwyddorion yn caniatáu hyblygrwydd i ymateb i newid a gellir cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig os bydd angen i adlewyrchu unrhyw ddatblygiadau o bwys ym maes technoleg gwybodaeth. Er hynny, mae'r diffiniad o dechnoleg a digidol yn y Strategaeth yn ddigon eang i ymgorffori elfennau ychwanegol, er enghraifft, os yw'r Cyngor yn dymuno ehangu'r defnydd o ddeallusrwydd artiffisial. Byddai newidiadau o'r fath yn cael eu gwneud mewn ymgynghoriad â'r un rhanddeiliaid a fu'n ymwneud â datblygu'r Cynllun a byddai'n cael ei gymeradwyo trwy'r un sianelau.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod y Cynllun Strategol Digidol yn berthnasol i bawb sy'n ymwneud â'r Cyngor, boed yn weithwyr neu drigolion, a'i bod yn bwysig sicrhau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Cynllun a'r hyn y mae'n ei olygu ar bob lefel o'r Cyngor, yn ogystal â darparu cyfleoedd i ddatblygu a gwella sgiliau technoleg ym mhob gwasanaeth.

**Penderfynwyd –**

- **Cymeradwyo'r Strategaeth Ddigidol drafft a**
- **Chefnogi'r egwyddor o gynllun gweithredol blynyddol**

## 12. CYNLLUN STRATEGOL CYFRANOGIAD TENANTIAID 2024-29

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried a'i gymeradwyo, adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai yn ymgorffori'r Cynllun Strategol Cyfranogiad Tenantiaid ar gyfer 2024-29.

Cyflwynwyd yr adroddiad a'r Cynllun gan y Cynghorydd Gary Pritchard, Aelod Portffolio Gwasanaethau Plant, Ieuenctid a Thai. Datblygwyd y Cynllun i sicrhau fod Gwasanaethau Tai y Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â thenantiaid i ddatblygu a darparu gwasanaethau tai o'r radd flaenaf i drigolion Ynys Môn. Cyfrannodd staff y gwasanaeth Tai a thenantiaid at y gwaith o ddatblygu'r Cynllun trwy gynnal gweithdai a chyfarfodydd gyda Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid Cymru (TPAS) Cymru. O dan Ddeddf Tai Cymru (2014), mae'n rhaid i bob landlord cymdeithasol yng Nghymru roi strategaeth



DRAFT

cyfranogiad tenantiaid ar waith gyda'r nod hirdymor o sicrhau gwelliant parhaus ym mherfformiad y landlord o ran cefnogi a galluogi tenantiaid i gyfranogi. Mae'r cynllun yn ddogfen fyw a bydd yn llywio cysylltiadau ac ymwneud y Gwasanaeth Tai gyda'i denantiaid. Un o'r prif heriau yw cynyddu cyfranogiad tenantiaid a sicrhau fod lleisiau cymaint â phosib o denantiaid yn cael eu clywed, gan gynnwys y grwpiau hynny sy'n cael eu tangynrychioli o safbwynt cynnwys cymunedol.

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth Tai Cymunedol drosolwg o'r Cynllun Strategol, a soniodd fwy am y pedwar maes blaenoriaeth allweddol. Dywedodd y bydd gan ymgysylltu â thenantiaid rôl sylweddol hefyd o ran gweithio tuag at gyflawni Safonau Ansawdd Tai Cymru 2023 a'r penderfyniadau sydd ynghlwm â'r broses honno. Bydd Cynllun Gweithredu deuddeg mis yn cael ei ddatblygu ar y cyd a'i fonitro gan y grŵp monitro Cyfranogiad Tenantiaid a bydd yr Uwch Dîm Rheoli Tai yn paratoi adroddiad cynnydd blynyddol.

Cyflwynodd y Cynghorydd Dyfed Wyn Jones, Is-gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, grynodeb o'r materion a drafodwyd gan y Pwyllgor wrth graffu ar y Cynllun Strategol yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Ionawr 2024 a chadarnhaodd fod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol wedi penderfynu, ar ôl iddo ystyried y dogfennau a gyflwynwyd a gwrando ar y sicrwydd a ddarparwyd gan y Swyddogion a'r Aelod Portffolio ynglŷn â'r pwyntiau a godwyd, argymell y Cynllun i'r Pwyllgor Gwaith ei gymeradwyo.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r Cynllun Strategol Cyfranogiad Tenantiaid 2024-29.**

## 13. CYNLLUN STRATEGOL RHEOLI ASEDAU 2024-29

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai yn ymgorffori'r Cynllun Strategol Rheoli Asedau Tai 2024-29 i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried a'i gymeradwyo.

Cyflwynwyd yr adroddiad a'r Cynllun gan y Cynghorydd Gary Pritchard, Aelod Portffolio Gwasanaethau Plant, Ieuenctid a Thai, a dywedodd ei fod yn caniatáu i'r Cyngor ddeall ei stoc dai a safon ei eiddo yng nghyd-destun Safonau Ansawdd Tai Cymru 2023 a'i fod, oherwydd hynny, yn sicrhau fod y Cyngor yn gwneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn â buddsoddi i wella ei eiddo.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai fod y Cynllun wedi'i ddatblygu i adlewyrchu newidiadau allweddol mewn polisïau cenedlaethol, ynghyd â'r heriau allweddol o gyflawni SATC 2023 a datgarboneiddio. Cwblhawyd arolwg o gyflwr y stoc dai yn 2022/23 a defnyddir y wybodaeth a gasglwyd i fuddsoddi mewn cydrannau allweddol a bydd gwaith gwella effeithlonrwydd ynni'n cael ei wneud hefyd. Bydd cost cyflawni SATC 2023 yn cael ei gynnwys yng Nghynllun Busnes y CRT wrth iddynt ddod yn hysbys. Mae'r Gwasanaeth Tai wedi ymrwymo hefyd i wella'r gwasanaeth trwsio ymatebol a ddarperir i denantiaid y Cyngor yn ystod oes y cynllun.

Amlinellodd y Cynghorydd Dyfed Wyn Jones, Is-gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, y materion a godwyd pan gyflwynwyd y Cynllun Strategol Asedau Tai i'r Pwyllgor yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Ionawr 2024. Ar ôl ystyried y Cynllun ac ymatebion y Swyddogion a'r Aelod Portffolio i'r pwyntiau a godwyd yn ystod y cyfarfod, penderfynodd y Pwyllgor argymell y Cynllun i'r Pwyllgor Gwaith ei gymeradwyo. Wrth nodi fod argaeledd contractwyr yn her o safbwynt gwireddu'r Cynllun, roedd y Pwyllgor wedi gofyn i'r Gwasanaeth Tai ystyried ymarferoldeb sefydlu tîm neu dimau mewnol i gyflawni rhaglenni gwaith a gynlluniwyd yn ystod y pum mlynedd nesaf.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod argaeledd arian cyfalaf yn ystyriaeth bwysig arall, yn enwedig gan nad yw'r arian cyfalaf ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru wedi cynyddu'n



DRAFT

sylweddol ers nifer o flynyddoedd ac, oherwydd hynny, mae cyflawni amcanion y Cynllun Strategol Rheoli Asedau Tai yn debygol o fod yn heriol o ystyried y sefyllfa ariannu bresennol. Er bod y Cyfrif Refeniw Tai yn gyfrif ar wahân ac mae'r arian wedi'i glustnodi ar gyfer gweithgareddau tai, bydd angen buddsoddi'n sylweddol i gwrdd â gofynion amgylcheddol a sero net. Bydd rhaid craffu ar y rhaglen honno trwy sianelau llywodraethiant a democrataidd y Cyngor i sicrhau gwerth am arian, yn ogystal â chyflawni'r canlyniadau gorau ar draws yr ystâd gyfan.

Roedd y Pwyllgor Gwaith yn cydnabod bod fforddiadwyedd yn ffactor pwysig o ran medru gwneud y buddsoddiad angenrheidiol i gwrdd â'r targedau heriol a phellgyrhaeddol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn y SATC 2023, ac hefyd i gyrraedd sero net a dygwyd sylw bod angen gwell cefnogaeth ariannol cyfalaf ar gynghorau yng Nghymru.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r Cynllun Rheoli Asedau Tai 2024-29.**

## 14. ADRODDIAD BLYNYDDOL AR Y CYNLLUN BIOAMRYWIAETH

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd, yn ymgorffori'r Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Bioamrywiaeth, i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried. Roedd yr adroddiad yn nodi'r cynnydd a wnaed gan y Cyngor wrth gyflawni'r amcanion a/neu'r gweithredoedd yn y Cynllun Bioamrywiaeth yn ystod y 12 mis diwethaf, yn unol â'r trefniadau adrodd a gytunwyd gan y Pwyllgor Gwaith pan fabwysiadwyd y Cynllun.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Nicola Roberts, Aelod Portffolio Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd, a dywedodd fod pob gwasanaeth o fewn y Cyngor yn cyfrannu tuag at y dyletswyddau a nodir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Dengys yr Adroddiad Blynyddol sut mae'r Cyngor yn cyflawni'r cyfrifoldeb sydd arno i gynnal a gwella bioamrywiaeth ac mae'n cynnwys enghreifftiau o brosiectau lleol ac astudiaethau achos yn gysylltiedig â gwella bioamrywiaeth a chynefinoedd. Mae rhai ohonynt yn gynlluniau gan y Cyngor yn unig tra bod eraill yn golygu gweithio gydag asiantaethau a phartneriaid eraill. Mae'r adroddiad yn cynnig argymhellion am weithredodd yn y dyfodol i gryfhau capasiti a dealltwriaeth o faterion yn ymwneud â bioamrywiaeth, sefydlu strwythur adrodd ffurfiol o fewn pob gwasanaeth, sefydlu grŵp traws-wasanaeth i arwain ar faterion bioamrywiaeth, hyfforddiant, archwilio ac adolygu dogfennau polisi a chydweithio.

Roedd Aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn cydnabod y gwaith a gyflawnwyd yn ystod y deuddeg mis diwethaf, er gwaethaf rhai heriau o ran adnoddau staff, ac roeddent yn cydnabod hefyd cyfraniad gwerthfawr gwirfoddolwyr a sefydliadau partner i gynorthwyo i wireddu buddiannau bioamrywiaeth.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a chefnogi'r argymhellion ynddo.**

**Y Cynghorydd Llinos Medi**
**Cadeirydd**

DRAFFT

This page is intentionally left blank

# Y PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 29 Chwefror 2024

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Llinos Medi (Cadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Neville Evans, Carwyn Jones, Gary Pritchard, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Nicola Roberts, Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,<br>Pennaeth Democratiaeth,<br>Prif Swyddog Datblygu Economaidd (TJ) (ar gyfer eitem 9),<br>Uwch Reolwr (Ysgolion Uwchradd) (AE),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH),<br>Swyddog Gweddarlledu (FT). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Dyfed W Jones (Is-gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol), Derek Owen, Ieuan Williams.<br>Rheolwr Sgriwtini (AGD), Swyddog Sgriwtini (EA). |

### 1 DATGAN DIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

### 2 MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG

Dim i'w adrodd.

### 3 MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW – CHWARTER 3, 2023/24

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn nodi perfformiad ariannol cyllideb refeniw'r Cyngor ar ddiwedd Chwarter 3, blwyddyn ariannol 2023/2024 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Adroddodd y Cynghorydd Robin Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid fod y Cyngor, ar 9 Mawrth 2023, wedi gosod cyllideb net ar gyfer 2023/2024 gyda gwariant net y gwasanaethau o £174.569m, i'w ariannu o incwm y Dreth Gyngor, Trethi Annomestig a grantiau cyffredinol, yn ogystal â £3.780m o gronfeydd wrth gefn cyffredinol. Y sefyllfa ariannol gyffredinol a ragwelir ar gyfer 2023/2024, gan gynnwys Cyllid Corfforaethol a chronfa'r Dreth Gyngor, yw tanwariant o £0.842m. Mae hyn yn 0.49% o gyllideb net y Cyngor ar gyfer

2023/2024. Cyfeiriodd at baragraff 2.2 – Tabl 1 yn yr adroddiad, sy'n crynhoi'r amrywiadau sylweddol o ran gorwario/tanwario o fewn gwasanaethau'r Cyngor.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod y sefyllfa ariannol yn Chwarter 3 wedi gwella ers Chwarter 2. Nododd fod asesu cleientiaid o fewn Gwasanaethau Oedolion wedi gwella, a bod mwy o incwm wedi'i gynhyrchu na'r hyn a ragwelwyd yn Chwarter 2. Gofynnwyd hefyd i bob gwasanaeth adolygu eu gwariant ac arafu gwariant lle bynnag y bo modd, a llwyddwyd i wneud hyn, gyda mwyafrif y gwasanaethau yn dangos sefyllfa ariannol well ar ddiwedd chwarter 3. Fodd bynnag, tynnodd sylw at y ffaith bod swyddi gwag o fewn yr Awdurdod ac nad yw'r gwasanaethau'n gallu parhau i ofyn i staff wneud gwaith swyddi nad ydynt wedi'u llenwi. Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 ymhellach y gall y lefelau incwm ychwanegol a welwyd yn ystod y trydydd chwarter amrywio hefyd ac efallai na fydd yn cael ei ailadrodd yn 2024/2025. Mae grantiau untro ychwanegol a dderbyniwyd hefyd wedi lleddfu'r sefyllfa, ond pwysleisiodd nad oes modd ystyried grantiau o'r fath yng nghyllideb 2024/2025.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi'r sefyllfa a amlinellir yn Atodiadau A a B mewn perthynas â pherfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro a ddisgwylir ar gyfer 2023/2024;**
- **Nodi'r crynodeb o gyllidebau Wrth Gefn ar gyfer 2023/24, y manylir arnynt yn Atodiad C;**
- **Nodi'r modd y caiff costau asiantaeth ac ymgynghorwyr eu monitro ar gyfer 2023/24 yn Atodiadau CH a D.**

## 4 MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF - CHWARTER 3, 2023/24

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn nodi perfformiad ariannol y Gyllideb Gyfalaf ar ddiwedd Chwarter 3 blwyddyn ariannol 2023/24 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Dywedodd y Cynghorydd Robin Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid fod y Cyngor wedi cymeradwyo rhaglen gyfalaf ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai o £24.405m ar gyfer 2023/2024, a rhaglen gyfalaf o £13.557m ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai (CRT). Yn ogystal â hyn, ym mis Mehefin 2023, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith i lithriad cyfalaf o £13.477m gael ei ddwyn ymlaen o 2022/2023, a daw hyn â chyfanswm y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai i £ £33.532m, a £17.907m ar gyfer y CRT. Ers cwblhau'r broses o osod y gyllideb, ychwanegwyd cynlluniau at y rhaglen, y rhan fwyaf ohonynt yn cael eu cyllido gan grantiau, yn ogystal ag addasu cyllid, a daw hyn i gyfanswm o £9.396m. Mae'r Pwyllgor Gwaith hefyd wedi cymeradwyo swm ychwanegol o £1.26m ar gyfer cynllun o dan y CRT. Daw hyn â chyfanswm y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2023/24 i £62.095m. Dangosir hyn yn Nhabl 1.2 yr adroddiad. Y gyllideb a broffiliwyd ar ddiwedd Chwarter 3 oedd £31.115m tra bod y gwariant gwirioneddol yn £30.790m. Nododd y bydd unrhyw gynlluniau a ragwelwyd sydd wedi llithro o'r flwyddyn hon yn cael eu trosglwyddo i'r flwyddyn ariannol nesaf.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod disgwyl i ddau brosiect a ariennir gan grant Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag Anghenion Dysgu Ychwanegol gael eu had-dalu oherwydd nad oedd gwaith yn gallu cael ei wneud yn unol â thelerau ac amodau'r grant oherwydd yr angen i flaenoriaethu materion RAAC yn Ysgol Uwchradd Caergybi a chapasiti'r tîm Eiddo. Nododd fod trafodaethau wedi'u cynnal gyda Llywodraeth Cymru i ganiatáu iddynt drosglwyddo'r ddau brosiect ariannu grant i'r flwyddyn ariannol nesaf ond ni ddaethpwyd i gytundeb hyd yma. Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 ymhellach y rhagwelir y bydd tanwariant o £9.2m ond mae £5.8m yn ddyledus i'r prosiectau Ffyniant Bro yng Nghaergybi sydd wedi llithro i'r flwyddyn ariannol nesaf.

Mynegodd aelodau'r Pwyllgor Gwaith siom fod disgwyl i'r ddau grant gan Lywodraeth Cymru tuag at Anghenion Dysgu Ychwanegol gael eu had-dalu oherwydd bod yr Awdurdod hwn wedi gorfod delio â materion RAAC mewn ysgolion. Dywedodd yr Arweinydd y byddai'n ysgrifennu'n ffurfiol at Lywodraeth Cymru ar ran Aelod Portffolio Cyllid ac Aelod Portffolio Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc i fynegi eu siom bod disgwyl i'r grant gael ei ad-dalu a gofyn am estyniad i ddyddiad cau amodau'r grant.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi cynnydd y gwariant a'r derbyniadau yn erbyn y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2023/24 yn Chwarter 3;**
- **Cymeradwyo'r cynlluniau ychwanegol gwerth £9.396m a ychwanegwyd i'r rhaglen gyfalaf a'r cyllid diwygiedig, yn unol ag Atodiad C, a fydd yn rhoi cyllideb gyfalaf ddiwygiedig o £62.095m ar gyfer 2023/2024;**
- **Bod Arweinydd y Cyngor yn ysgrifennu'n ffurfiol at Lywodraeth Cymru i wneud cais am estyniad i ddyddiad cau amodau'r grant.**

## 5 MONITRO CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI - CHWARTER 3, 2023/24

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn nodi perfformiad ariannol Cyllideb Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer Chwarter 3 2023/24 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynodd y Cynghorydd Robin Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid yr adroddiad a oedd yn nodi perfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai am y cyfnod rhwng 1 Ebrill, 2023 a 31 Mawrth, 2024 yn cynnwys gwariant refeniw a chyfalaf. Pwysleisiodd fod y CRT wedi'i glustnodi, ac ni ellir defnyddio ei gronfeydd wrth gefn at ddibenion heblaw ariannu costau sy'n ymwneud â stoc dai'r Cyngor gan gynnwys datblygu tai newydd. Mae'r adroddiad yn dangos bod gan y gyllideb refeniw warged a gynlluniwyd o £8,044k. Y gyllideb cyfalaf gros ar gyfer 2023/2024 yw £19,988k. Mae grantiau a chyllideb ariannu arall o £6,890k yn gostwng y gyllideb net i £13.090k. Roedd cyfuniad o'r gyllideb refeniw a'r gyllideb gyfalaf wedi'i haddasu yn rhoi diffyg a gynlluniwyd o £5,046k, a fyddai'n cael ei gyllido o gronfa wrth gefn y CRT.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod buddsoddiad darbodus a chyfraddau llog uchel wedi arwain at gynhyrchu mwy o incwm ar gyfer y CRT. Nododd fod lefel gyffredinol y ddarpariaeth ar gyfer dyledion gwael yn is na'r hyn a ragwelwyd ddechrau'r flwyddyn. Nododd ymhellach fod Cynnal a Chadw Tai yn dangos tanwariant o £432k ar ddiwedd Chwarter 3. Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 at y gwariant cyfalaf a dywedodd ei fod yn rhagweld gorwariant ar y gwariant cyfalaf fel y nodir yn Atodiad B yn yr adroddiad. Nododd fod oedi o ran rhai prosiectau oherwydd eu bod yn aros i Scottish Power uwchraddio'r seilwaith er mwyn caniatáu i'r Awdurdod osod paneli solar ar eiddo. Cyfeiriodd at Atodiad C yr adroddiad sy'n tynnu sylw at y gyllideb datblygiadau newydd ar gyfer 2023/2024.

Croesawodd y Pwyllgor Gwaith y datblygiadau tai newydd ar yr Ynys a ariennir drwy'r cyfrif CRT ond mynegwyd pryder bod yr oedi a achosir gan Scottish Power i uwchraddio'r seilwaith yn golygu bod oedi yn achos rhai prosiectau.

**PENDERFYNWYD nodi'r canlynol:-**

- **Y sefyllfa a nodir mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer Chwarter 3 2023/2024;**
- **Yr alldro a ragwelir ar gyfer 2023/2024;**
- **Bod Arweinydd y Cyngor yn ysgrifennu at Scottish Power/National Grid yn mynegi pryderon am waith sydd angen ei wneud ac sy'n achosi oedi i waith yr Awdurdod.**

## 6 STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG A CHYLLIDEB 2024/25

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn nodi'r cynigion manwl ar gyfer cyllideb refeniw 2024/2025 i'r Pwyllgor Gwaith ei adolygu'n derfynol a rhoi sêl bendith arno.

Dywedodd y Cynghorydd Robin Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid fod gofyn i'r Pwyllgor Gwaith gytuno ar nifer o faterion allweddol mewn perthynas â chyllideb 2024/25. Bydd modd wedyn i'r argymhellion terfynol gael eu cyflwyno i'r Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar 7 Mawrth, 2024. Y materion y mae angen cytuno arnynt yw Cyllideb Refeniw'r Cyngor ac yn sgil hynny, y Dreth Gyngor ar gyfer 2024/2025; Strategaeth Ariannol Tymor Canolig wedi'i diweddaru gan y Cyngor a'r defnydd o unrhyw gronfeydd untro i gefnogi'r gyllideb.

Ym mis Ionawr 2024, cynigiodd y Pwyllgor Gwaith gyllideb o £184.219m ar gyfer 2024/25 a oedd yn seiliedig ar y Cyllid Allanol Cyfun dros dro o £126.973m, byddai hyn yn gofyn am gynnydd o 10.9% yn y Dreth Gyngor a defnyddio £4.425m o falansau cyffredinol y Cyngor i gydbwyso'r gyllideb. Wrth osod y gyllideb, cydnabu'r Pwyllgor Gwaith yr angen i ddiogelu gwasanaethau rheng flaen a chynyddu cyllidebau i fodloni'r galw cynyddol mewn gwasanaethau Oedolion a Phlant. Roedd y gyllideb arfaethedig yn cynnwys cyfyngu'r cynnydd chwyddiant ar gyfer cyllideb ddatganoledig ysgolion, gan olygu gostyngiad o £1.25m yn y gyllideb, ac roedd yn cynnwys targed arbedion o £1m a fyddai'n cael ei gyflawni trwy leihau'r gweithlu, peidio â defnyddio premiwm y Dreth Gyngor i gyllido prosiectau tai am un flwyddyn, gan arbed £1.2m, yn ogystal ag arbedion eraill yn y gyllideb a phrosiectau

cynhyrchu incwm gwerth £1.327m.  Er bod yr amserlen rhwng cyhoeddi'r gyllideb arfaethedig gychwynnol a'r dyddiad terfynol ar gyfer gosod y Dreth Gyngor yn un fer, cynhaliwyd ymgynghoriad a oedd yn cynnwys ymgynghori o fewn Fforwm y Cynghorau Tref a Chymuned, Fforwm Pobl Ifanc, Fforwm Pobl Hŷn, Fforwm Cyllid Ysgolion ynghyd â phroses ymgynghori ar-lein.
Dywedodd yr Aelod Portffolio fod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi maes o law y byddai cynghorau yn Lloegr yn derbyn £600m yn ychwanegol mewn cyllid yn 2024/25.  Bydd Llywodraeth Cymru'n derbyn £25m o gyllid canlyniadol yn sgil y cyllid ychwanegol hwn, ac maent wedi cadarnhau y caiff £10.6m o'r cyllid ychwanegol ei ddefnyddio i adfer Grant y Gweithlu Gofal Cymdeithasol i lefel 2023/24. Mae'r £14.4m sy'n weddill wedi cael ei ddyrannu gan ddefnyddio fformiwla'r setliad Llywodraeth Leol. Effaith y cyllid ychwanegol hwn yw cynnydd o £332k yn y Cyllid Allanol Cyfun.  Nododd hefyd fod Awdurdod Tân Gogledd Cymru wedi adolygu eu cyllideb arfaethedig derfynol sydd wedi arwain at ostyngiad o £87k yn yr ardoll y mae'n rhaid i'r Cyngor ei hariannu.

At hyn, dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid fod y sefyllfa ariannol ychydig yn well na'r hyn a ragwelwyd ar ddechrau'r broses gyllideb gychwynnol.  Er bod cyllideb ysgolion wedi cynyddu, mae'r Pwyllgor Gwaith wedi penderfynu y bydd y cyfyngiad ar y cynnydd i ysgolion yn cael ei ostwng o 2.5% i 1.5% a fydd yn arwain at gynnydd o £498k i gyllideb gyffredinol ysgolion o'i gymharu â'r gyllideb a osodwyd yn y gyllideb arfaethedig ar y cychwyn.  Mae'r cynnydd yn y Dreth Gyngor hefyd yn cael ei ostwng i 9.5%, ac mae 0.9% yn gysylltiedig â'r cynnydd yn ardoll yr Awdurdod Tân, a 8.6% yn gysylltiedig â gofyn cyllidebol y Cyngor. Mae hyn yn gynnydd o £136.44 yn y Dreth Gyngor ar gyfer eiddo Band D, cyfanswm y gost i eiddo Band D fydd £1,572.30.  Mae'r cynnig i leihau oriau agor Canolfannau Hamdden yn cael ei addasu i ganiatáu i Ganolfan Hamdden Amlwch aros ar agor tan 3.00 p.m., yn hytrach na chau am 1.00 p.m., fel y cynigiwyd yn y gyllideb arfaethedig gychwynnol ar gost ychwanegol o £12k.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod y setliad terfynol wedi'i dderbyn gan Lywodraeth Cymru sydd £175 yn uwch nag a nodir yn yr adroddiad.  Dywedodd mai'r prif risg i'r gyllideb yw nad oes cynnig tâl wedi'i wneud ar gyfer staff NJC ar gyfer 2024/2025; er bod codiad cyflog o 3.5% wedi'i gynnwys yn y broses o osod y gyllideb, bydd yn rhaid mynd i'r afael ag unrhyw godiad cyflog ychwanegol.  Nid yw Llywodraeth Cymru wedi nodi eto beth fydd dyfarniad tâl athrawon o fis Medi 2024, felly, mae cryn ansicrwydd o hyd o ran chwyddiant tâl.   Nododd fod chwyddiant yn llai o risg eleni a rhagwelir y bydd yn gostwng dros y flwyddyn.  Mae cyfraddau llog uchel wedi bod yn fuddiol o ran buddsoddiadau'r Cyngor.  Ychwanegodd ymhellach fod risgiau hefyd i'r nifer fawr o grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru, neu gyrff eraill, sy'n darparu dros £25m o gyllid ychwanegol.  Mae'r setliad terfynol yn dangos y bydd mwyafrif y grantiau a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru yn aros ar lefel 2023/2024 neu byddant yn gostwng ar sail Cymru gyfan.  Yn ôl y rhagolygon cychwynnol, bydd cyllid grant i ysgolion rhwng 8% a 10% yn is nac yn 2023/24.  Mae'r gyllideb arfaethedig yn cynnwys nifer o dybiaethau o ran lefelau tebygol o incwm a gwariant yn y blynyddoedd i ddod, ac yn anochel mae nifer o risgiau ariannol yn y gyllideb arfaethedig.  Er ei bod yn amlwg bod pobl yn cael trafferth gyda'r argyfwng costau byw, gall y cynnydd yn y Dreth Gyngor fod yn risg na fydd pobl yn gallu fforddio talu a gall dyledion gynyddu.  Fodd bynnag, mae lefel casglu'r Dreth Gyngor wedi

sefydlogi i lefelau cyn y pandemig.  Risg ychwanegol fydd y cynnydd yn y premiwm ar ail gartrefi o 75% i 100%.   Gallai'r cynnydd annog perchnogion ail gartrefi i werthu neu osod eu heiddo.

Ar ôl ystyried lefel balansau cyffredinol y Cyngor, balansau ysgolion, cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi a chyllidebau wrth gefn, mae'r Swyddog Adran 151 yn fodlon bod sefyllfa ariannol y Cyngor yn ddigon cadarn i wrthsefyll unrhyw anawsterau a allai godi yn ystod 2024/2025.  Fodd bynnag, er bod gan y Cyngor ddigon o adnoddau wrth gefn i'w alluogi i ddefnyddio rhywfaint o'r arian hwnnw i gydbwyso'r gyllideb ar gyfer 2024/25, nid yw hon yn strategaeth gynaliadwy yn y tymor hir. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a ddiweddarwyd ar gyfer 2025/26 a 2026/27 yn Nhabl 5 yr adroddiad, sy'n seiliedig ar ragdybiaethau ynghylch chwyddiant, tâl a'r setliad llywodraeth leol a allai newid wrth i 2025/26 agosáu, yn dangos y bydd angen torri gwariant y gyllideb refeniw net yn sylweddol yn 2025/26 (dros £7m); er y gallai hyn gael ei wrthbwyso'n rhannol trwy ddefnyddio mwy o'r arian wrth gefn, dim ond gohirio'r angen i dorri'r gyllideb yn 2026/27 a wna hyn. Mae'r sefyllfa yn gwella yn 2026/27 gyda'r disgwyliad y bydd chwyddiant wedi gostwng yn ôl i darged Banc Lloegr o 2% ac y bydd y cynnydd ariannol gan Lywodraeth Cymru yn cyd-fynd â chwyddiant.  Y newid na wyddys fydd galw am wasanaethau gofal cymdeithasol a digartrefedd, a all roi pwysau sylweddol ar gyllidebau pe baent yn cynyddu.

Rhoddodd y Cynghorydd Dyfed W Jones, Is-gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol adroddiad ar drafodaethau'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 27 Chwefror, 2024 mewn perthynas â'r gyllideb ddrafft arfaethedig derfynol.  Cadarnhaodd fod y Pwyllgor wedi holi'r Swyddogion a'r Aelod Portffolio Cyllid ynghylch gallu'r gyllideb i ymateb i'r pwysau a'r galw ar wasanaethau; effaith y cynigion ar ddinasyddion Ynys Môn neu unrhyw grwpiau gwarchodedig a'r defnydd o gyllid a ryddhawyd o ganlyniad i newidiadau mewn ardollau a chyfraniadau i wasanaethau ar y cyd ar ôl i'r gyllideb arfaethedig gychwynnol gael ei gosod. Roedd y Pwyllgor hefyd wedi ystyried pa gamau y mae'r Pwyllgor yn bwriadu eu cymryd i fynd i'r afael â'r bwlch cyllido a ragwelir yn 2025/2026 ac effaith bosibl y cap arfaethedig o 1.5% ar y cynnydd chwyddiant i ysgolion.  Gofynnwyd cwestiynau pellach ynghylch a yw'r cynnig i leihau'r cynnydd yn y Dreth Gyngor yn creu risg ariannol i'r Cyngor yn y dyfodol ac effaith y cynnydd arfaethedig o 9.5% yn y Dreth Gyngor ar bobl sy'n ei chael hi'n anodd talu a ph'un ai a oes unrhyw gymorth ar gael iddynt.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid fod y Pwyllgor Gwaith hefyd wedi penderfynu rhyddhau £200k o'r balansau cyffredinol i gronfeydd wrth gefn ysgolion.  Dywedodd fod y Pwyllgor Gwaith wedi cytuno y bydd £50k arall yn cael ei drosglwyddo i'r balansau cyffredinol ar gyfer cronfeydd wrth gefn ysgolion gan arwain at gyfanswm o £250k.

Mynegodd aelodau'r Pwyllgor Gwaith mor anodd oedd y broses o osod cyllideb 2024/25. Er y cydnabuwyd bod defnyddio cronfeydd wrth gefn i gydbwyso'r gyllideb yn risg, mae'r Pwyllgor Gwaith yn ymwybodol o effaith yr argyfwng costau byw ar aelwydydd ac yn cydnabod bod yn rhaid cynllunio'n ofalus cyn blwyddyn ariannol 2025/26 i weld beth arall y gellir ei wneud i amddiffyn trigolion Ynys Môn. I'r perwyl hwn awgrymwyd bod yn rhaid cael setliad gwell i lywodraeth leol i helpu'r cyngor hwn a chynghorau eraill i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol, cadw i fyny â thâl a chwyddiant ac i gynnal a/neu wella gwasanaethau.   Diolchodd y Pwyllgor Gwaith

i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a staff y Gwasanaeth Cyllid am eu gwaith ar y broses o osod y gyllideb ynghyd â'r adroddiadau eraill yn ymwneud â'r gyllideb/cyllid ar agenda'r cyfarfod hwn.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Cytuno ar fanylion terfynol cyllideb arfaethedig y Cyngor, fel y'i dangosir yn Adran 4 o Atodiad 1 ac yn Atodiad 2;**
- **Nodi argymhelliad y Swyddog Adran 151 y dylai'r Cyngor gadw o leiaf £9.2m o falansau cyffredinol;**
- **Nodi sylwadau'r Swyddog Adran 151 ar gadernid yr amcangyfrifon, fel y nodir yn Adran 5 o Atodiad 1;**
- **Argymell i'r Cyngor llawn gyllideb net o £184.165m ar gyfer y Cyngor Sir ac, yn sgil hynny, cynnydd o 9.50% yn y Dreth Gyngor (8.6% ar gyfer Gwasanaethau'r Cyngor a 0.9% ar gyfer yr Ardoll Tân) (£136.44 – Band D), gan nodi y caiff cynnig ffurfiol, yn cynnwys praeseptau Heddlu Gogledd Cymru a Chynghorau Tref a Chymuned, ei gyflwyno i'r Cyngor ar 7 Mawrth 2024, 2024;**
- **Bod addasiad yn cael ei wneud ar gyfer unrhyw fân wahaniaethau rhwng y setliad dros dro a'r setliad terfynol, gan ddefnyddio'r gyllideb wrth gefn gyffredinol sydd wedi'i chynnwys yng nghyllideb 2024/25, neu trwy wneud cyfraniad i / o arian wrth gefn cyffredinol y Cyngor er mwyn gosod cyllideb gytbwys;**
- **Awdurdodi'r Swyddog Adran 151 i wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol cyn cyflwyno'r cynigion terfynol i'r Cyngor;**
- **Cytuno bod £250k yn cael ei drosglwyddo i gyllideb wrth gefn ysgolion o'r tanwariant addysg canolog yn 2023/2024.**
- **Cytuno y gellir defnyddio cyllid o'r gyllideb wrth gefn gyffredinol i gwrdd ag unrhyw bwysau annisgwyl ar gyllidebau seiliedig ar alw yn ystod y flwyddyn ariannol;**
- **Gofyn i'r Cyngor awdurdodi'r Pwyllgor Gwaith i ryddhau hyd at £250k o'r balansau cyffredinol os bydd y gyllideb wrth gefn gyffredinol yn cael ei hymrwymo'n llawn yn ystod y flwyddyn;**
- **Dirprwyo i'r Swyddog Adran 151 yr hawl i ryddhau cyllid o hyd at £50k o'r gyllideb wrth gefn gyffredinol ar gyfer unrhyw eitem unigol. Ni ddylid caniatáu unrhyw eitem gwerth dros £50k heb ganiatâd o flaen llaw y Pwyllgor Gwaith;**
- **Cadarnhau bod lefel Premiwm y Dreth Gyngor ar gyfer ail gartrefi yn codi i 100% ac yn aros ar 100% ar gyfer tai gwag.**

## 7 STRATEGAETH GYFALAF 2024 - 2029

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn cynnwys Strategaeth Gyfalaf 2024 - 2029 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Dywedodd y Cynghorydd Robin Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid fod Cod Darbodus diwygiedig CIPFA (Medi 2017) yn gofyn i bob awdurdod baratoi strategaeth gyfalaf. Mae'n rhaid iddi osod y cyd-destun tymor hir ar gyfer

gwneud penderfyniadau ynghylch gwariant cyfalaf a buddsoddi. Bwriad y gofyniad hwn yw sicrhau bod awdurdodau'n gwneud penderfyniadau ynghylch cyfalaf a buddsoddi yn unol ag amcanion y gwasanaeth, ac yn rhoi ystyriaeth lawn i stiwardiaeth, gwerth am arian, bod yn ddarbodus, cynaliadwyedd a fforddiadwyedd.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod y Strategaeth Gyfalaf yn gysylltiedig â nifer o gynlluniau a strategaethau allweddol eraill. Dywedodd fod bwlch rhwng gofyniad cyfalaf y Cyngor i foderneiddio ac uwchraddio asedau presennol a chyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol o fwy na £300m dros y 5 mlynedd nesaf. Mae'r isafswm cyllid sydd ar gael drwy fenthyca â chefnogaeth a'r grant cyfalaf cyffredinol yn annigonol er mwyn cyllido'r isafswm sydd ei angen i gynnal asedau presennol y Cyngor i lefel sy'n galluogi'r asedau hynny i gael eu gweithredu'n ddiogel ac effeithiol. Byddai lefel y benthyca yn anghynaladwy oherwydd sefyllfa ariannol a chyfraddau llog uchel.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo ac argymell Strategaeth Gyfalaf 2024-2029 i'r Cyngor Llawn.**

## 8 CYLLIDEB GYFALAF 2024/25

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn cynnwys y gyllideb gyfalaf arfaethedig ar gyfer 2024/25 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Dywedodd y Cynghorydd Robin Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid fod y Gyllideb Gyfalaf ar gyfer 2024/25 yn ystyried yr egwyddorion a nodwyd yn y Strategaeth Gyfalaf a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn ym mis Mawrth 2023. Dangosir y cyllid sydd ar gael i ariannu'r rhaglen gyfalaf ar gyfer 2024/25 yn Nhabl 1 yr adroddiad. Mae'r ffigwr ar gyfer y Grant Cyfalaf Cyffredinol a Benthyca â Chymorth yn seiliedig ar ffigurau dros dro Llywodraeth Leol. Dangosir y rhaglen gyfalaf arfaethedig fanwl derfynol yn Atodiad 2 i'r adroddiad.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod y cyllid cyfalaf cyffredinol a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2024/2025 £12k yn uwch na'r dyraniad ar gyfer 2023/2024 a'i fod yn cyd-fynd â'r lefelau cyllido a welwyd dros y 12 mlynedd diwethaf. Ni fu cynnydd sylweddol mewn cyllid, er bod gwerth y cyllid wedi lleihau'n sylweddol oherwydd chwyddiant yn ystod y cyfnod hwn. Nid oes prosiectau ychwanegol wedi'u cynnwys yn y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2024/25. At hyn, dywedodd fod gwaith y Cyngor i foderneiddio'r ystâd ysgolion, drwy raglen Cymunedau Dysgu Llywodraeth Cymru yn parhau, er bod y rhaglen bresennol ond yn cynnwys cwblhau estyniad Ysgol y Graig. Adroddodd ymhellach ar y Cyfrif Refeniw Tai, sy'n gyfrif wedi'i glustnodi, o ran gwariant refeniw a chyfalaf fel ei gilydd. Yn y rhaglen arfaethedig ar gyfer 2024/25, bydd buddsoddiad yn parhau yn y stoc bresennol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus gyda safonau SATC ac i ddatblygu eiddo newydd.

Rhoddodd y Cynghorydd Dyfed W Jones, Is-gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol adroddiad ar drafodaethau'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 27 Chwefror, 2024 mewn perthynas â chyllideb gyfalaf 2024/2025. Cadarnhaodd fod y Pwyllgor

wedi cael adborth gan y Panel Sgriwtini Cyllid a'i fod wedi rhoi ystyriaeth ofalus i'r rhaglen gyfalaf arfaethedig a'r cynlluniau o fewn cyd-destun y cyllid cyfalaf cyfyngedig sydd ar gael ar gyfer rhaglen gyfalaf a chynlluniau cyfalaf y gronfa gyffredinol a'i fod wedi gofyn am eglurhad gan y Swyddogion a'r Aelod Portffolio ynghylch sut mae'r cynigion hynny am gyflawni blaenoriaethau tymor canolig y Cyngor wrth gydbwyso pwysau tymor byr yn ogystal ag i ba raddau y mae'r Cyngor yn gallu pennu ei flaenoriaethau a'i wariant cyfalaf ei hun. Gofynnwyd am eglurhad pellach ynglŷn ag effaith y CRT ar y stoc dai a thenantiaid ac unigolion sydd ar y rhestr aros am dŷ.   Ar ôl craffu ar gyllideb gyfalaf ddrafft arfaethedig derfynol y Pwyllgor Gwaith ar gyfer 2024/25, penderfynodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol gefnogi ac argymell y gyllideb gyfalaf ddrafft arfaethedig ar gyfer 2024/25 i'r Pwyllgor Gwaith fel y'i cyflwynwyd.

**PENDERFYNWYD argymell y Rhaglen Gyfalaf ganlynol i'r Cyngor Llawn ar gyfer 2024/25:**

| | **£'000** |
|---|---|
| **Cynlluniau 2023/24 2023/24 a ddygwyd ymlaen** | **6,102** |
| **Atgyweirio / Newid Asedau** | **4,856** |
| **Rhaglen Cymunedau Dysgu** | **2,878** |
| **Cyfrif Refeniw Tai (CRT)** | **30,002** |
| | |
| **Cyfanswm Rhaglen Gyfalaf Arfaethedig 2024/25** | **43,838** |
| | |
| **Cyllidir gan:** | |
| | |
| **Grant Cyfalaf Cyffredinol** | **2,222** |
| **Cronfa Gyffredinol Benthyca â Chymorth** | **2,164** |
| **Cyllid/Cynllun wedi'i Ddadneilltuo a ddygwyd ymlaen o 2023/24** | **470** |
| **Cymunedau Dysgu – Benthyca Heb Gymorth** | **2,700** |
| **Arian wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf** | **178** |
| **Arian Wrth Gefn y CRT a Gwarged yn y Flwyddyn** | **17,315** |
| **Grantiau Allanol y CRT** | **11,751** |
| **Benthyca Heb Gymorth y CRT** | **936** |
| **Cyllid 2023/24 a ddygwyd ymlaen** | **6,102** |
| | |
| **Cyfanswm Cyllid Cyfalaf** | **43,838** |

## 9 GWELLA DIBYNADWYEDD A CHYDNERTHEDD AR DRAWS Y FENAI

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd a oedd yn cynnwys Gwella Dibynadwyedd a Chydnerthedd ar draws y Fenai i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Dywedodd yr Arweinydd, ac Aelod Portffolio Datblygu Economaidd fod Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru (CTGC) wedi ei sefydlu yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i ganslo'r bwriad i adeiladu trydedd bont bosibl ar draws y Fenai.  Dywedodd fod dau bryder sylfaenol gyda chanfyddiadau'r CTGC. Yn gyntaf, nid yw'n ystyried opsiynau ar gyfer gwella cydnerthedd cysylltiadau ar draws y

Fenai gan ei bod yn ymddangos bod yr opsiwn ar gyfer gwella'r seilwaith ar gyfer cerbydau wedi'i ddiystyru ar y cychwyn ac yn ail mae hyn yn arwain at argymhellion sy'n gwbl annigonol ar gyfer mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu Ynys Môn a'r ardal ehangach.  Bydd yr argymhellion naill ai'n cael ychydig iawn o effaith ar wella cysylltedd ar draws Afon Menai, neu'n arwain at risgiau / ansicrwydd difrifol o ran eu cyflenwi (gan gynnwys eu bod eisoes wedi'u diystyru).  At hyn, dywedodd yr Arweinydd ei bod o'r farn nad yw'r CTGC wedi ystyried gwir ddiffyg cydnerthedd y ddwy bont ar draws Afon Menai i bobl Ynys Môn o ran mynediad i Ysbyty Gwynedd, sefydliadau addysg, teithio i'r gwaith ac fe allai effeithio ar ddiogelwch a pheryglu bywydau pe bai'r ddwy bont yn cael eu cau. At hyn, dywedodd fod enghreifftiau bod disgyblion wedi methu â mynd i arholiadau oherwydd bod y pontydd ar gau.

Dywedodd yr Arweinydd ei bod yn bwysig bod yr adroddiad yn cael ei rannu gydag Aelodau Cynulliad y rhanbarth i gefnogi safbwynt y Cyngor er budd rhanbarth Gogledd Cymru.  Awgrymodd y dylai ysgrifennu at Brif Weinidog newydd Llywodraeth Cymru, ar ôl ei benodi, i fynegi pryderon yr Awdurdod ynghylch dibynadwyedd a chydnerthedd ar draws y Fenai.

Dywedodd y Prif Swyddog Datblygu Economaidd na fydd yr argymhellion yn adroddiad y CTGC yn datrys cydnerthedd ar draws Afon Menai a'i fod yn rhwystro gallu'r Ynys i ddenu busnesau a gweithgarwch economaidd ac yn enwedig y statws Porthladd Rhydd a sicrhawyd gan yr Ynys.

Dywedodd y Cynghorydd Dafydd R Thomas, Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo nad yw'r CTGC wedi ystyried anghenion yr Ynys i deithio yn ôl a blaen i'r tir mawr.  Mae cydnerthedd y pontydd yn bwysig i'r economi, twristiaeth ac i nwyddau allu teithio'n ôl a blaen i Borthladd Caergybi.

Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Gwaith fod yn rhaid ystyried y bydd Pont Menai yn 200 oed ymhen dwy flynedd ac mae Pont Britannia yn 175 oed.  Ar hyn o bryd gwneir gwaith brys ar Bont Menai oherwydd ei hoed, gan arwain at lai o gapasiti a bydd y gwaith hwn yn parhau tan o leiaf 2025.  Mynegwyd y byddai unrhyw ddamwain a allai ddigwydd ar y pontydd yn cael effaith niweidiol ar y rhwydwaith priffyrdd.  Cyfeiriodd y Pwyllgor Gwaith at statws Porthladd Rhydd a'r angen i sicrhau bod nwyddau'n teithio'n rhydd ar draws coridor priffyrdd Gogledd Cymru.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Cytuno bod y Prif Weithredwr yn anfon llythyr ffurfiol at Lywodraeth Cymru yn apelio iddynt newid eu polisi mewn perthynas â chroesfan y Fenai, a'u bod yn cydnabod yr angen i roi sylw i'r sefyllfa annigonol a'r diffyg cydnerthedd sy'n bodoli;**
- **Cytuno bod y Prif Weithredwr yn rhannu ein hadroddiadau gydag aelodau Senedd rhanbarthol yng Nghymru, partneriaid a rhanddeiliaid rhanbarthol er mwyn dylanwadu arnynt, a'u bod nhw'n cefnogi safbwynt y Cyngor er budd rhanbarth Gogledd Cymru;**
- **Bod Arweinydd y Cyngor yn ysgrifennu'n ffurfiol at Brif Weinidog newydd Cymru, unwaith y bydd wedi'i benodi, yn mynegi pryderon am ddibynadwyedd a chydnerthedd ar draws Y Fenai.**

**CYNGHORYDD LLINOS MEDI**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 19 March 2024 |
| Pwnc / Testun: | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith |
| Deilydd(ion) Portffolio: | Y Cynghorydd Llinos Medi |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro |
| Awdur yr Adroddiad: | Dyfan Sion, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |
| Aelodau Lleol: | Amherthnasol |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Ebrill – Tachwedd 2024;**

adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor;

nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

## B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

**-**

## C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio.



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydy'. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Amherthnasol. |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Amherthnasol. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Tîm Arweinyddiaeth. |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | Dan amgylchiadau arferol, cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt. |
| 9 | Aelodau Lleol | Amherthnasol. |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Ebrill – Tachwedd 2024 |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| |



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

## Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

## Cyngor Sir Ynys Môn

### Cyfnod: Ebrill – Tachwedd 2024

Mae’r flaen raglen waith hon yn rhestru’r holl benderfyniadau y mae’r Pwyllgor Gwaith yn bwriadu eu gwneud a pha fusnes y bydd y pwyllgorau sgriwtini yn ei ystyried ynghyd â phryd y bydd y materion hynny’n cael eu trafod. Mae hefyd yn rhestru unrhyw argymhellion y mae’r Pwyllgor Gwaith yn bwriadu eu gwneud mewn perthynas â phenderfyniadau y mae’n rhaid eu gwneud gan y Cyngor llawn.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o’r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig.

Mae’r flaen raglen waith yn cael ei hadolygu’n rheolaidd ac fe gyhoeddir diweddariad yn fisol. Nid yw’r ffaith nad yw penderfyniad wedi’i gynnwys yn y flaen raglen waith yn atal materion brys neu rai na ragwelwyd rhag cael eu hystyried.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

Diweddarwyd ddiwethaf ar 5 Mawrth 2024

## Ebrill 2024

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod 23 Ebrill 2024 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Llinos Medi | |

## Mai 2024

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod 23 Mai 2024 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Llinos Medi | |

Tudalen 27

## Mehefin 2024

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Penderfyniad dirprwyiedig: Mehefin 2024 | Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2023/24 | Cyng Dafydd Roberts | |
| Cyfarfod 25 Mehefin 2024 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Llinos Medi | |
| | Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Chwarter 4, 2023/24 | Cyng Robin Williams | |
| | Monitro Cyllideb Refeniw – Chwarter 4, 2023/24 | Cyng Robin Williams | |

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| | Monitro Cyllideb Gyfalaf – Chwarter 4, 2023/24 | Cyng Robin Williams | |
| | Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai – Chwarter 4, 2023/24 | Cyng Robin Williams | |
| | Cynllun Rheoli Ystad Mân-ddaliadau 2024-2034 | Cyng Dafydd Rhys Thomas | |
| | Moderneiddio Cyfleon Dydd: Anableddau | Cyng Alun Roberts | |

## Gorffennaf 2024



| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod 16 Gorffennaf 2024 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Llinos Medi | |
| | Asesiad y Farchnad Dai Leol | Cyng Gary Pritchard | |

## Medi 2024

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod 24 Medi 2024 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Llinos Medi | |
| | Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Chwarter 1, 2024/25 | Cyng Robin Williams | |
| | Monitro Cyllideb Refeniw – Chwarter 1, 2024/25 | Cyng Robin Williams | |
| | Monitro Cyllideb Gyfalaf – Chwarter 1, 2024/25 | Cyng Robin Williams | |
| | Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai – Chwarter 1, 2024/25 | Cyng Robin Williams | |



## Hydref 2024

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod 22 Hydref 2024 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Llinos Medi | |

## Tachwedd 2024

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod 26 Tachwedd 2024 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Llinos Medi | |
| | Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Chwarter 2, 2024/25 | Cyng Robin Williams | |
| | Monitro Cyllideb Refeniw – Chwarter 2, 2024/25 | Cyng Robin Williams | |
| | Monitro Cyllideb Gyfalaf – Chwarter 2, 2024/25 | Cyng Robin Williams | |
| | Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai – Chwarter 2, 2024/25 | Cyng Robin Williams | |

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 19 Mawrth 2024 |
| Pwnc / Testun: | Adroddiad Monitro'r Cerdyn Sgorio – Chwarter 3 (2023/24) |
| Deilydd(ion) Portffolio: | Y Cynghorydd Carwyn E Jones, Deilydd Portffolio Trawsnewid |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Carys Edwards |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Tel:<br>E-bost: | Gwyndaf Parry<br>01248 752111<br>GwyndafParry@ynysmon.llyw.cymru |
| Aelodau Lleol: | Amherthnasol |

**A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau**

1. Hwn yw'r trydydd cerdyn sgorio ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023/24. Mae'n dangos safle'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol fel yr amlinellwyd ac y cytunwyd arnynt ynghynt yn y flwyddyn.

2. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at rai straeon cadarnhaol mewn perthynas â pherfformiad chwarter 3. Mae rhai o'r uchafbwyntiau hyn yn cynnwys:

- Y Dangosydd yr Iaith Gymraeg mewn Ysgolion;
- Dangosydd NERS;
- Nifer yr eiddo gwag sydd wedi dod yn ôl i ddefnydd;
- Dangosyddion y Gwasanaethau Oedolion;
- Dangosyddion y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd;
- Y dangosyddion digartrefedd;
- Nifer y diwrnod ar gyfer gosod unedau llety addas;
- Dangosyddion rheoli gwastraff; a
- Dangosyddion Cynllunio.

3. Gofynnir i'r Pwyllgor gytuno'r cerdyn sgorio a nodi'r meysydd mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn eu harchwilio er mwyn rheoli a sicrhau gwelliant pellach yn y dyfodol.

4. Argymhellir y rhain fel a ganlyn:

   1. Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth sydd yn derbyn ymateb o fewn yr amserlen;
   2. Rheoli Cwynion Cwsmeriaid;
   3. Cyfartaledd y diwrnodau a gymerir i gyflawni Grant Cyfleusterau i'r Anabl; a
   4. Nifer cyfartalog y dyddiau calendr a gymerwyd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod).

5. Gofynnir i'r pwyllgor derbyn y mesurau lliniaru a amlinellir uchod.

| B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Amherthnasol |

| C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
| --- |
| Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith |

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
| --- |
| Ydi |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
| --- |
| Ydi |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
| --- | --- | --- |
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae'r adroddiad y Cerdyn Sgorio Corfforaethol yn rhoi cipolwg ar berfformiad Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) yn erbyn 3 amcan Cynllun y Cyngor ar ddiwedd pob chwarter.<br><br>Mae'r 3 amcan, isod, yn ystyried anghenion tymor hir yr Ynys<br><br>1. Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir<br>2. Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl<br>3. Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol<br><br>Mae mesur y DPA yn erbyn pob amcan yn dangos sut mae penderfyniadau'n cael effaith ar ein perfformiad cyfredol. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | Gallai perfformiad rhai DPAau o bosibl gael effaith ar gostau yn y dyfodol, ond mae mesurau lliniaru a gynigir yn ceisio lliniaru'r pwysau hyn. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Ymgymerir ag elfennau o'r gwaith sy'n cael ei fonitro yn y Cerdyn Sgorio mewn modd cydweithredol â sefydliadau eraill fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Llywodraeth Cymru, Cadwch Gymru'n Daclus, Gyrfa Cymru, Chwaraeon Cymru, GWE, ymhlith eraill. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Amh. |

| | | |
|---|---|---|
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Amh. |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Amh. |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Amh. |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Ystyriwyd y mater hwn gan yr Tîm Arweinyddiaeth ac adlewyrchir eu sylwadau yn yr adroddiad |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | Sylwadau wedi ymgorffori yn yr adroddiad |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Sylwadau wedi ymgorffori yn yr adroddiad |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Sylwadau wedi ymgorffori yn yr adroddiad |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | Ystyriwyd y mater hwn gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y 12/03. Bydd cadeirydd y pwyllgor yn adrodd yn ôl yn y cyfarfod hwn. |
| 9 | Aelodau Lleol | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Atodiad A - Cherdyn Sgorio Chwarter 3 |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| • Adroddiad Monitro Cerdyn Sgorio 2023/24 – Chwarter 2 (fel y cyflwynwyd ef i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Tachwedd 2023 ac a dderbyniwyd ganddo.)<br>• Cynllun y Cyngor 2023-2028 |

**ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 3 (2023/24)**

1. **CYFLWYNIAD**

1.1. Mae ein Cynllun y Cyngor newydd ar gyfer 2023-2028 yn nodi anghenion lleol a blaenoriaethau llesiant ac mae'n gosod ein nodau a'n hamcanion ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

1.2. Mae adroddiad monitro'r cerdyn sgorio'n cael ei ddefnyddio i fonitro perfformiad ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) wrth gyflawni gweithgareddau dyddiol y Cyngor sydd yn sylfaen i gyflawni Cynllun y Cyngor. Mae'n darparu gwybodaeth er mwyn galluogi'r Cyngor i reoli perfformiad yn rhagweithiol ac, felly, mae'r adroddiad yn nodi unrhyw gamau lliniaru y cytunwyd arnynt gan y Tîm Arweinyddiaeth er mwyn gyrru a sicrhau gwelliannau ar gyfer y dyfodol.

1.3. Mae'r cerdyn sgorio (atodiad 1) yn rhoi darlun o'r sefyllfa ar ddiwedd Ch3 a bydd (ynghyd â'r adroddiad hwn) yn cael ei ystyried ymhellach gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith yn ystod mis Mawrth.

2. **CYD-DESTUN**

2.1. Mae'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) sy'n monitro perfformiad yn cyd-fynd â thri amcan llesiant presennol y Cyngor:

- Amcan 1 – Sicrhau bob pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir
- Amcan 2 – Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib
- Amcan 3 – Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau wrth warchod ein hamgylchedd naturiol.

2.2. Ni fydd modd cyhoeddi gwybodaeth ar gyfer pob Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA) ar y Cerdyn Sgorio bob chwarter oherwydd natur y dulliau casglu data. Yn y fath achosion, bydd nodyn yn dweud pa mor aml y mae'r DPA yn cael ei fonitro a phryd fydd y data ar gael i'w gasglu, e.e. (blynyddol) (Ch4), (bob tymor) (Ch3).

2.3. Mae pob canlyniad yn y cerdyn sgorio yn rhai cronnol ac, fel y cyfryw, bydd y golofn tueddiadau'n rhoi gwybodaeth am dueddiadau mewn perfformiad o un chwarter i'r llall trwy gydol y flwyddyn.

2.4. Gellir gweld y statws CAG ar gyfer pob adran o'r cerdyn sgorio isod, ac eithrio rheolaeth ariannol sy'n cael ei gwblhau o safbwynt barn broffesiynol y Pennaeth Adnoddau / Swyddog Adran 151:

- Coch – mwy na 10% yn is na'r targed a/neu angen ymyrraeth sylweddol
- Ambr – rhwng 5% a 10% yn is na'r targed a/neu angen peth ymyrraeth
- Melyn – o fewn 5% i'r targed
- Gwyrdd – wedi cyrraedd y targed, neu wedi mynd y tu hwnt iddo

3. **PERFFORMIAD IECHYD CORFFORAETHOL**

3.1. Mae'r mwyafrif o ddangosyddion (83%) yn yr adran hon, y mae eu targedau'n cael eu monitro, yn perfformio'n dda yn erbyn targedau (CAG Gwyrdd neu Felyn). Amlygir rhai o'r pwyntiau allweddol isod.

3.2. Mewn perthynas â Rheoli Cwynion Cwsmeriaid, oherwydd anawsterau gweithredol, nid oedd modd adrodd ar gwynion cwsmeriaid na cheisiadau rhyddid gwybodaeth yn y cerdyn sgorio blaenorol (Ch2) (nid yw hyn yn cynnwys y Gwasanaethau Cymdeithasol gan fod y trefniadau adrodd yn wahanol). Gyda'r heriau gweithredol o ran casglu'r data bellach wedi'u datrys, mae data mewn perthynas â chwynion cwsmeriaid ar gyfer Ch2 a 3 ar gael, a gellir ei weld yn y tabl isod.


| Dangosydd | Ch1 (Ebrill– Mehefin) | Ch2 (Ebrill – Medi) | Ch3 (Ebrill – Rhag) |
|---|---|---|---|
| 01) Nifer y cwynion a dderbyniwyd (ac eithrio'r Gwasanaethau Cymdeithasol) * | 13 | 23 | 34 |
| 03) Cyfanswm y cwynion wedi dod i ben / wedi dod i ben yn rhannol* | 2 | 2 | 6 |
| 04) Cyfanswm y % o ymatebion ysgrifenedig ar gyfer cwynion cyn pen 20 diwrnod (Corfforaethol) | 83% | 82% | 76% |
| 07) Nifer y pryderon (ac eithrio'r Gwasanaethau Cymdeithasol) | 55 | 70 | 166 |
| 08) Nifer y Cwynion* | 34 | 70 | 193 |

*ac eithrio'r Gwasanaethau Cymdeithasol – mae'r cerdyn sgorio yn atodiad 1 yn cynnwys data'r gwasanaethau cymdeithasol

3.3. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw beth yn peri pryder o ran Cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol.

3.4. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn GOCH o ran ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth o fewn y cyfnod amser, gyda pherfformiad o 79% yn erbyn targed o 90% ar gyfer y chwarter, oherwydd anawsterau gweithredol. Mae hyn yn ddirywiad o'r 84% a gafodd ei adrodd ar ddiwedd Ch1, ond mae'n gynnydd ar Ch3 y llynedd, lle cwblhawyd 71% o fewn y cyfnod amser.

3.5. Ar ddiwedd Ch2, mae'r Cyngor yn GOCH yn erbyn ei darged, gyda 6.92 diwrnod wedi'u colli oherwydd absenoldeb am bob gweithiwr cyfwerth ag amser llawn (FTE) yn ystod y cyfnod, o gymharu â tharged o 6.19 diwrnod. Mae'r perfformiad hwn yn ddirywiad bach o'r un cyfnod ar gyfer y 4 mlynedd diwethaf, ac mae hynny'n bennaf oherwydd salwch tymor hir sy'n cyfateb i 59% o'r cyfraddau absenoldeb ar gyfer Ch3, er bod hyn wedi gwella o'r 62% a nodwyd yn adroddiad Ch2. Dylid nodi mai 2023/24 fydd y flwyddyn lawn gyntaf o gynnwys salwch Cofid.




3.6. Ar hyn o bryd, mae'r adran rheolaeth ariannol yn rhagweld tanwariant o £0.842m ar gyfer y flwyddyn. Mae sefyllfa ariannol y Cyngor wedi gwella erbyn diwedd y trydydd chwarter. Wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen, ac wrth i gostau arfaethedig ddod yn gostau gwirioneddol, mae'r rhagolygon wedi dod yn fwy manwl ac nid yw'r newid yn sefyllfa'r adroddiad rhwng Ch2 a 3 yn annisgwyl. Fodd bynnag, mae'r symudiad yn ystod 2023/24 wedi bod yn fwy sylweddol na'r blynyddoedd blaenorol.

3.7. Ar ddiwedd chwarter 2, gofynnwyd i wasanaethau geisio arafu eu gwariant, ac oedi rhag llenwi swyddi gwag sydd wedi gwella'r sefyllfa o gymharu â chwarter 2. Mae anawsterau recriwtio mewn rhai meysydd gwaith, dod o hyd i incwm ychwanegol a dechreuad eithaf diddigwyddiad i'r gaeaf wedi cyfrannu at y newid.

3.8. Er bod y rhagolygon yn galonogol, ac os y'i cyflawnir, bydd y cryfhau sefyllfa ariannol y Cyngor, dylid nodi bod rhaid mynd i'r afael â rhai pwysau ariannol sylfaenol yng nghyllideb 2024/25. Mae'r sefyllfa a ragwelir wedi gwella oherwydd arbedion untro sy'n cael eu cynhyrchu drwy swyddi gwag staff, na all ddigwydd yn 2024/25, a chyllid grant ychwanegol sy'n annhebygol o'i dderbyn eto ar yr un lefel yn 2024/25.

3.9. Mae'r galw ar wasanaethau'n risg barhaus, a gall cynnydd mewn galw am wasanaethau (Gwasanaethau Oedolion, Plant a Theuluoedd, Digartrefedd a Chynllun Gostyngiad y Dreth Gyngor) newid yr alldro ariannol yn gyflym iawn. Mae'r sefyllfa ariannol a ragwelir ar hyn o bryd yn galluogi'r Cyngor i fodloni costau, pe byddai galw'n cynyddu sylweddol yn ystod y chwarter olaf.

3.10. Y tanwariant a ragwelir ar y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2023/24 yw £9.236m, a gallai lithro i'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2024/25. Bydd y cyllid ar gyfer y llithriad hwn hefyd yn llithro i 2024/25 a bydd yn cael ei gynnwys wrth lunio'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys, y Strategaeth Gyfalaf a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2024/25.

3.11. Mae gwybodaeth bellach am reolaeth ariannol i'w weld yn yr 'Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw ar gyfer Chwarter 3, 'Adroddiad Monitro'r Gyllideb Gyfalaf ar gyfer Chwarter 3' ac 'Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw Tai ar gyfer Chwarter 3' sydd wedi cael eu trafod yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 29 Chwefror.

3.12. Mae canlyniadau'r dangosyddion ar gyfer yr adran hon yn rhoi sicrwydd rhesymol fod y Cyngor yn rheoli ei bobl, ei gwsmeriaid a chyllid mewn modd sy'n ddisgwyliedig gan Gyngor sy'n cael ei redeg yn dda.

4. **RHEOLI PERFFORMIAD**

4.1. Ar ddiwedd Chwarter 3 mae'n galonogol nodi fod y mwyafrif (97%) o'r dangosyddion perfformiad yn perfformio'n well na'r targed neu o fewn 5% i'w targedau. Dim ond un dangosydd sydd wedi tanberfformio yn erbyn eu targedau yn ystod Chwarter 3 ac mae'n cael ei ddangos ar y cerdyn sgorio mewn Coch.

4.2. Ar ddiwedd Chwarter 3, mae perfformiad ein hamcan llesiant cyntaf, **Amcan 1**, lle'r ydym yn gweithio i sicrhau fod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir, wedi bod yn dda ac nid oes unrhyw ddangosydd o dan yr amcan hwn yn tanberfformio ar hyn o bryd.

4.3. Mae rhai enghreifftiau o'r perfformiad da a welwyd o dan yr amcan hwn yn ystod y chwarter yn cynnwys:

4.3.1. Dau ddangosydd Addysg ar yr iaith Gymraeg (dangosyddion 4 a 5) – lle asesir 100% o ddisgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn Gymraeg, ac mae 70% o ddisgyblion blwyddyn 11 yn astudio Cymraeg iaith gyntaf (cynnydd o 67.5% yn ystod blwyddyn academaidd 21/22).

4.3.2. Dangosyddion y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i wneud Ymarfer Corff (NERS) (9 a 10) – lle mae'r ddau ddangosydd yn wyrdd yn erbyn eu targedau.

4.3.3. Nifer yr eiddo gwag sy'n dod yn ôl i ddefnydd (dangosydd 11) – gyda'r targed blynyddol o 50 eiddo eisoes wedi'i gyrraedd, gyda 52 eiddo yn ôl mewn defnydd erbyn diwedd Ch3. Unwaith eto, mae defnyddio Premiwm y Dreth Gyngor wedi dwyn ffrwyth yn y maes hwn ac mae'n gadarnhaol bod 52 llai o dai gwag yn ein cymunedau.


4.4. Ar ddiwedd y chwarter, mae un ddangosydd yn tanberfformio dan yr ail amcan llesiant**, Amcan 2**, lle'r ydym yn cynorthwyo oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib.

4.4.1. Dangosydd 28 – Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl – sydd yn GOCH gyda pherfformiad o 189 diwrnod yn erbyn targed o 170 diwrnod.

Mae'r perfformiad yn ddatblygiad ar y 193 diwrnod a gofnodwyd yn Ch2, fodd bynnag, mae'n ddirywiad ar y 182 diwrnod a gofnodwyd ar gyfer Ch3 2022/23. Mae'r rhesymau dros y dirywiad ym mherfformiad y dangosydd hwn yn cynnwys:

- Prinder contractau ar gael i wneud y gwaith. Cynhaliwyd digwyddiad i gwrdd â phrynwyr yn ddiweddar, a llwyddodd y cyngor i ddenu contractwyr ychwanegol i wneud gwaith addasu yn y dyfodol.
- Roedd y perfformiad yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn yn cynnwys nifer o addasiadau a gymerwyd llai o amser i'w cwblhau, sy'n egluro pam bod y perfformiad yn uwch na'r targed. Ers hynny, rydym wedi gweld gwaith addasu mwy yn cael ei gwblhau sydd angen mwy o amser.
- Newidiadau i'r meini prawf cymhwystra sy'n golygu nad yw addasiadau gwerth hyd at £10k yn dibynnu ar brawf modd, sydd wedi arwain at gynnydd mewn ceisiadau ar gyfer gwaith DFG, sydd, yn anochel, wedi arwain at ddirywiad mewn perfformiad.

Cytunwyd yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ym mis Tachwedd 2023 y byddai'r gwasanaeth Tai yn cynnal ymarfer tasg a gorffen ar y DFG. Bydd y canfyddiadau cychwynnol yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ym mis Mawrth.





4.5. Mae rhai enghreifftiau o'r dangosyddion sy'n cyflawni eu targedau yn ystod y chwarter hwn ar gyfer yr amcan llesiant yn cynnwys:

4.5.1. Mae dangosyddion y Gwasanaethau Oedolion (Dangosyddion 16 - 19) i gyd yn Wyrdd yn erbyn eu targedau. Mae hyn yn galonogol mewn cyfnod lle mae poblogaeth sy'n heneiddio ac anawsterau i recriwtio staff yn golygu fod y Gwasanaeth yn parhau i fod o dan bwysau.

4.5.2. Mae dangosyddion y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd (Dangosyddion 20-25) i gyd yn Wyrdd yn erbyn eu targedau. Mae'r perfformiad yn arbennig o dda o ystyried y cynnydd sylweddol yn yr atgyfeiriadau sy'n dod i'r gwasanaeth a'r pwysau ychwanegol oherwydd yr argyfwng costau byw.

4.5.3. Mae'r Dangosyddion Digartrefedd (Dangosyddion 26 + 27) ar gyfer y Gwasanaeth Tai hefyd wedi perfformio'n dda, ac mae'r ddau'n Wyrdd yn erbyn eu targedau ar gyfer y chwarter er gwaethaf y cynnydd mewn galw.

4.5.4. Mae'r cyfartaledd ar gyfer nifer y diwrnodau calendr i osod unedau llety addas (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod) (dangosydd 29) bellach yn Wyrdd yn erbyn targed gyda pherfformiad o 52 diwrnod. Mae'r dangosydd hwn yn cael ei drafod gan banel tasg a gorffen Sgriwtini, gyda'r bwriad o sicrhau gwelliannau pellach yn y dyfodol. Bydd y panel yn rhoi adborth i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ym mis Mawrth.





4.6. Mae perfformiad ein dangosyddion i fonitro ein trydydd amcan llesiant, **Amcan 3**, lle'r ydym yn gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol, wedi bod yn arbennig, gyda phob dangosydd yn Wyrdd ac yn uwch na'r targed.

4.7. Mae'r dangosyddion sydd wedi perfformio'n dda yn cynnwys:

4.7.1. Mae'r dangosyddion rheoli gwastraff (Dangosydd 31 – 34) yn Wyrdd yn erbyn eu targedau. Roedd 97.5% o'r strydoedd a arolygwyd yn ystod y chwarter yn lân ac mae'n galonogol nodi fod sbwriel sy'n cael ei dipio'n anghyfreithlon yn cael ei glirio o fewn diwrnod. Roedd canran y gwastraff a gafodd ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio yn 66.1% ar gyfer y chwarter.

4.7.2. Mae'r dangosyddion cynllunio (dangosyddion 35 - 37) i gyd yn Wyrdd yn erbyn eu targedau. Mae'r ceisiadau cynllunio y gwnaed penderfyniad yn eu cylch o fewn amser (dangosydd 35) yn parhau i berfformio'n dda iawn gyda 95.6% o'r ceisiadau wedi cael eu penderfynu ar ddiwedd Chwarter 3. Mae hyn yn cymharu â pherfformiad o 91% ar ddiwedd 22/23 a 79% ar ddiwedd 2021/22 a 2020/21. Mae perfformiad y dangosydd apeliadau cynllunio (dangosydd 36) hefyd yn wyrdd am y tro cyntaf eleni, gyda'r pedwar apêl sydd wedi cael eu trafod yn Ch3 yn cael eu gwrthod, gan ddod a'r cyfanswm i 66.7% yn cael eu gwrthod ar gyfer y flwyddyn (6 o'r  apêl).




5. **CASGLIAD**

5.1. Mae'n galonogol nodi bod 91% o'r dangosyddion perfformiad yn perfformio'n well na'u targed neu o fewn 5% i'r targedau ar gyfer y chwarter. Dyma'r cerdyn sgorio sy'n perfformio orau ar gyfer Chwarter 3 ers ei gyflwyno.

5.2. Mae'r adroddiad yn amlygu rhai straeon cadarnhaol mewn perthynas â pherfformiad chwarter 3. Mae rhai o'r uchafbwyntiau hyn yn cynnwys:

- Dangosydd yr Iaith Gymraeg mewn Ysgolion;
- Dangosydd NERS;
- Nifer yr eiddo gwag sydd wedi dod yn ôl i ddefnydd;
- Dangosyddion y Gwasanaethau Oedolion;
- Dangosyddion y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd;
- Y dangosyddion digartrefedd;
- Nifer y diwrnod ar gyfer gosod unedau llety addas;
- Dangosyddion rheoli gwastraff; a
- Dangosyddion Cynllunio.

5.3. Mae'r adroddiad hefyd yn amlygu rhai meysydd sy'n tanberfformio yn erbyn eu targedau. Amlygir y rhain yn 6.1 isod.

6. **ARGYMHELLION**

6.1. Gofynnir i'r Pwyllgor graffu'r cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn eu harchwilio er mwyn eu rheoli a sicrhau gwelliannau pellach yn y dyfodol.

Y meysydd a argymhellir yw:

- Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth sydd yn derbyn ymateb o fewn yr amserlen;
- Rheoli Cwynion Cwsmeriaid;
- Cyfartaledd y diwrnodau a gymerir i gyflawni Grant Cyfleusterau i'r Anabl; a
- Nifer cyfartalog y dyddiau calendr a gymerwyd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod)

## 7. **RHESTR TERMAU**

7.1 Isod mae rhestr o'r byrfoddau a ddefnyddir yn yr adroddiad a'r Cerdyn Sgorio

1. DPA – Dangosydd Perfformiad Allweddol
2. Ch1 – Chwarter 1
3. Ch2 – Chwarter 2
4. Ch3 – Chwarter 3
5. Ch4 – Chwarter 4
6. Statws CAG – Coch – mwy na 10% yn is na'r targed a/neu angen ymyrraeth sylweddol
Ambr – rhwng 5% a 10% yn is na'r targed a/neu angen rhywfaint o ymyrraeth
Melyn – o fewn 5% i'r targed
Gwyrdd – ar darged, neu'n uwch na'r targed
7. Tuedd – Mae'r saethau tuedd yn cynrychioli perfformiad o gymharu â'r chwarter blaenorol
8. FTE – Cyfwerth ag Amser Llawn
9. FOI – Rhyddid Gwybodaeth
10. CRT – Cyfrif Refeniw Tai
11. NEET – Nid mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant
12. DTL – Anodd eu Gosod
13. NERS – Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff
14. CPR – Cofrestr Amddiffyn Plant
15. CSYM – Cyngor Sir Ynys Môn

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q3 2023/24

| Rheoli Perfformiad / Performance Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed Ch / Q Target | Targed Bl / Yr Target | Canlyniad 22/23 Result | Canlyniad 21/22 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan 1 - Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir** | | | | | | | |
| 1) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd (tymhorol) (Ch3) | | | 93.04% | | | 91.69% | - |
| 2) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd (tymhorol) (Ch3) | | | 87.27% | | | 85.22% | - |
| 3) Canran gadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth [NEET] (blynyddol) (Ch4) | | | | | | 3.20% | 2.60% |
| 4) Canran y disgyblion a aseswyd yn y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Syflaen (blynyddol) (Ch3) | Gwyrdd / Green | → | 100% | 100% | 100% | 100% | - |
| 5) Canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n astudio'r Gymraeg [iaith gyntaf] (blynyddol) (Ch3) | Gwyrdd / Green | ↑ | 70% | 67.5% | 67.5% | 68% | 68% |
| 6) Canran y Dangosyddion Ansawdd (â thargedau) a gyflawnwyd gan y gwasanaeth llyfrgelloedd (blynyddol) (Ch4) | | | | | | - | - |
| 7) Nifer yr ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden | Melyn / Yellow | → | 380k | 400k | 546k | 539k | 388k |
| 8) Canran y sefydliadau bwyd sy'n cyrraedd safonau hylendid bwyd | Gwyrdd / Green | ↑ | 98.6% | 95% | 95% | 98% | 98% |
| 9) Canran cleientiaid NERS a gwblhaodd y rhaglen ymarfer corff | Gwyrdd / Green | ↑ | 65% | 50% | 50% | 72% | 47.5% |
| 10) Canran cleientiaid NERS yr oedd eu hiechyd wedi gwella wrth gwblhau'r rhaglen ymarfer corff | Gwyrdd / Green | ↓ | 81% | 80% | 80% | 78% | 84% |
| 11) Nifer o eiddo preifat gwag wedi'u adfer i ddefnydd | Gwyrdd / Green | ↑ | 52 | 37 | 50 | 80 | 91 |
| 12) Nifer y cartrefi newydd a grewyd o ganlyniad i ddechrau ailddefnyddio eiddo gwag | Gwyrdd / Green | ↑ | 6 | 1 | 3 | 1 | 1 |
| 13) Gwasanaethau landlordiaid: Nifer y diwrnodau ar gyfartaledd i cwblhau atgyweiriadau | Gwyrdd / Green | → | 18 | 18 | 18 | 16.61 | 13.89 |
| 14) Canran y tenantiaid sy'n fodlon gyda gwaith atgyweirio ymatebol (blynyddol) | | | 80% | | | | - |
| **Amcan 2 - Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl** | | | | | | | |
| 15) Cyfradd y bobl a gedwir yn yr ysbyty wrth aros am ofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed (Ch4) | | | | | | | - |
| 16) Canran yr ymholiadau ynghylch amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn terfynau amser statudol | Gwyrdd / Green | ↓ | 95.24% | 90% | 90% | 91.69% | 94.78% |
| 17) Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ail-alluogi ac nad oes ganddynt becyn gofal a chymorth 6 mis yn ddiweddarach | Gwyrdd / Green | ↑ | 62.50% | 62% | 62% | 64.71% | 64.85% |
| 18) Cyfradd y bobl hŷn (65 mlwydd oed neu hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu hŷn ar 31 Mawrth [Dangosydd Lleol] | Gwyrdd / Green | ↓ | 17.1 | 19 | 19 | 16.74 | 14.33 |
| 19) Canran y rhai sy'n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad iddyn nhw eu hunain yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | ↑ | 96.70% | 93% | 93% | 98.10% | 96.10% |
| 20) Canran yr asesiadau plant a gwblhawyd o fewn amser | Gwyrdd / Green | ↑ | 90.55% | 90% | 90% | 86.75% | 87.15% |
| 21) Canran y plant mewn gofal y bu'n rhaid iddynt symud 3 gwaith neu fwy | Gwyrdd / Green | ↑ | 2.76% | 7.50% | 10% | 6.15% | 9.79% |
| 22) Canran y cyfeiriadau o blant sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis [Dangosydd Lleol] | Gwyrdd / Green | ↑ | 9.57% | 15% | 15% | 14.35% | 5.74% |
| 23) Cyfanswm yr amseroedd (mewn diwrnodau) a dreuliodd pob plentyn ar y CPR os cafodd ei dynnu oddi ar y CPR yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | ↓ | 261 | 270 | 270 | 306 | 318 |
| 24) Canran y cyfeiriadau yn ystod y flwyddyn lle caiff penderfyniad ei wneud o fewn 1 diwrnod gwaith | Gwyrdd / Green | → | 99% | 95% | 95% | 98.31% | 99.10% |
| 25) Canran yr ymweliadau statudol â phlant mewn gofal oedd i fod i ddigwydd yn ystod y flwyddyn, a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau | Gwyrdd / Green | ↑ | 93.84% | 90% | 90% | 93.83% | 85.99% |
| 26) Canran y teuluoedd a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref | Gwyrdd / Green | ↑ | 95.00% | 80% | 80% | 89.53% | 80.95% |
| 27) Canran y teuluoedd (gyda plant) a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref | Gwyrdd / Green | ↓ | 96% | 85% | 85% | 98.45% | 92.00% |
| 28) Nifer y dyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | Coch / Red | ↑ | 189* | 170 | 170 | 193 | 172.3 |
| 29) Nifer cyfartalog y dyddiau calendr a gymerwyd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod) | Gwyrdd / Green | ↑ | 38 | 40 | 40 | 35.8 | 28.7 |
| 30) Gwasanaethau landlordiaid: Canran y rhent wedi'i golli o ganlyniad i eiddo fod yn wag | Gwyrdd / Green | ↑ | 1.39% | 1.70% | 1.70% | 1.83% | 1.66% |
| **Amcan 3 - Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol** | | | | | | | |
| 31) Canran y strydoedd sy'n lân | Gwyrdd / Green | ↑ | 97.5% | 95% | 95% | 96% | 95.50% |
| 32) Canran y gwastraff wedi'u ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio | Gwyrdd / Green | ↓ | 66.1% | 64% | 64% | 63.47% | 62.39% |
| 33) Nifer cyfartalog y dyddiau gwaith a gymerwyd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon | Gwyrdd / Green | ↑ | 0.29 | 1 | 1 | 1 | 0.25 |
| 34) Cilogramau y gwastraff gweddilliol a eneradir fesul person | Gwyrdd / Green | ↑ | 157.25 | 165kg | 220kg | 207kg | 223kg |
| 35) Canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd mewn pryd | Gwyrdd / Green | ↑ | 95.6% | 90% | 90% | 91% | 79% |
| 36) Canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd | Gwyrdd / Green | ↑ | 66.7% | 65% | 65% | 47% | 50% |
| 37) Canran yr achosion gorfodaeth cynllunio yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod | Gwyrdd / Green | ↓ | 86.1% | 80% | 80% | 87% | 84% |
| 38) Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) | Gwyrdd / Green | | 2.7% | 3% | 3% | 2.6% | 3% |
| 39) Canran y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) | Gwyrdd / Green | | 2.3% | 4% | 4% | 2.6% | 2.80% |
| 40) Canran y ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) | Gwyrdd / Green | | 7.5% | 9% | 9% | 7.6% | 8.20% |
| 41) Defnydd o danwydd ffosil bras gan fflyd y Cyngor (tCO2e) | | ↓ | 384.49 | | | 515.07 | 486.85 |
| 42) Nifer y milltiroedd a deithiodd fflyd y Cyngor (milltiroedd) | | ↓ | 1,376,795 | | | 1,728,920 | 1,524,961 |
| 43) Nifer y milltiroedd a deithiodd fflyd lwyd / gweithwyr y Cyngor (milltiroedd) | | ↓ | 601,248 | | | 790,899 | 786,247 |
| 44) Newid net mewn Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (tCO2e) - Fflyd y Cyngor (Blynyddol) (%) | | | | | | +6% | + 26% |

Coch - mwy na 10% yn is na'r targed a/neu angen ymyrraeth sylweddol    Ambr - rhwng 5% a 10% yn is na'r targed a/neu angen rhywfaint o ymyrraeth
Melyn - o fewn 5% o'r targed    Gwyrdd - ar darged neu'n uwch    Mae saethau tuedd yn cynrychioli perfformiad chwarter ar chwarter

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q3 2023/24

| Gofal Cwsmer / Customer Service | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 22/23 Result | Canlyniad 21/22 Result | Canlyniad 20/21 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Siarter Gofal Cwsmer / Customer Service Charter** | | | | | | | |
| 01) Nifer y cwynion a dderbyniwyd (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | Gwyrdd / Green | ↓ | 34 | 55 | 40 | 55 | 43 |
| 02) Nifer y cwynion Cam 2 a dderbynnwyd ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | | ↓ | 11 | - | 4 | 9 | 6 |
| 03) Nifer y Cwynion a gadarnhawyd / gadarnhawyd yn rhannol | | ↓ | 8 | - | 13 | 20 | 8 |
| 04) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Corfforaethol) | Melyn / Yellow | ↓ | 76% | 80% | 82% | 80% | 88% |
| 05) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Gwasanaethau Cymdeithasol) | Gwyrdd / Green | → | 100% | 80% | 70% | 66% | 75% |
| 06) Nifer y cwynion Cam 1 ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | | ↓ | 14 | - | 27 | 41 | 24 |
| 07) Nifer o bryderon (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | | ↓ | 166 | - | 321 | 189 | 104 |
| 08) Nifer o ganmoliaethau | | ↑ | 364 | - | 495 | 658 | 662 |
| 09) % o Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Ymatebwyd o fewn yr Amserlen | Coch / Red | - | 79% | 90% | 72% | 79% | 79.4% |
| **Newid Cyfrwng Digidol / Digital Service Shift** | | | | | | | |
| 10) Nifer o ddefnyddwyr AppMôn (blynyddol) | | ↑ | 12.5k | - | 59.5k | 51k | 33.5k |
| 11) Nifer o adroddiadau a dderbyniwyd gan AppMôn | | ↑ | 29k | - | 36k | 66k | 58k |
| 12) Nifer o daliadau dros y we | | ↓ | 13k | - | 26k | 21k | 18.5k |
| 13) Nifer o daliadau dros y ffôn | | ↓ | 6.5k | - | 9.5k | 11k | 7k |
| 14) Nifer o 'ddilynwyr' CSYM ar Cyfryngau Cymdeithasol | | ↑ | 109k | - | 100k | 92k | 42k |
| 15) Nifer o ymwelwyr i wefan y Cyngor | | ↑ | 272k | - | 327k | 634k | 1.03M |

| Rheoli Pobl / People Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 22/23 Result | Canlyniad 21/22 Result | Canlyniad 20/21 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, gan gynnwys athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | | | 2386 | - | 2288 | 2202 | 2180 |
| 02) Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Coch / Red | ↑ | 6.92 | 6.19 | 9.15 | 8.73 | 6.68 |
| 03) Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | | | 2.81 | - | 4.54 | 3.70 | 1.94 |
| 04) Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | | | 4.11 | - | 4.61 | 5.03 | 4.74 |
| 05) Gweithwyr yr Awdurdod Lleol yn gadael (%) (Trosiant) (Blynyddol) (Ch4) | | | | - | 8% | 10% | 6% |

| Rheolaeth Ariannol / Financial Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Cyllideb / Budget | Canlyniad / Actual | Amrywiant / Variance (%) | Rhagolygon o'r Gwariant / Forcasted Actual | Amrywiant a Ragwelir / Forcasted Variance (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Refeniw) | Gwyrdd / Green | ↑ | £170,687,000 | | | £169,739,000 | -0.56% |
| 02) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Cyfalaf) | | ↓ | £42,107,000 | | | £32,330,000 | -23.22% |
| 03) Incwm o gymharu â Thargedau (ac eithrio grantiau) | Gwyrdd / Green | ↑ | -£9,821,669 | -£11,795,320 | 20.09% | | |
| 04) Balansau cyffredinol diwedd y flwyddyn a ragwelir | | ↑ | | | | -£12,302,140 | |
| 05) Chost benthyca - % y gwariant refeniw a gyllidebwyd | Gwyrdd / Green | → | 2.34% | | | 2.33% | -0.01% |
| 06) Nifer o Wasanaethau rhagwelir yn gorwario mwy na 5% o'i cyllideb | | → | | | | 1 | |
| 07) % of y Dreth Gyngor a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | | | 97.5% | | | |
| 08) % yr Amrywiol Ddyledion a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Ambr / Amber | | | 94.7% | | | |
| 09) % y Rhent Tai a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Gwyrdd / Green | | | 100.1% | | | |
| 10) % y Rhent Tai a gasglwyd heb gynnwys taliadau budd-dal (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Gwyrdd / Green | | | 100.1% | | | |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **19 Mawrth 2024** |
| **Pwnc:** | **Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Stad Elusennol David Hughes ac Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 2022/23** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Robin Williams (Dirprwy Arweinydd a Deilydd Portffolio - Cyllid**<br>**Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo)**<br>**Y Cynghorydd Dafydd Roberts (Addysg a'r Iaith Gymraeg)** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Marc Jones** |
| **Awdur yr Adroddiad;**<br>**Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Bethan Owen**<br>**(01248) 752663**<br>**BethanOwen2@ynysmon.llyw.Cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau**

- Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Drafft Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn ar gyfer y flwyddyn 2022/23 (Atodiad A).
- Dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yr awdurdod i lofnodi'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon Terfynol a'u ffeilio gyda'r Comisiwn Elusennau ar ôl cwblhau'r archwiliad yn foddhaol.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

- Nid oes unrhyw opsiynau eraill ar gael oherwydd mae'n ofyniad gan y Comisiwn Elusennol fod y cyfrifon blynyddol yn cael eu cymeradwyo gan y corff cyfrifol, sef y Pwyllgor Gwaith yn yr achos hwn.

**C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

- Mae hwn yn fater sydd wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

**DD – Asesu'r effaith posib (os yw'n berthnasol):**

| | | |
|---|---|---|
| **1** | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys | Amherthnasol. Yr unig benderfyniad sydd ei angen yw derbyn cyfrifon yr Ymddiriedolaeth ac nid oes unrhyw effaith ar anghenion yr Ynys yn y tymor hir. |
| **2** | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut?- | Amherthnasol |
| **3** | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy: | Nid yw'n uniongyrchol berthnasol, ond mae'r Ymddiriedolaeth wedi dosbarthu cyllid trwy'r 5 ysgol uwchradd a thrwy Coleg Cymraeg Cenedlaethol. |

| | | |
|---|---|---|
| **4** | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:- | Amherthnasol |
| **5** | Nodwch effeithiau'r penderfyniad hwn ar yr agenda cydraddoldeb a'r Gymraeg. | Amherthnasol |
| **6** | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith posib y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai hynny sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol. | Amherthnasol |
| **7** | Nodwch unrhyw effaith posib y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar drin yr iaith Gymraeg ddim llai ffafriol na'r Saesneg. | Amherthnasol |

| **E -** | **Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol)** | Mae'r TA wedi ystyried yr adroddiad ac ymgorfforwyd y sylwadau yn yr adroddiad. |
| **2** | **Cyllid / Swyddog Adran 151 (gorfodol)** | Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)** | Mae'r Swyddog Monitro'n aelod o'r TA a byddai unrhyw sylwadau wedi cael eu hystyried yng nghyfarfod y TA. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Amherthnasol |
| **5** | **Eiddo** | Amherthnasol |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu** | Amherthnasol |
| **7** | **Sgriwtini** | Amherthnasol |
| **8** | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall** | Mae'r cyfrifon wedi cael eu harchwilio gan Archwiliwr Allanol ac mae eu hadroddiad yn ffurfio rhan o'r cyfrifon. |

**F - Atodiadau:**

- Atodiad A – Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 2022/23.

**FF – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Adroddiad Diweddaru Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn – Pwyllgor Gwaith, 28 Hydref 2019 (eitem 13)

**STAD ELUSENNOL DAVID HUGHES AC YMDDIRIEDOLAETH ADDYSG BELLACH**

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

**1.1** Yn yr adroddiad hwn ceir trosolwg o'r cefndir i Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn. Mae ynddo wybodaeth am statws cyfreithiol yr Ymddiriedolaeth a'r gwahanol elfennau sy'n gysylltiedig â hi. Ceir crynodeb o berfformiad ariannol yr Ymddiriedolaeth. Prif bwrpas yr adroddiad hwn yw gofyn i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon terfynol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23.

**1.2** Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys diweddariad i Aelodau ynghylch y camau a gymerwyd i ddosbarthu mwy o gyllid yr Ymddiriedolaeth i gyflawni dibenion elusennol yr Ymddiriedolaeth.

## 2. CEFNDIR

**2.1** Mae Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yn cynnwys tair cronfa: Cronfa Waddol David Hughes a Chronfa Addysg Bellach Ynys Môn 1/3 a Chronfa Ymddiriedolaeth Addysg Ynys Môn 2/3 sy'n darparu budd addysgol penodol.

### 2.1.1. Stad Elusennol David Hughes

Mae'r gwaddol yn dyddio'n ôl i 1608 ac, ar hyn o bryd, mae'n cynnwys nifer o blotiau o dir mân-ddaliadau a bythynnod a buddsoddiadau eraill. Mae'r gronfa hon yn casglu rhenti o'r eiddo y mae'n buddsoddi ynddynt a difidendau a llog ar fuddsoddiadau'r Gronfa Fuddsoddi, a reolir gan Reolwyr Cronfa Buddsoddi Blackrock. Caiff costau rheoli, ariannol a gweinyddol y stad eu tynnu o'r rhenti a geir er mwyn penderfynu ar yr incwm net y gellir ei rannu yn ystod y flwyddyn. Caiff chwarter unrhyw incwm net sydd dros ben ei dalu i elusen ddigyswllt, "Elusen David Hughes ar gyfer y Tlodion", a hynny er mwyn lliniaru tlodi yng nghymuned Llantrisant. Mae'r incwm sy'n weddill yn cael ei drosglwyddo i Gronfa Addysg Bellach Ynys Môn, sydd wedi ei rhannu'n ddwy gronfa benodol.

### 2.1.2. Cronfeydd Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 1/3 (Cronfa Gyfyngedig)

Yn ogystal â'r incwm net o Stad Waddol David Hughes, mae'r Ymddiriedolaeth hon hefyd yn derbyn incwm o fuddsoddiadau a reolir gan Blackrock, mewn modd tebyg i Gronfa Waddol David Hughes. Pwrpas y gronfa yw darparu cymorth ariannol i ddisgyblion hŷn y 5 ysgol uwchradd er mwyn iddynt gwblhau eu cyrsiau.

### 2.1.3. Cronfeydd Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 2/3 (Cronfa Gyfyngedig)

Mae'r elfen hon o'r Ymddiriedolaeth yn derbyn incwm mewn ffordd debyg i'r uchod (2.1.2). Mae'r gronfa i'w defnyddio i helpu pobl ifanc dan 25 oed sydd wedi mynychu un neu fwy o'r 5 ysgol uwchradd am gyfnod o ddwy flynedd ac y mae angen cymorth ariannol arnynt i fynd ymlaen i addysg bellach neu addysg uwch neu hyfforddiant.

### 2.2 Statws Cyfreithiol

**2.2.1.** Mae Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yn elusen gofrestredig a Chyngor Sir Ynys Môn yw'r unig ymddiriedolwr. Nid oes unrhyw ddarpariaeth benodol sy'n dirprwyo cyfrifoldeb i'r Cyngor llawn neu swyddog penodol mewn perthynas â'r Ymddiriedolaeth, felly, mae'r penderfyniadau hynny wedi eu dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

**2.2.2.** Mae rhai swyddogaethau sy'n gysylltiedig â'r Ymddiriedolaeth wedi cael eu dirprwyo i swyddogion mewn ymgynghoriad â'r aelod portffolio perthnasol:-

- Mae awdurdod mewn perthynas â grantiau addysgol wedi cael ei ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc;
- Mae awdurdod mewn perthynas â chytuno ar denantiaethau, pennu rhenti a threfnu rhaglen gynnal a chadw ac atgyweirio wedi ei ddirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo);
- Mae awdurdod mewn perthynas â phenderfynu faint o gyllid a ddyrannir i'r tri chynllun bob blwyddyn (o 2019/20 ymlaen) wedi ei ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, a bydd yn ddibynnol ar faint o warged a gynhyrchir gan y gronfa;
- Gall y Prif Weithredwr ymarfer unrhyw swyddogaeth sydd wedi cael ei ddirprwyo i'r Penaethiaid Gwasanaeth.

## 3. DEFNYDD O'R GRONFA YN YSTOD 2022/23

**3.1** Ym mis Hydref 2019, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith ddyrannu swm unwaith ac am byth o £56,000 i bob ysgol uwchradd i gyllido costau Anogwyr Dysgu ym mhob ysgol. Byddai'r Anogwyr Dysgu yn cefnogi disgyblion hŷn oedd yn dilyn cyrsiau TGAU a Lefel A. Mater i bob ysgol fyddai penderfynu dros ba gyfnod o amser i ddefnyddio'r cyllid. Byddai'r gost yn cael ei gyllido o'r Gronfa Gyfyngedig 1/3 gan ddefnyddio'r rhan fwyaf o'r balans o £183,346 (ar 1 Ebrill 2022). Ceir mwy o fanylion am y defnydd a wnaed o'r dyraniadau hyn yn 2022/23 ym mharagraff 4 isod.

**3.2** Yn ogystal, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith ddyrannu swm ychwanegol o £8,000 fesul ysgol uwchradd i roi grantiau i gynorthwyo myfyrwyr dan anfantais ariannol i sicrhau lleoedd mewn Colegau a Phrifysgolion a / neu helpu i brynu llyfrau ac offer angenrheidiol i ddilyn cyrsiau yn ystod y flwyddyn gyntaf. Mater i bob ysgol fydd asesu pob cais a dyfarnu grantiau ar sail eu meini prawf asesu. Roedd cyfanswm y gost, sef £40,000, i'w gyllido o'r Gronfa Gyfyngedig 2/3, a oedd â balans o £186,426 (ar 1 Ebrill 2022). Ceir manylion am y defnydd a wnaed o'r cyllid yma yn 2022/23 ym mharagraff 5 isod.

**3.3** Yn ogystal, byddai Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn gweinyddu cynllun ysgoloriaeth ar gyfer myfyrwyr dan anfantais ariannol er mwyn iddynt ddilyn cyrsiau Prifysgol neu Goleg trwy gyfrwng y Gymraeg.

## 4. PERFFORMIAD ARIANNOL 2022/23

### 4.1 Stad Elusennol David Hughes (Cronfa Waddol)

**4.1.1.** Cynhyrchodd y Stad £128,364 drwy renti ar eiddo ac ailgodi tâl am drethi dŵr. Cynhyrchwyd £14,324 drwy incwm arall, difidendau a llog ar fuddsoddiadau. Gwariwyd £147,164 ar waith atgyweirio a chynnal a chadw, gwasanaethau proffesiynol a darpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac amheus. Gwariwyd £12,276 ar gostau gweinyddol rheoli eiddo a chostau cyfrifeg ac archwilio. Canlyniad hyn yw bod £16,752 o golled ar y buddsoddiad.

**4.1.2.** Mae swm o £5,002 wedi'i godi yn erbyn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol fel yr enillion ar Fuddsoddiadau.

**4.1.3.** Gwerth y Stad, ar 31 Mawrth 2023 oedd £4,587,793, sydd yn cynnwys gwerth yr eiddo, £3,810,500, buddsoddiadau a fasnachwyd ar y Gyfnewidfa Stoc, £165,554, ac asedau cyfredol net o £611,739.

**4.2 Ymddiriedolaeth Addysg Bellach (Cronfeydd Cyfyngedig)**

**4.2.1.** Cynhyrchodd cronfa'r Ymddiriedolaeth £6,752 o incwm buddsoddi.

**4.2.2.** Defnyddiwyd £75,306 ar gyfer dibenion elusennol (gweler paragraffau 5 a 6 isod).

**4.2.3.** Cynyddodd gwerth cyffredinol yr Ymddiriedolaeth o £369,772 ar ddechrau'r flwyddyn ariannol i £297,756 ar 31 Mawrth 2023. Roedd hyn yn cynnwys buddsoddiadau o £115,691 a fasnachwyd ar y Gyfnewidfa Stoc a £182,065 o arian parod mewn cyfrifon banc.

**4.2.4.** Gwerth y Gronfa 1/3 ar 31 Mawrth 2023 oedd £111,886, a gwerth y Gronfa 2/3 ar yr un dyddiad oedd £185,870.

## 5. ANOGWYR DYSGU (Dyrannwyd o'r Gronfa 1/3)

**5.1** Yn dilyn penderfyniad y Pwyllgor Gwaith, ym mis Hydref 2019, i ganiatáu defnyddio'r Gronfa i gyfrannu at gostau Anogwyr Dysgu yn y 5 ysgol uwchradd, dyrannwyd swm o £55,280 i bob ysgol i'w ddefnyddio i'r diben hwn. Dengys y tabl isod y gwariant a gafwyd gan bob ysgol yn ystod 2022/23.

| Ysgol | Swm a ddyrannwyd cyn 1 Ebrill 2019 | Balans ar 31 Mawrth 2020 | Balans ar 31 Mawrth 2021 | Balans ar 31 Mawrth 2022 | Swm a ddefnyddiwyd gan ysgolion yn 2022/23 | Swm a ddyrannwyd o 2022/23 | Balans ar 31 Mawrth 2023 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ | | £ |
| Ysgol Syr Thomas Jones | 55,280 | 53,909 | 50,168 | 55,168 | 37,000 | 0 | 18,168 |
| Ysgol Uwchradd Caergybi | 55,280 | 46,817 | 5,753 | 10,753 | 6,865 | 0 | 3,888 |
| Ysgol Gyfun Llangefni | 55,280 | 22,826 | 2,860 | 7,860 | 0 | 0 | 7,860 |
| Ysgol David Hughes | 55,280 | 56,160 | 33,650 | 38,650 | 28,441 | 0 | 10,209 |
| Ysgol Uwchradd Bodedern | 55,280 | 56,160 | 59,020 | 64,020 | 0 | 0 | 64,020 |
| **CYFANSWM** | **276,400** | **235,872** | **151,451** | **176,451** | **72,306** | **0** | **104,145** |

## 6. GRANTIAU A DDYRANNWYD I FYFYRWYR (Dyrannwyd o'r Gronfa 2/3)

**6.1** Yn dilyn penderfyniad y Pwyllgor Gwaith ym mis Hydref 2019, i ofyn i'r 5 ysgol uwchradd dderbyn cyfrifoldeb am weinyddu'r grantiau, dyfarnwyd swm cychwynnol o £8,560 i bob ysgol i'w ddosbarthu. Fodd bynnag, oherwydd y pandemig, nid oedd yr ysgolion mewn sefyllfa i wahodd ceisiadau yn ystod blwyddyn ysgol 2020/21 ac, o ganlyniad, ni ddyfarnwyd unrhyw grantiau.

**6.2** Ar ôl trafod gydag Archwilydd y cyfrifon, cytunwyd, at ddibenion y cyfrifon, y dylid ystyried y cyllid a ddosbarthwyd i ysgolion fel gweithgareddau elusennol at ddibenion yr Ymddiriedolaeth.

**6.3** Yn ystod 2022/3, dyfarnwyd 8 ysgoloriaethau trwy'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, gydag chwech grant ysgoloriaeth o £500 yn cael eu dyfarnu i ddisgyblion i'w galluogi i gwblhau ei addysg uwch.

**6.4** Mae'r balans o £185,870 ar gael i'w ddosbarthu, naill ai trwy'r ysgolion neu drwy Goleg Cymraeg Cenedlaethol.

## 7. EIDDO BUDDSODDI

**7.1** Mae Gwaddol David Hughes yn cynnwys 13 annedd fferm ac 1 parsel o dir, gyda chyfanswm arwynebedd o 1,140.68 erw. Cafodd Fferm Tŷ Coch ei rhoi ar y farchnad i'w gwerthu ac fe gynhyrchodd lawer o ddiddordeb. Gwerthwyd y fferm yn ystod y flwyddyn ariannol am £550,000 a arweiniodd at gael gwared ar £264,540 yn erbyn cyfrifiad 2021/22. Mae hyn wedi galluogi buddsoddiad pellach yn yr ystâd, gan arwain at wariant atgyweirio a chynnal a chadw o £134k. Mae cyfanswm gwerth yr ystâd bellach yn £3,810,500.

# CRONFA YMDDIRIEDOLAETH ADDYSG BELLACH YNYS MÔN

# ANGLESEY FURTHER EDUCATION TRUST FUND

## ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON

## ANNUAL REPORT AND ACCOUNTS

## 2022/23

**Rhif Cofrestru Elusen / Charity Registration No.**

**525254**

# CYNNWYS Y DATGANIAD ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2023


| | Tudalen |
|---|---|
| Adroddiad yr Ymddiriedolwyr | 1-5 |
| Adroddiad yr Archwilwr Annibynnol | 6 |
| Datganiad o Weithgareddau Ariannol | 7 |
| Mantolen | 8 |
| Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol | 9-15 |

## ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2023

Mae'r ymddiriedolwyr yn cyflwyno eu hadroddiad gyda datganiadau ariannol yr elusen am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2023. Mae'r ymddiriedolwyr wedi mabwysiadu darpariaethau'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir (SORP): Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau sy'n berthnasol i elusennau wrth baratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102) sy'n weithredol o 1 Ionawr 2015.

### MANYLION CYFREITHIOL A GWEINYDDOL

**Rhif Cofrestru Elusen:**

525254

**Cyfeiriad y Brif Swyddfa:**

Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfa'r Sir
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

**Ymddiriedolwr:**

Unig ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yw Cyngor Sir Ynys Môn, a gweinyddwyd gweithgareddau'r Ymddiriedolaeth ar ei rhan gan y Cyngor Sir.

**Archwiliwr Annibynnol:**

Mr. Brian Hughes
A. Hughes-Jones, Dyson & Co
Capel Moreia
De Penrallt
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1NS

**STRWYTHUR, LLYWODRAETHU A RHEOLI**

**Dogfen Lywodraethu:**

Rheolir yr elusen gan ei dogfen lywodraethu, gweithred ymddiriedolaeth, ac mae'n ymgorffori elusen anghorfforedig.

Rheoleiddir Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys gan gynllun a wnaed gan y Bwrdd Addysg ar 23 Mawrth 1939 ac fe'i haddaswyd yn sylweddol gan gynllun dyddiedig 18 Gorffennaf 1960. Mae'r rhain yn nodi'r dyletswyddau, pwerau a'r amodau y mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth weithredu arnynt.

**Recriwtio a phenodi ymddiriedolwyr newydd:**

Cyngor Sir Ynys Môn yw unig ymddiriedolwr Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn. Mae'r elusen yn cael ei rhedeg gan Bwyllgor Gwaith y Cyngor.

Caiff ymddiriedolwyr newydd eu briffio am eu cyfrifoldebau cyfreithiol o dan gyfraith elusennol, cynnwys y ddogfen lywodraethu a'r broses gwneud penderfyniadau. Nodir ac ymdrinnir yn fewnol ag anghenion hyfforddiant gan ymddiriedolwyr presennol eraill a swyddogion y Cyngor.

**Strwythur y Sefydliad:**

Cyngor Sir Ynys Môn yw unig ymddiriedolwr Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn, a gweinyddir gweithgareddau'r Ymddiriedolaeth ar ei rhan gan y Cyngor Sir.

Mae strwythur y sefydliad wedi bod fel a ganlyn:

- Mae Pwyllgor Gwaith y Cyngor yn gweithredu fel yr Ymddiriedolwr.
- Mae gan Bennaeth Gwasanaeth (Dysgu Gydol Oes) y Cyngor ar y cyd â'r Aelod Portffolio Dysgu Gydol Oes yr awdurdod dirprwyedig i ddyrannu'r grantiau blynyddol.
- Mae gan Bennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) y Cyngor ar y cyd â'r Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo yr awdurdod dirprwyedig i reoli cytundebau tenantiaeth ac i osod rhenti'r portffolio eiddo (Gwaddol David Hughes).
- Bydd Pwyllgor Gwaith y Cyngor yn cymeradwyo cyfrifon yr Ymddiriedolaeth a dirprwyir awdurdod i arwyddo Cyfrifon Blynyddol yr Ymddiriedolaeth i'r Swyddog Adran 151.

Arweinwyr strategol y Cyngor Sir oedd:

- Prif Weithredwr – Dylan Williams
- Dirprwy Brif Weithredwr – Rhys Hughes
- Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 – Marc Jones
- Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) a Swyddog Monitro – Lynn Ball

**Partïon Cysylltiedig:**

Oherwydd natur gweithrediadau'r elusen a gan mai unig ymddiriedolwr yr elusen yw Cyngor Sir Ynys Môn, mae'n anochel y bydd trafodion yn digwydd gyda sefydliadau sy'n gysylltiedig â'r Cyngor a'i weithwyr. Cynhelir yr holl drafodion gyda sefydliadau y gall Cyngor Sir Ynys Môn fod â diddordeb ynddynt o hyd braich. Mae gan y cyngor bolisi lle bod rhaid i bob ymddiriedolwr ddatgan diddordeb os bydd trafodyn yn ymwneud â pharti cysylltiedig yn digwydd.

**Rheoli Risg:**

Adolygwyd y prif risgiau y mae'r Ymddiriedolaeth yn agored iddynt, fel y nodwyd gan yr Ymddiriedolwr, a sefydlwyd systemau neu weithdrefnau i reoli'r risg.

## AMCANION A GWEITHGAREDDAU

**Nodau ac Amcanion:**

Mae Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yn cynnwys tair cronfa: Gwaddol David Hughes; Cronfa Addysg Bellach Ynys Môn 1/3 a Chronfa Addysg Bellach Ynys Môn 2/3 gyda'r nod o ddarparu budd addysgol penodol.

**Stad Elusennol David Hughes (Cronfa Waddol):**

Mae'r gronfa hon yn casglu rhenti o'i eiddo buddsoddi a llog ar ei fuddsoddiadau. Caiff costau rheoli a gweinyddu'r stad eu didynnu o'r rhenti a dderbynnir i gael yr incwm net am y flwyddyn y gellir ei ddosbarthu neu wariant net.

Gwneir taliad o chwarter yr incwm net i elusen heb gysylltiad, "Elusen David Hughes ar gyfer y Tlodion" er mwyn lliniaru tlodi yng nghymuned Llantrisant. Mae'r incwm sy'n weddill yn ffurfio Cronfa Addysg Bellach Ynys Môn:

**Cronfeydd Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn:**

Dyrennir traean o'r Gronfa Gyffredinol i ddarparu budd arbennig, o unrhyw fath na ddarperir gan yr Awdurdod fel arfer, i helpu disgyblion hŷn i orffen eu cyrsiau mewn unrhyw un o'r ysgolion a enwir yn y cynllun – y pum ysgol uwchradd a gynhelir gan y Cyngor Sir. Mae'r ddwy ran o dair sy'n weddill yn y Gronfa Gyffredinol ar gael er budd rhai o dan 25 oed, sydd wedi mynychu unrhyw un o'r ysgolion a enwir yn y cynllun am o leiaf ddwy flynedd, ac sydd angen cymorth ariannol ar gyfer Addysg Bellach neu Addysg Uwch neu hyfforddiant. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi adnabod tri chynllun gyda'r bwriad o gynyddu nifer y grantiau a ddyfernir yn y dyfodol.

**Dyrannu Grantiau:**

Dyrennir grantiau i unigolion sydd wedi mynychu neu sy'n mynychu un o'r pum ysgol uwchradd a gynhelir gan y Cyngor Sir ac sy'n bodloni'r meini prawf uchod. Gall hyn fod drwy daliadau a wneir i bob ysgol uwchradd neu drwy gynllun ysgoloriaeth i'w weinyddu gan y 'Coleg Cymraeg Cenedlaethol' i fyfyrwyr o gefndiroedd dan anfantais ariannol i ddilyn cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Budd Cyhoeddus:**

Mae'r ymddiriedolwyr yn cadarnhau eu bod wedi cyfeirio at yr arweiniad a gynhwysir yng nghanllawiau cyffredinol y Comisiynydd Elusennau ar fudd cyhoeddus wrth adolygu nodau ac amcanion yr elusen ac wrth gynllunio gweithgareddau i'r dyfodol a phennu'r broses o ddyrannu grantiau.

## LLWYDDIANT A PHERFFORMIAD

### Gweithgareddau elusennol:

Mae'r elusen wedi parhau i ddiogelu asedau'r Ymddiriedolaeth.

Mae'r elusen bellach yn dyrannu cyllid i bob un o ysgolion uwchradd yr ynys. Er mwyn cynorthwyo disgyblion presennol, cynigiwyd hyd at £56k i bob ysgol i gychwyn i ariannu cost Anogwyr Dysgu. Rhoddwyd hefyd £8,560 i bob ysgol i'w galluogi i gynorthwyo myfyrwyr sydd dan anfantais ariannol i gael lleoedd mewn colegau a phrifysgolion a/neu helpu i brynu llyfrau ac offer sy'n ofynnol i fynychu'r cyrsiau yn y flwyddyn gyntaf.

Yn ystod 2022/23 parhaodd y cynllun ysgoloriaethau Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a derbyniodd chwech cyn-ddisgybl swm o £500.

## ADOLYGIAD ARIANNOL

### Perfformiad Ariannol:

Cyn enillion a cholledion ar fuddsoddiadau roedd gan y Gronfa Waddol wariant net o £16,752 oherwydd buddsoddiad uwch yn ei bortffolio eiddo.

Mae gwerth buddsoddiadau'r Ymddiriedolaeth wedi gostwng £8,464 ond mi wnaeth gwerthu un o'r anheddau roi ennill o £264,540. Mae hyn yn rhoi cynnydd o £170,770 yng nghronfeydd yr elusen ar gyfer y flwyddyn.

O ganlyniad, cyfanswm y cronfeydd ar 31 Mawrth 2023 oedd £4,885,549, ac mae'r holl gronfeydd yn gyfyngedig.

### Prif ffynonellau ariannu:

Prif ffynonellau ariannu'r elusen yw incwm rhent gan denantiaid ac incwm buddsoddi ar ffurf difidendau, llog buddsoddi neu log ar adneuon.

### Polisi ac amcanion buddsoddi:

Mae portffolio eiddo sy'n heneiddio'r elusen wedi bod angen buddsoddiad sylweddol. Mae ymddiriedolwr yr elusen wedi mynd trwy gyfnod o atgyfnerthu er mwyn cynhyrchu'r cronfeydd ariannol angenrheidiol i ail-fuddsoddi yn ei asedau. Yn ogystal, mae'r elusen yn dal tua 10% o Gyfanswm ei Asedau Sefydlog mewn Cronfeydd Buddsoddi, sy'n cynhyrchu difidend ac incwm llog.

### Cynlluniau ar gyfer y dyfodol:

Mae Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yn gweithredu fel busnes hyfyw ar gyfer y dibenion elusennol a nodwyd uchod.

**DATGANIAD CYFRIFOLDEB YR YMDDIRIEDOLWYR**

Mae’r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a’r Datganiadau Ariannol yn unol â’r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu’r Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifeg Gyffredinol Dderbyniol y Deyrnas Unedig).

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith sy’n berthnasol i elusennau yng Nghymru a Lloegr, y Ddeddf Elusennau, Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) a darpariaethau’r weithred ymddiriedolaeth fod yr ymddiriedolwyr yn paratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy’n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa bresennol yr elusen ac o’r adnoddau a dderbyniwyd ac o’r defnydd a wnaed o adnoddau, yn cynnwys incwm a gwariant, yr elusen am y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi’r datganiadau ariannol hynny, rhaid i’r ymddiriedolwyr:

- ddewis polisïau cyfrifyddu addas ac yna eu gweithredu’n gyson
- ddilyn y dulliau a'r egwyddorion yn y SORP Elusennau
- wneud dyfarniadau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddarbodus
- baratoi’r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw oni bai ei fod yn amhriodol tybio y bydd y cwmni elusennol yn parhau i weithredu.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifo priodol sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol yr elusen ac er mwyn eu galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â’r Ddeddf Elusennau, Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) a darpariaethau’r weithred ymddiriedolaeth. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau’r elusen a gan hynny am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac anghysondebau eraill.

Llofnodwyd gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 o dan awdurdod dirprwyedig ar ran yr ymddiriedolaeth:

______________________________ ____________________

**Mr R Marc Jones FCPFA** **Dyddiad**

**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151**

**Adroddiad yr archwiliwr annibynnol i ymddiriedolwyr Cronfa Addysg Bellach Ynys Môn**

Rwy'n adrodd i'r Ymddiriedolwyr ar fy archwiliad o gyfrifon Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2023 a nodir ar dudalennau 7-15.

**Cyfrifoldebau a sail yr adroddiad**

Fel ymddiriedolwyr elusen yr Ymddiriedolaeth, rydych yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011 ('y Ddeddf').

Rwy'n adrodd ar sail fy archwiliad o gyfrifon yr Ymddiriedolaeth a gynhaliwyd o dan adran 145 o Ddeddf 2011 ac wrth gynnal fy archwiliad rwyf wedi dilyn yr holl gyfarwyddiadau cymwys a roddwyd gan y Comisiwn Elusennol o dan adran 145(5)(b) o'r Ddeddf.

**Datganiad yr archwiliwr annibynnol**

Rwyf wedi cwblhau fy archwiliad. Cadarnhaf nad oes unrhyw faterion o bwys wedi dod i fy sylw mewn cysylltiad â'r archwiliad sy'n rhoi rheswm i mi gredu mewn unrhyw fodd perthnasol:

1. Nad yw cofnodion cyfrifo mewn perthynas â'r Ymddiriedolaeth wedi cael eu cadw'n unol ag Adran 130 y Ddeddf; neu
2. Nad yw'r cyfrifon yn cyd-fynd â'r cofnodion hynny; neu
3. Nad yw'r cyfrifon yn cydymffurfio gyda'r gofynion perthnasol o ran ffurf a chynnwys y cyfrifon a nodir yn Rheoliadau Elusennol (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 ac eithrio unrhyw ofyniad bod y cyfrifon yn 'adlewyrchiad cywir a theg' sydd ddim yn fater a ystyrir fel rhan o archwiliad annibynnol.

Nid oes gennyf unrhyw bryderon ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn perthynas â'r archwiliad y dylid dwyn sylw atynt yn yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau y gellir deall y cyfrifon yn iawn.

Llofnod: ______________________________ Dyddiad: ________________

**Brian Hughes FCA**
**A. Hughes-Jones, Dyson & Co.**
**Cyfrifwyr Siartredig ac Archwilwyr Cofrestredig**
**Capel Moreia, De Penrallt, Caernarfon, Gwynedd**

## DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2023

| | Nodiadau | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Cronfeydd Waddol £ | 31.3.2023 Cyfanswm Cronfeydd £ | 31.3.2022 Cyfanswm Cronfeydd £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm a Gwaddoliadau o:** | | | | | |
| Incwm Buddsoddi | 2 | 6,752 | 142,688 | 149,440 | 137,396 |
| Cyfanswm Incwm | | 6,752 | 142,688 | 149,440 | 137,396 |
| **Gwariant ar:** | | | | | |
| Rheoli Buddsoddiadau | 3 | - | (147,164) | (147,164) | (78,665) |
| Gweithgareddau Elusennol | 4 | (75,306) | - | (75,306) | (10,000) |
| Costau Cefnogi | 5 | - | (12,276) | (12,276) | (13,958) |
| Cyfanswm Gwariant | | (75,306) | (159,440) | (234,746) | (102,623) |
| | | | | | |
| Incwm / (Gwariant) Net ar gael i'w ddosbarthu cyn Enillion a Cholledion ar Fuddsoddiadau | | (68,554) | (16,752) | (85,306) | 34,773 |
| Taliad o 25% o incwm net i Elusen David Hughes ar gyfer y Tlodion | 6 | - | - | - | (10,286) |
| Trosglwyddiad o'r incwm Gwaddol Net sy'n weddill i'r Cronfeydd Ymddiriedolaeth Addysg Bellach | | - | - | - | - |
| Incwm / (Gwariant) Net cyn Enillion a Cholledion ar Fuddsoddiadau | | (68,554) | (16,752) | (85,306) | 24,487 |
| Enillion / (Colledion) Net ar Fuddsoddiadau | 7 | (3,462) | 259,538 | 256,076 | 74,484 |
| Incwm / (Gwariant) Net | | (72,016) | 242,786 | 170,770 | 98,971 |
| | | | | | |
| Symudiad Net mewn Cronfeydd | | (72,016) | 242,786 | 170,770 | 98,971 |
| **Cysoni Cronfeydd** | | | | | |
| Cyfanswm cronfeydd a ddygwyd ymlaen | | 369,772 | 4,345,007 | 4,714,779 | 4,615,808 |
| Cyfanswm cronfeydd wedi'u cario drosodd | | 297,756 | 4,587,793 | 4,885,549 | 4,714,779 |

## MANTOLEN AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2023

| | Nodiadau | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Cronfeydd Waddol £ | 31.3.2023 Cyfanswm Cronfeydd £ | 31.3.2022 Cyfanswm Cronfeydd £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Buddsoddiadau a restrwyd neu a fasnachwyd ar Gyfnewidfa Stoc gydnabyddedig | 7a | 115,691 | 165,554 | 281,245 | 289,709 |
| Eiddo Buddsoddi - Ystâd David Hughes | 7b | - | 3,810,500 | 3,810,500 | 4,093,000 |
| Cyfanswm Asedau Sefydlog | | 115,691 | 3,976,054 | 4,091,745 | 4,382,709 |
| Asedau Cyfredol | | | | | |
| Dyledwyr | 8 | - | 62,832 | 62,832 | 68,899 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 9 | 182,065 | 566,255 | 748,320 | 285,024 |
| Cyfanswm Asedau Cyfredol | | 182,065 | 629,087 | 811,152 | 353,923 |
| Rhwymedigaethau | | | | | |
| Credydwyr: symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn | 10 | - | (17,348) | (17,348) | (21,853) |
| Asedau neu (Rwymedigaethau) Cyfredol Net | | 182,065 | 611,739 | 793,804 | 332,070 |
| Credydwyr: symiau'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | | - | - | - | - |
| Darpariaethau ar gyfer Rhwymedigaethau | | - | - | - | - |
| Cyfanswm Asedau neu (Rwymedigaethau) Net | | 297,756 | 4,587,793 | 4,885,549 | 4,714,779 |
| Cronfeydd yr Elusen | 11 | | | | |
| Cronfeydd Gwaddol | | - | 4,587,793 | 4,587,793 | 4,345,007 |
| Cronfeydd Incwm Cyfyngedig | | 297,756 | - | 297,756 | 369,772 |
| Cyfanswm Cronfeydd Elusennol | | 297,756 | 4,587,793 | 4,885,549 | 4,714,779 |

Arwyddwyd y datganiadau ariannol gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 o dan awdurdod dirprwyedig:

______________________________ ______________________________

**Mr R Marc Jones FCPFA** **Dyddiad**

**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151**

## NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2023

### 1. POLISÏAU CYFRIFYDDU

**Confensiwn Cyfrifo**

Paratowyd y datganiadau ariannol dan y confensiwn cost hanesyddol ac eithrio buddsoddiadau, sy'n cael eu cynnwys ar sail gwerth y farchnad, fel yr addaswyd drwy ailbrisio asedau penodol ac yn unol â'r SORP Elusennau (FRS102) (a ddaeth i rym Ionawr 2015), Deddf Elusennau 2011 a gofynion y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir, Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau.

**Adnoddau a dderbyniwyd**

Caiff yr holl adnoddau a dderbynnir eu cydnabod unwaith y mae gan yr elusen hawl i'r adnoddau, ei bod yn sicr y derbynnir yr adnoddau, ac y gellir mesur gwerth ariannol yr adnoddau a dderbynnir gyda digon o ddibynadwyedd.

**Adnoddau a wariwyd**

Cyfrifir gwariant ar sail groniadol ac fe'i dosbarthwyd o dan benawdau sy'n cyfuno'r holl gostau sy'n gysylltiedig â'r categori. Lle na ellir priodoli'r costau'n uniongyrchol o dan benawdau penodol, fe'u dyrannwyd i weithgareddau ar sail sy'n gyson â'r defnydd o adnoddau.

**Costau cynhyrchu cronfeydd**

Mae costau cynhyrchu cronfeydd yn cynnwys costau rheoli buddsoddiadau.

**Eiddo buddsoddi**

Dangosir eiddo buddsoddi ar sail y prisiad mewnol mwyaf diweddar. Caiff cyfanswm unrhyw warged neu ddiffyg ariannol yn sgil newidiadau mewn gwerth ar y farchnad ei drosglwyddo i'r gronfa waddol.

**Trethiant**

Mae'r elusen wedi'i heithrio rhag treth ar ei gweithgareddau elusennol.

**Treth ar Werth**

Gall yr elusen adennill Treth ar Werth trwy ei hymddiriedolwr, Cyngor Sir Ynys Môn, felly, lle mae'n briodol, dangosir gwariant yn net o Dreth ar Werth.

**Strwythur y Gronfa**

Mae gan yr elusen dair cronfa, un gwaddol a dwy gyfyngedig.

**Stad Elusennol David Hughes (Cronfa Waddol)**

Mae'r gronfa hon yn casglu rhenti o'i eiddo buddsoddi a llog ar ei fuddsoddiadau. Caiff costau rheoli a gweinyddu'r stad eu didynnu o'r rhenti a dderbynnir i gael yr incwm net am y flwyddyn y gellir ei ddosbarthu.

Gwneir taliad o chwarter yr incwm net i elusen heb gysylltiad, "Elusen David Hughes ar gyfer y Tlodion" er mwyn lliniaru tlodi yng nghymuned Llantrisant.

Mae’r incwm sy’n weddill yn ffurfio Cronfa Addysg Bellach Ynys Môn, sy’n cael ei rhannu’n ddwy:

**Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 1/3 (Cronfa Gyfyngedig)**

Dyrennir traean o Gronfa Ymddiriedolaeth Bellach Ynys Môn i ddarparu budd arbennig, o unrhyw fath na ddarperir gan yr Awdurdod fel arfer, i helpu disgyblion hŷn i orffen eu cyrsiau mewn unrhyw un o’r ysgolion a enwir yn y cynllun – y pum ysgol uwchradd a gynhelir gan y Cyngor Sir.

**Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 2/3 (Cronfa Gyfyngedig)**

Mae’r ddwy ran o dair sy’n weddill o Gronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn ar gael er budd rhai o dan 25 oed, sydd wedi mynychu unrhyw un o’r ysgolion sydd wedi’u cynnwys yn y cynllun am o leiaf ddwy flynedd, ac sydd angen cymorth ariannol ar gyfer Addysg Bellach neu Addysg Uwch neu hyfforddiant.

Nid oes gan yr elusen unrhyw incwm anghyfyngedig.

**Buddsoddiadau asedau sefydlog**

Caiff buddsoddiadau eu datgan ar sail eu gwerth ar y farchnad ar ddyddiad y fantolen. Mae datganiad o weithgareddau ariannol yn cynnwys yr enillion a’r colledion net sy’n codi o ailbrisio a gwarediadau yn ystod flwyddyn.

**Enillion a cholledion wedi’u gwireddu**

Mae’r holl enillion a cholledion yn cael eu cynnwys ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol wrth iddynt godi. Caiff enillion a cholledion wedi’u gwireddu ar fuddsoddiadau eu cyfrifo fel y gwahaniaeth rhwng enillion gwerthiant a gwerth y farchnad agoriadol (neu ddyddiad prynu os yw’n hwyrach). Caiff enillion a cholledion heb eu gwireddu eu cyfrifo fel y gwahaniaeth rhwng gwerth y farchnad ar ddiwedd y flwyddyn a gwerth y farchnad agoriadol (neu ddyddiad prynu os yw’n hwyrach). Nid yw enillion wedi’u gwireddu ac enillion heb eu gwireddu wedi’u nodi ar wahân yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol.

## 2. INCWM BUDDSODDI

| Incwm Buddsoddi | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Cronfeydd Gwaddol £ | Cyfanswm 31.3.23 £ | Cyfanswm 31.3.22 £ |
|---|---|---|---|---|
| Rhenti a dderbyniwyd | - | 127,364 | 127,364 | 123,303 |
| Trethi dŵr - ad-daliadau | - | 1,000 | 1,000 | 5,385 |
| Incwm arall o Stâd David Hughes | - | - | - | - |
| Difidendau a llog buddsoddiad | 3,977 | 5,693 | 9,670 | 8,577 |
| Llog arall | 2,775 | 8,631 | 11,406 | 131 |
| Cyfanwm Incwm Buddsoddi | 6,752 | 142,688 | 149,440 | 137,396 |

## 3. COSTAU RHEOLI BUDDSODDIADAU

| **Costau Rheoli Buddsoddiadau** | **Cronfeydd Cyfyngedig £** | **Cronfeydd Gwaddol £** | **Cyfanswm 31.3.23 £** | **Cyfanswm 31.3.22 £** |
|---|---|---|---|---|
| Atgyweirio a Chynnal a Chadw Stâd David Hughes | - | (134,036) | (134,036) | (67,067) |
| Taliadau Dŵr | - | (3,474) | (3,474) | (4,937) |
| Gwasanaethau Proffesiynol | - | - | - | (2,058) |
| Costau eiddo eraill | - | (5,057) | (5,057) | - |
| Darpariaeth ar gyfer drwgddyledion | - | (4,597) | (4,597) | (4,603) |
| Cyfanswm Costau Rheoli Buddsoddiadau | - | (147,164) | (147,164) | (78,665) |

## 4. GWEITHGAREDDAU ELUSENNOL

| **Gweithgareddau Elusennol** | **Cronfeydd Cyfyngedig £** | **Cronfeydd Gwaddol £** | **Cyfanswm 31.3.23 £** | **Cyfanswm 31.3.22 £** |
|---|---|---|---|---|
| Grantiau addysgol a ddyfarnwyd | (3,000) | - | (3,000) | (10,000) |
| Grantiau i ysgolion - annogwyr dysgu | (72,306) | - | (72,306) | - |
| Grantiau i ysgolion - cymorth tuag at addysg uwch | - | - | - | - |
| Cyfanswm Gwariant Elusennol | (75,306) | - | (75,306) | (10,000) |

Mae’r grantiau Addysg a ddyfarnwyd yn cynnwys chwech ysgoloriaeth o £500 a ddyfarnwyd i gyn-ddisgyblion trwy’r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Mae’r Ymddiriedolaeth yn cymhwyso’r eithriad a ganiateir o dan y Gyfraith Elusennau a’r SORP i gadw enwau’r rhai sy’n derbyn grant yn gyfrinachol.

## 5. COSTAU CEFNOGI

| **Costau Cefnogi** | **Cronfeydd Cyfyngedig £** | **Cronfeydd Gwaddol £** | **Cyfanswm 31.3.23 £** | **Cyfanswm 31.3.22 £** |
|---|---|---|---|---|
| Costau gweinyddu a rheoli eiddo | - | (7,919) | (7,919) | (9,601) |
| Costau cyfrifo a chefnogi | - | (3,387) | (3,387) | (3,427) |
| Tâl yr Archwiliwr Annibynnol | - | (970) | (970) | (930) |
| Cyfanswm Costau Cefnogi | - | (12,276) | (12,276) | (13,958) |

## 6. DOSBARTHU INCWM NET Y GRONFA WADDOL

Mae 25% o incwm net cyn enillion a cholledion ar fuddsoddiadau'r gronfa Waddol i'w dalu i elusen David Hughes ar gyfer y Tlodion. Mae'r gweddill yn cael ei rannu rhwng y Cronfeydd Ymddiriedolaeth Addysg Bellach gyfyngedig ar sail 1/3 a 2/3:

| **Dosbarthu Incwm Net y Gronfa Waddol** | **Cyfanswm 31.3.23 £** | **Cyfanswm 31.3.22 £** |
|---|---|---|
| Incwm / (Gwariant) Net ar gael i'w ddosbarthu cyn Enillion a Cholledion ar Fuddsoddiadau | - | 41,143 |
| Talu 25% i Elusen David Hughes ar gyfer y Tlodion | - | 10,286 |
| Trosgwlyddo 25% i Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 1/3 | - | 10,286 |
| Trosgwlyddo 50% i Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 2/3 | - | 20,571 |

## 7. BUDDSODDIADAU

| **Enillion / (Colledion) Net ar Fuddsoddiadau** | **Cronfeydd Cyfyngedig £** | **Cronfeydd Gwaddol £** | **Cyfanswm 31.3.23 £** | **Cyfanswm 31.3.22 £** |
|---|---|---|---|---|
| Enillion / (Colledion) ar Gronfeydd Buddsoddi a restrwyd | (3,462) | (5,002) | (8,464) | 14,384 |
| Enillion / (Colledion) ar Eiddo Buddsoddi | - | 264,540 | 264,540 | 60,100 |
| Cyfanswm Enillion / (Colledion) Net | (3,462) | 259,538 | 256,076 | 74,484 |

### a. BUDDSODDIADAU A RESTRWYD NEU A FASNACHWYD AR GYFENWIDFA STOC GYDNABYDDEDIG

| **Buddsoddiadau a Restrwyd neu a Fasnachwyd ar Gyfnewidfa Stoc Gydnabyddedig** | **Cronfeydd Cyfyngedig £** | **Cronfeydd Gwaddol £** | **Cyfanswm 31.3.23 £** | **Cyfanswm 31.3.22 £** |
|---|---|---|---|---|
| Gwerth ar y Farchnad | | | | |
| Ar 1 Ebrill | 119,153 | 170,556 | 289,709 | 275,325 |
| Ychwanegiadau | - | - | - | - |
| Gwarediadau | - | - | - | - |
| Ailbrisio | (3,462) | (5,002) | (8,464) | 14,384 |
| Trosglwyddiadau | - | - | - | - |
| Gwerth Net ar Bapur ar 31 Mawrth | 115,691 | 165,554 | 281,245 | 289,709 |

Nid oedd unrhyw asedau buddsoddi y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

Mae'r buddsoddiadau'n bennaf yng Nghronfeydd Buddsoddi Awdurdodedig Elusennau BLK Charities UK gyda daliadau bach mewn stociau gilt ac ecwiti.

Dangosir buddsoddiadau ar sail eu gwerth ar y farchnad. Eu gwerth hanesyddol yw £67,029.

## b. EIDDO BUDDSODDI

| Eiddo Buddsoddi | 31.3.23<br>£ | 31.3.22<br>£ |
|---|---|---|
| Gwerth ar y Farchnad ar 1 Ebrill | 4,093,000 | 4,032,900 |
| Ychwanegiadau | - | - |
| Gwarediadau | (282,500) | - |
| Amhariad | - | - |
| Enillion / (Colledion) Ailbrisio | - | 60,100 |
| Trosglwyddiadau | - | - |
| Gwerth Net ar Bapur ar 31 Mawrth | 3,810,500 | 4,093,000 |

Mae Gwaddol David Hughes yn cynnwys 12 o anheddau fferm ac un darn o dir, gyda chyfanswm arwynebedd o 1,140.68 acer.

Gwerthwyd annedd Tŷ Coch yn ystod y flwyddyn am £550,000 gan roi ennill ar warediad o £264,540 yn erbyn prisiad 21/22. Mi wnaeth hyn alluogi rhagor o fuddsoddiad yn y stad, gyda gwariant o £134k ar atgyweirio a chynnal a chadw eleni.

Prisiwyd yr Ystâd ym mis Mawrth 2023 ar sail defnydd presennol gan Sarah V. Williams Uwch Swyddog Prisio Cyngor Sir Ynys Môn a chyfanswm y gwerth oedd £3,810,500.

## 8. DYLEDWYR: SYMIAU'N DDYLEDUS O FEWN BLWYDDYN

| Dyledwyr: Symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn | 31.3.23<br>£ | 31.3.22<br>£ |
|---|---|---|
| Symiau y gellir eu hadennill ar gontract | 111,151 | 112,621 |
| Darpariaeth ar gyfer drwgddyledion | (48,319) | (43,722) |
| Cyfanswm Dyledwyr | 62,832 | 68,899 |

Penderfynwyd yn 2017/18 y byddai'n ochelgar creu darpariaeth ar gyfer drwg-ddyledion oherwydd cyfanswm y dyledion hanesyddol oedd wedi cronni. Fodd bynnag, mae ymdrechion i gasglu'r symiau sy'n ddyledus gan gyn-denantiaid wedi cynyddu'n ddiweddar, gyda rhai llwyddiannau.

## 9. ARIAN YN Y BANC

Mae hyn yn cynrychioli'r balans o fewn y cronfeydd ariannol a gedwir gan Gyngor Sir Ynys Môn ar ran Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn.

| Arian yn y Banc | Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 1/3<br>£ | Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 2/3<br>£ | Stâd Elusennol David Hughes<br>£ | Cyfanswm 31.3.23<br>£ | Cyfanswm 31.3.22<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|
| Arian yn y Banc | 33,484 | 148,581 | 566,255 | 748,320 | 285,024 |
| Adneuon Banc | 33,484 | 148,581 | 566,255 | 748,320 | 285,024 |

## 10. CREDYDWYR: SYMIAU'N DDYLEDUS O FEWN BLWYDDYN

| Credydwyr: Symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Cronfeydd Gwaddol £ | Cyfanswm 31.3.23 £ | Cyfanswm 31.3.22 £ |
|---|---|---|---|---|
| Credydwyr eraill | - | (17,348) | (17,348) | (21,853) |
| Cyfanswm Credydwyr | - | (17,348) | (17,348) | (21,853) |

## 11. SYMUDIAD MEWN CRONFEYDD

### a.

| Symudiadau mewn Cronfeydd | 1.4.22 £ | Symudiad Net mewn Cronfeydd £ | 31.3.23 £ |
|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 1/3 | 183,346 | (71,460) | 111,886 |
| Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 2/3 | 186,426 | (556) | 185,870 |
| Cronfeydd Cyfyngedig | 369,772 | (72,016) | 297,756 |
| Stâd Elusennol David Hughes | 4,345,007 | 242,786 | 4,587,793 |
| Cronfeydd Gwaddol | 4,345,007 | 242,786 | 4,587,793 |
| | | | |
| Cyfanswm Cronfeydd | 4,714,779 | 170,770 | 4,885,549 |

### b. Mae symudiad net mewn cronfeydd, a gynhwysir yn yr uchod, fel a ganlyn:

| Symudiadau Net mewn Cronfeydd wedi'u cynnwys yn yr uchod: | Adnoddau Incwm £ | Gwariant £ | Trosglwyddiadau £ | Enillion a Cholledion £ | Symudiad mewn Cronfeydd £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 1/3 | 3,206 | (72,306) | - | (2,360) | (71,460) |
| Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 2/3 | 3,546 | (3,000) | - | (1,102) | (556) |
| Cronfeydd Cyfyngedig | 6,752 | (75,306) | - | (3,462) | (72,016) |
| Stâd Elusennol David Hughes | 142,688 | (159,440) | - | 259,538 | 242,786 |
| Cronfeydd Gwaddol | 142,688 | (159,440) | - | 259,538 | 242,786 |
| | | | | | |
| Cyfanswm Cronfeydd | 149,440 | (234,746) | - | 256,076 | 170,770 |

## 12. TÂL A BUDDION YR YMDDIRIEDOLWYR

### Treuliau Ymddiriedolwyr

Ni thalwyd unrhyw gydnabyddiaeth ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2023 nac y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2022. Mae hyn yn gysylltiedig â'r Ymddiriedolwr, hynny yw, aelodau'r Pwyllgor Gwaith ac Uwch Dîm Arweinyddiaeth Cyngor Sir Ynys Môn yn gweithredu ar ei ran. Gweler Nodyn 13 (Datgeliadau Parti Perthynol) mewn cysylltiad â'r ffioedd a dalwyd i'r ymddiriedolwr corfforaethol ar gyfer costau eiddo a gweinyddu ariannol.

## 13. DATGELIADAU PARTI PERTHYNOL

### Cyngor Sir Ynys Môn

Mae Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yn cael ei gweinyddu gan Gyngor Sir Ynys Môn. Codwyd ffi rheoli eiddo o £7,919 (£9,601 yn 2021/22) gan y Cyngor i weinyddu Ystâd David Hughes. Yn ogystal, codwyd ffi rheoli ariannol o £3,387 (£3,427 yn 2021/22) ar yr Ymddiriedolaeth ar gyfer gweinyddiaeth ariannol a chynhyrchu cyfrifon. Felly, roedd cyfanswm y ffioedd a adenillwyd gan y Cyngor yn £11,306.

Oherwydd natur gweithrediadau'r elusen a gan mai unig ymddiriedolwr yr elusen yw Cyngor Sir Ynys Môn, mae'n anochel y bydd trafodion yn digwydd gyda sefydliadau sy'n gysylltiedig â'r Cyngor a'i weithwyr. Cynhelir yr holl drafodion y gall Cyngor Sir Ynys Môn fod â diddordeb ynddynt o hyd braich. Mae gan y Cyngor bolisi bod yn rhaid i bob Cynghorydd ac aelodau'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ddatgan diddordeb os bydd trafodyn yn ymwneud â pharti cysylltiedig yn digwydd.

This page is intentionally left blank

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 19 Mawrth 2024 |
| Pwnc / Testun: | Cynllun Strategol Taclo Tlodi 2024-29 |
| Deilydd(ion) Portffolio: | Cynghorydd Llinos Medi |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Fôn Roberts<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-bost: | Alun T Roberts, Rheolwr Rhaglen Corfforaethol<br>01248 752 814<br>AlunRoberts@ynysmon.llyw.cymru<br>Antony W Jones, Rheolwr Prosiect<br>01248 752 972<br>antonyjones@ynysmon.llyw.cymru |
| Aelodau Lleol: | Yr holl aelodau etholedig |

A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

Gymeradwyo'r Cynllun Strategol Taclo Tlodi drafft ar gyfer 2024-29.

Mae'r angen ar gyfer y Cynllun Strategol Taclo Tlodi hwn wedi cael ei gydnabod fel blaenoriaeth, ac mae'n cael ei yrru gan Gynllun y Cyngor 2023-28.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r Cynllun Strategol Taclo Tlodi drafft ar gyfer 2024-2029. Mae'r Cynllun yn darparu'r trywydd clir ac yn gosod y weledigaeth a'r meysydd blaenoriaeth allweddol i taclo tlodi yn ystod y pum mlynedd nesaf, a'r camau mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd gyda'n partneriaid allanol i sicrhau bod ein gwasanaethau'n cael eu darparu'n gynaliadwy ac yn effeithiol o ran taclo tlodi.

Wrth ddatblygu'r Cynllun Strategol hwn, rydym wedi ystyried sefyllfa ariannol bresennol y Cyngor, lle mae'r grantiau craidd yn lleihau ond mae'r galw ar wasanaethau'n parhau i gynyddu. Oherwydd hyn, mae'n rhaid i ni gyflawni mwy gyda llai o adnoddau, sydd wedi arwain at yr angen am y Cynllun Strategol. Bydd y dangosfwrdd costau byw sydd newydd ei lansio yn hwyluso'r cynllun; darparu set gwybodaeth a data cryf, integredig sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Sicrheir bod hyn yn cael ei gadw'n gywir ac yn gyfredol, fydd yn galluogi'r Cyngor i wneud penderfyniadau cywir a gwybodus wrth taclo tlodi ar Ynys Môn.

Mae'r Cyngor wedi ymwneud â, ac wedi croesawu sylwadau gan swyddogion mewnol ar bob lefel, ac amrywiaeth o randdeiliaid wrth baratoi'r cynllun strategol hwn. Mae llawer o'r cynllun yn dibynnu ar eu cefnogaeth barhaus a chydweithio er mwyn darparu'r cynnwys.

| B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn? |
| --- |
| Ni ystyriwyd unrhyw opsiynau eraill. |

| C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
| --- |
| I gymeradwyo'r Cynllun Strategol Taclo Tlodi.<br><br>Gweledigaeth y Cyngor yw creu Ynys Môn sy'n iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu. Bydd cymeradwyo'r cynllun yn helpu i gyflawni'r weledigaeth hon. |

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
| --- |
| Ydy, mae'r Cynllun Strategol Taclo Tlodi yn ddogfen gyhoeddus allweddol sy'n cyd-fynd â Chynllun y Cyngor 2023 – 2028. Mae ein blaenoriaethau drafft yn berthnasol iawn gan eu bod yn cyd-fynd ag amcanion strategol Cynllun y Cyngor:<br>• Addysg: Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer cenedlaethau heddiw a chenedlaethau'r dyfodol.<br>• Gofal a llesiant cymdeithasol: Darparu'r gefnogaeth gywir ar yr adeg gywir.<br>• Tai: sicrhau bod gan bawb yr hawl i alw rhywle'n gartref.<br>• Economi: Hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu economi'r ynys. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
| --- |
| Amherthnasol |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
| --- | --- | --- |
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Bydd cymeradwyo'r Cynllun Strategol Taclo Tlodi yn cael effaith gadarnhaol ar anghenion tymor hir yr ynys.<br><br>Roedd y pandemig yn gyfnod heriol ac ansicr i'r Cyngor a'i staff; mae partneriaid a chymunedau wedi gweithio gyda'i gilydd er budd trigolion yr ynys. Mae bellach yn amser paratoi ar gyfer y dyfodol, fydd yn dod â nifer o heriau a chyfleoedd eraill. |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn wynebu heriau sylweddol; cynnydd mewn galw, mwy o ddisgwyliadau gan y cyhoedd a llai fyth o gyllid, ac mae'r cyfan yn golygu bod y dewisiadau sydd ar gael i Gyngor Môn yn anodd iawn.<br><br>Mae cyllid grant yn darparu cefnogaeth tymor byr i'r rheiny sydd mewn angen, ond nid yw'n datrys y problemau tymor hir mae trigolion Môn yn eu hwynebu, sy'n parhau i gael eu heffeithio gan yr argyfwng costau byw.<br><br>Bydd gweithredu'r Cynllun Strategol yn lleihau'r galw am wasanaethau a lleihau costau yn y dyfodol. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Do, mae'r Cyngor wedi gweithio gydag amrywiaeth o randdeiliaid i baratoi'r cynllun strategol hwn, h.y., Cyngor ar Bopeth, Digartref, Gorwel, Medrwn Môn, DWP, a Mencap. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Rydym wedi ymgysylltu gyda:<br>• Fforwm Pobl Hŷn<br>• Fforwm Plant a Phobl Ifanc<br>• Cynnal sesiwn rhyngweithiol a gafodd ei gadeirio gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, gyda rhanddeiliaid a swyddogion perthnasol o fewn y Cyngor.<br>• Tîm Rheolaeth Corfforaethol<br>• Grwp Gweithredol Ymyrraeth Gynnar ac Atal. |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Gweler yr asesiad effaith ar anghydraddoldeb sy'n dangos bod hyn yn cael effaith cadarnhaol.<br><br>Mae'n bwysig nodi bod y cynllun strategol hwn yn cyd-fynd â'n hamcanion llesiant corfforaethol sydd wedi'u nodi yng Nghynllun y Cyngor 2023-2028:<br>• Mae pobl Môn wedi derbyn addysg er mwyn cyflawni a |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| | | llwyddo hyd eithaf eu gallu yn y tymor hir.<br>• Mae pobl Môn yn ddiogel, iach ac mor annibynnol â phosibl.<br>• Mae pobl a chymunedau Môn yn mwynhau, yn gwarchod ac yn gwella eu hamgylcheddau adeiledig a naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Bydd y Cynllun Strategol Taclo Tlodi yn helpu i wella anghydraddoldebau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol, gan gynnwys:<br>• Darparu cartrefi fforddiadwy a hygyrch i'r rheiny sydd mewn angen.<br>• Sicrhau bod trigolion yn gwybod at bwy i droi am gefnogaeth.<br>• Sicrhau bod ein penderfyniadau'n ystyriol o anghenion ein trigolion sy'n wynebu'r anfanteision mwyaf. |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Dim effaith – bydd yr holl geisiadau am gymorth yn cael eu trin yr un fath yn y Gymraeg a'r Saesneg; ymdrinnir ag ymgeiswyr yn y iaith maen nhw'n ei dewis. |

| Gyda phwy yr ymgynghoroch? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Mae eu sylwadau wedi'u hymgorffori yn y ddogfen. |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | Mae'r Swyddog Adran 151 yn aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac mae unrhyw sylwadau ganddo wedi'u hystyried ochr yn ochr â sylwadau gan aelodau'r tîm hwnnw. |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Mae'r Swyddog Monitro yn aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac mae unrhyw sylwadau ganddi wedi'u hystyried ochr yn ochr â sylwadau gan aelodau'r tîm hwnnw. |

| Gyda phwy yr ymgynghoroch? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Amherthnasol |
| 5 | Eiddo | Amherthnasol |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | Amherthnasol |
| 7 | Caffael | Amherthnasol |
| 8 | Sgriwtini | Cyflwynir y Cynllun Strategol Taclo Tlodi i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ar 13.03.2024. |
| 9 | Aelodau Lleol | Perthnasol i bob Aelod Etholedig. |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Atodiad A – Cynllun Strategol Taclo Tlodi 2024-29 |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| |

Ynys Môn

THE ISLE OF Anglesey

# Cynllun Strategol Taclo Tlodi 2024-2029



CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

www.ynysmon.llyw.cymru

# Rhagair







Cyng. Llinos Medi

Arweinydd y Cyngor ac Aelod Portffolio yr Agenda Tlodi

Dylan J Williams

Prif Weithredwr

Mae’r Cyngor yn wynebu heriau sylweddol; cynnydd yn y galw am wasanaethau, disgwyliadau uwch gan y cyhoedd a chyllid craidd a grant sy’n prinhau. Mae hyn yn golygu bod rhaid i’r Cyngor wneud penderfyniadau anodd iawn. Mae’r rhagolygon ariannol yn llwm ac er bod y cyllid yr ydym ni’n ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru yn annhebygol o gynyddu, mae disgwyl i’r galw a’r costau yr ydym ni’n eu hwynebu barhau i gynyddu.

Mae’n rhaid i’r Cyngor felly barhau i gefnogi pobl i ddod yn fwy gwydn i sicrhau’r canlyniadau y maent yn dymuno’u gweld yn eu bywydau bob dydd, er mwyn lleihau’r galw ar wasanaethau.

Mae cynhyrchu strategaeth i fynd i’r afael â thlodi yn flaenoriaeth sy’n cael ei gyrru gan Gynllun y Cyngor 2023-2028. Mae’r strategaeth hon yn amlinellu blaenoriaethau allweddol y Cyngor dros y pum mlynedd nesaf, a’r camau yr ydym ni’n bwriadu eu cymryd i sicrhau bod y gwasanaethau yr ydym ni’n eu darparu yn dal i fod yn gynaliadwy ac effeithiol er mwyn mynd i’r afael â thlodi.

Rydym yn cydnabod nad oes gan un person neu un sefydliad yr holl bŵer i fynd i’r afael â thlodi. Mae’n bwysicach nawr fwy nag erioed ein bod ni’n cydweithio i gymryd camau pendant i daclo tlodi. Mae gennym gyfrifoldeb ar y cyd i sicrhau nad oes neb yn cael ei amddifadu.

# Beth yw tlodi a beth yw ei effaith?



Nid oes un diffiniad o beth yw tlodi. Gall gwahanol bobl ei ddioddef mewn gwahanol ffyrdd, ac fe all effeithio ar bob agwedd ar eu bywydau. Gall ddibynnu ar amgylchiadau unigol; o beidio â bod â digon o arian i dalu am bethau sylfaenol fel bwyd, dillad, cartref, gwres, i ddiffyg ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael.

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r diffiniad a ganlyn:

***"Mae tlodi'n golygu bod heb ddigon o adnoddau a chyfleoedd i gwrdd ag anghenion sylfaenol, yn cynnwys anghenion yn gysylltiedig â bod yn rhan o gymdeithas"***

Fe all tlodi effeithio ar drigolion mewn nifer o wahanol ffyrdd, yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r isod:

- **Iechyd meddwl gwael** – yn benodol straen, pryder ac iselder o ganlyniad o boeni am arian a sut i dalu am y pethau sylfaenol.
- **Iechyd corfforol gwael** - problemau iechyd yn gysylltiedig â diffyg maeth, byw mewn cartref oer neu damp, methu gwneud ymarfer corff neu gymryd rhan mewn gweithgareddau yn rheolaidd. Iechyd gwael yn gyffredinol a disgwyliad oes is.
- **Cyrhaeddiad addysgol is** – mae plant a phobl ifanc sy'n dioddef tlodi yn debygol o golli tir o'u cymharu â'u cyfoedion. Mae'r bwlch yn lledu po hwyaf y mae'r plentyn neu'r person ifanc yn byw mewn tlodi.

SEFYDLIAD bevan FOUNDATION

# Tlodi ar Ynys Môn

Mae'r Cyngor wedi datblygu Dangosfwrdd Costau Byw, lle mae data allanol a mewnol yn cael ei gasglu, a lle mae dangosyddion perfformiad allweddol yn cael eu cyflwyno. Mae'r dangosfwrdd yn galluogi'r Cyngor i wneud penderfyniadau ynseiliedig ar ddata a gwybodaeth gadarn ac integredig. Mae'r dangosfwrdd yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd yn fyw ar y system ac felly mae'r data'n gywir a diweddar.

<Gweler Atodiad 1 "Demograffeg yr Ynys" am ragor o wybodaeth>

- Oedran canolrifol y boblogaeth yw 48 oed. Mae hyn wedi cynyddu o 45 oed yn 2011, ac mae'n uwch o lawer na'r oedran cyfartalog ar gyfer Cymru, sef 42 oed. Felly, mae'r gyfran o'r boblogaeth sydd ddim o oedran gweithio yn mynd yn fwy.
- Dim ond 76% o boblogaeth oedran gweithio Ynys Môn sy'n economaidd weithredol.
- Enillion wythnosol gros cyfartalog gweithwyr llawn amser: £589 yr wythnos (sy'n is na'r ffigwr cyfartalog ar gyfer Cymru, sef £603 yr wythnos)
- Dosbarthwyd 51,134 kg o fwyd gan Fanc Bwyd Ynys Môn yng Nghaergybi yn 2023, a dosbarthwyd 9,088 kg gan Fanc Bwyd Amlwch. Mae'r ffigwr hwn 4.8% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol.
- Roedd nifer y bobl sy'n hawlio Credyd Cynhwysol yn Ynys Môn fel ar Rhagfyr 2023 yn 6,267 sydd gyfwerth â 9% o'r boblogaeth. Ymysg yr hawlwyr, nid oedd 62% (3,910) mewn cyflogaeth, tra roedd 38% (2,359) yn cael eu cyflogi.
- Cyrhaeddodd nifer yr aelwydydd a oedd yn cyflwyno eu hunain yn ddigartref yn 2022-23 ffigwr o 876 gan adlewyrchu cynnydd sylweddol o 30% o'i gymharu â'r ffigwr o 672 yn 2021-22.

**INFOGRAPHIC YN YR FERSIWN TERFYNOL**

# Cynllun y Cyngor 2023-2028

Mae Cynllun y Cyngor yn ddogfen allweddol a fydd yn bwynt canolog i benderfyniadau a fydd yn cael eu gwneud ar bob lefel; bydd yn darparu fframwaith i gynllunio a gyrru blaenoriaethau yn eu blaen; llunio gwariant blynyddol; monitro perfformiad a chynnydd.

Yn ei hanfod mae a wnelo'r cynllun â'n dymuniad i weithio gyda thrigolion Ynys Môn, cymunedau a phartneriaid a sicrhau ein bod ni'n darparu'r gwasanaethau gorau posib, gwella ansawdd bywyd i bawb a chreu cyfleoedd ar gyfer y genhedlaeth nesaf.

Mae ei chwe phrif amcan yn adlewyrchu'r meysydd allweddol y dylai'r Cyngor fod yn canolbwyntio arnynt.

**Gweledigaeth Cynllun y Cyngor yw:**

Tudalen 78

'Creu Ynys Môn fydd yn iach a llewyrchus lle gall bobl ffynnu.'

## Ein chwe amcan strategol

**Yr Iaith Gymraeg**

Cynyddu cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith.

**Gofal Cymdeithasol a Llesiant**

Rhoi'r cymorth cywir ar yr adeg cywir.

**Addysg**

Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol.

**Tai**

Sicrhau fod gan pawb yr hawl i alw rhywle yn gartref.

**Economi**

Hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu economi'r Ynys.

**Newid Hinsawdd**

Ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael a newid gweithio tuag at fod yn sefydliad sero net erbyn 2030.

[Cynllun y Cyngor 2023-2028]

# Y Gwerthoedd yng Nghynllun y Cyngor 2023–2028

Mae Cynllun y Cyngor 2023-28 yn seiliedig ar werthoedd craidd y sefydliad, sy'n cael eu defnyddio i ddatblygu ac arwain y weledigaeth, cynlluniau strategol a gwasanaethau.



Cynllun y Cyngor 2023-2028

## Gwerthoedd

### Parch
Rydym yn barchus ac yn ystyriol tuag at eraill er gwaethaf ein gwahaniaethau.

### Cydweithio
Rydym yn gweithio fel tîm, gyda'n cymunedau a'n partneriaid, i gyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer pobl Ynys Môn.


### Gonestrwydd
Rydym yn ymrwymedig i safonau uchel o ran ymddygiad ac uniondeb.

### Hyrwyddo'r Cyngor a'r Ynys
Rydym yn creu ymdeimlad o falchder mewn gweithio i'r Cyngor ac yn cyflwyno delwedd gadarnhaol o'r Ynys.

# Y Cylch Strategol

Cyflawni'r weledigaeth sydd, ynghyd â'n hegwyddorion cyffredinol a meysydd blaenoriaeth allweddol, yn gosod mandad clir ac uchelgeisiol.

Rydym am sicrhau bod technoleg digidol yn rhan annatod o waith y Cyngor ac yn gwella profiad ein cwsmeriaid fel dull o gael mynediad at wasanaethau.



# Amcanion Llesiant

Mae'r cynllun strategol yn nodi'r cyfeiriad uchelgeisiol yr ydym ni'n dymuno'i gymryd sy'n seiliedig ar yr hyn yr ydym ni wedi'i wneud yn barod gan gydnabod bod gan bawb rôl i'w chwarae fel rhan o'r agenda ataliol hon.

Mae'n bwysig nodi bod y cynllun strategol hwn yn cyd-fynd â'n hamcanion llesiant, sydd wedi'u nodi yng Nghynllun y Cyngor 2023-2028 :

- Bod pobl Ynys Môn yn cael eu haddysgu i gyrraedd a chyflawni eu potensial yn y tymor hir
- Bod pobl Ynys Môn yn ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib.
- Bod pobl Ynys Môn a'i chymunedau yn mwynhau, yn gwarchod ac yn gwella eu hamgylchedd adeiledig a naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r cynllun strategol hefyd yn cydnabod y deddfwriaethau a ganlyn:

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn (2023-28)

# Blaenoriaethau allweddol



1. Sicrhau mynediad at gymorth ar reoli gwariant a dyledion
2. Sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cyflawni hyd orau eu gallu
3. Cydweithio i wneud yn siŵr bod cyfleoedd cyflogaeth ar gael yn lleol fel y gall bobl gymryd mantais ohonynt
4. Gwneud yn siŵr bod y boblogaeth yn iach, diogel ac annibynnol
5. Cefnogi ein cymunedau i fod yn oed gyfeillgar
6. Gweithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau darpariaeth cartrefi o safon sy'n fforddiadwy ac yn hygyrch.

# Sicrhau mynediad at gymorth ar reoli gwariant a dyledion

## Pam bod hyn yn bwysig?

•Mae cyllid y Cyngor yn prinhau, ond mae nifer y bobl sydd angen cymorth yn cynyddu.

•Fe ddylai trigolion Ynys Môn allu cael mynediad at adnoddau digonol i ymorol am eu hanghenion sylfaenol, megis bwyd, llety, gwres a golau.



## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Codi ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael ledled Ynys Môn, yn cynnwys sgiliau rheoli arian a chynilo, i sicrhau bod trigolion yn gwybod pa gymorth sydd ar gael.

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

• Hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'r digwyddiadau costau byw a gynhelir gan y Cyngor, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allanol.
• Sicrhau bod trigolion yn ymwybodol eu bod yn gallu hawlio budd-daliadau; drwy wasanaeth "Help i Hawlio"  a "Hawliwch yr Hyn sy'n Ddyledus i Chi" y Ganolfan Gynghori, y Tîm Cynhwysiant Ariannol a'r Uned Hawliau Lles.
• Hyrwyddo sgiliau coginio a sut i dyfu bwyd mewn partneriaeth â rhanddeiliaid, er mwyn i'n trigolion wneud dewisiadau doethach, iachach a gwneud y defnydd mwy effeithlon o'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael iddynt.
• Codi ymwybyddiaeth o'r risg o fynd i ddyled er mwyn prynu pethau sylfaenol fel bwyd, a mynd i'r afael â'r stigma'n gysylltiedig â gofyn am help i gael bwyd, i osgoi'r angen am gymorth pellach yn nes ymlaen.
• Coladu a mapio data i ddarparu gwybodaeth ystyrlon er mwyn deall lle mae'r angen mwyaf, a thargedu'r ardaloedd hynny.

# Sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cyflawni hyd orau eu gallu

## Pam bod hyn yn bwysig?

- “Mae’n cymryd cymuned i fagu plentyn”.
- Mae astudiaethau’n dangos bod Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs) yn gallu effeithio ar bobl am weddill eu hoes.

Tudalen 84

## Beth fyddwn ni’n ei wneud?

- Datblygu model cyflawni a chynllun gweithredu ar gyfer y rhaglen “Ynys sy’n Wybodus o Drawma”.
- Creu amgylchedd dysgu sydd mor ddiogel â phosib fel y gall pobl ddysgu’n effeithiol.
- Cefnogi llesiant teuluoedd a gwneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn ymwybodol o’u hawliau.
- Gwneud yn siŵr bod pob plentyn, pobl ifanc a theuluoedd yn cael eu trin ag urddas a pharch.
- Defnyddio’r Grŵp Gweithredol Ymyrraeth Cynnar ac Atal i gysylltu â phartneriaid perthnasol, yn enwedig y 3ydd sector, drwy wneud yn siŵr bod materion perthnasol ar agenda pawb.

## Sut fyddwn ni’n gwneud hyn?

- Codi ymwybyddiaeth o’r cymorth sydd ar gael i blant a theuluoedd, megis y Tîm o Amgylch y Teulu a’r rhaglen Dechrau’n Deg, i wneud yn siŵr bod plant yn cyflawni hyd orau eu gallu mor gynnar â phosib, er mwyn lleihau’r cymorth sydd ei angen arnynt yn nes ymlaen.
- Cynnig yr hyfforddiant ystyriol o drawma ar gyfer gweithwyr proffesiynol i bartneriaid allweddol a chymunedau er mwyn sicrhau cysondeb o ran y dull a’r iaith y ydym ni’n ei defnyddio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd.
- Darparu gwasanaethau a chymorth i ofalwyr ifanc, fel y gallant gymryd mantais o brofiadau cadarnhaol yn ogystal â datblygu rhwydwaith leol o ofalwyr i’w helpu i gymdeithasu yn ystod digwyddiadau cymunedol.
- Cefnogi’r strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu’r Gymraeg.
- Cynyddu cyfleoedd i ddysgu a defnyddio’r Gymraeg.
- Er mwyn i anghenion plant ag anabledd gael eu diwallu.
- Moderneiddio ein hysgolion a datblygu ein darpariaeth er mwyn hyrwyddo cyfleodd dysgu cadarnhaol mewn amgylchedd cynorthwyol, cadarnhaol a goddefgar, yn cynnwys darparu seilwaith digidol ac adnoddau o’r radd flaenaf i hwyluso addysg effeithlon.
- Darparu gwasanaethau i’n cymunedau drwy Ysgolion sy’n Canolbwyntio ar y Gymuned
- Darparu clybiau brecwast ar hyd a lled y sir er mwyn cynnig brecwast maethlon i bawb sydd ei angen.
- Cynnig pob math o gymorth i ddisgyblion sy’n cael trafferth ymdopi yn yr ysgol uwchradd yn cynnwys gwasanaeth cwnsela a chlybiau amser cinio ac ar ôl ysgol mewn amgylchedd cefnogol, cadarnhaol a diogel.

# Cydweithio i wneud yn siŵr bod cyfleoedd cyflogaeth ar gael yn lleol fel y gall bobl gymryd mantais ohonynt

## Pam bod hyn yn bwysig?

- Mae hanner poblogaeth Ynys Môn o oedran gweithio ac rydym yn cydnabod bod angen gwella cyfleoedd gwaith ar yr ynys. Mae trigolion yn awyddus i weld mwy o gyfleoedd cyfrifiadureg a thechnoleg, ynni, cynhyrchu, twristiaeth a'r sectorau iechyd.



## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Hyrwyddo cyfleodd i ddatblygu economi'r ynys. Cefnogi busnesau, denu buddsoddiadau newydd, cynyddu nifer y busnesau newydd a sicrhau bod yr ynys yn parhau i fod â'r cyfraddau cau isaf ledled Cymru.

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Cydweithio â rhanddeiliaid allweddol a phartneriaid i atgyfnerthu rôl Caergybi a'r porthladd fel 'porth' rhyngwladol allweddol.
- Datblygu a chyflawni er mwyn creu swyddi, sicrhau ffyniant a chefnogi cymunedau bywiog a gwydn.
- Ysgogi pobl ifanc 16–24 oed ar Ynys Môn i ddatblygu eu sgiliau a magu hyder er mwyn eu cefnogi i oresgyn y rhwystrau y maent yn eu hwynebu fel y gallant ddod yn aelodau llawn o gymdeithas.
- Mentora, uwch-sgilio a chynnig cyngor a chyfarwyddyd drwy wasanaethau mewnol y cyngor ac ar y cyd â sefydliadau 3ydd sector sy'n arbenigo mewn darparu'r math yma o gymorth.
- Darparu cymorth i drigolion sy'n dymuno dechrau eu busnes eu hun a dod yn hunangyflogedig.
- Parhau i weithio mewn partneriaeth drwy Fwrdd Uchelgais Gogledd Cymru i greu cyfleodd newydd yn lleol a rhanbarthol.

# Gwneud yn siŵr bod y boblogaeth yn iach, diogel ac annibynnol

## Pam bod hyn yn bwysig?

- Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn mynnu bod y Cyngor yn mynd ati'n rhagweithiol i gynyddu cyfleodd i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden, yn ogystal â gwella iechyd meddwl a chorfforol trigolion.
- Er mwyn annog a chefnogi pobl i ddod yn fwy annibynnol fel y gallant gefnogi eu hunain, yn hytrach na dibynnu ar wasanaethau cymorth statudol ac eraill.

Tudalen 86

## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Cynnal, gwella a darparu cyfleusterau hyblyg, hygyrch a fforddiadwy i gwrdd ag anghenion Ynys Môn nawr ac yn y dyfodol.

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Cefnogi Cynllun Strategol Môn Actif y Cyngor drwy gynnal a gwella cyfleusterau hamdden, sy'n gwneud cyfraniad uniongyrchol a sylweddol tuag at les y gymuned.
- Darparu'r cyfleusterau a gweithgareddau o'r radd flaenaf i bobl o bob oed a gallu fel y gallant fyw bywydau iach.
- Sicrhau bod cysylltiadau trafnidiaeth cyhoeddus a llesol ar gael ledled Ynys Môn, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, fel y gall trigolion deithio'n annibynnol i ddefnyddio gwasanaethau cymorth, neu at ddibenion cymdeithasol, cyflogaeth ac addysgol.
- Hyrwyddo a sicrhau amgylchedd byw a gwaith diogel, teg ac iach i drigolion a busnesau'r Ynys.
- Parhau i gefnogi plant a phobl ifanc i fyw gartref yn ddiogel, drwy gynnig cymorth dwys drwy ddarparu pob math o ymyraethau, yn hytrach na dod â phlant i ofal e.e. cefnogi gofalwyr ifanc, lles emosiynol, camdriniaeth domestig ayb.

# Cefnogi ein cymunedau i fod yn oed gyfeillgar

## Pam bod hyn yn bwysig?

- Mae'n bwysig deall y problemau y mae pobl hŷn yn eu hwynebu, y cymorth sydd ei angen arnynt i'w galluogi i fyw bywyd llawn, a datblygu'r sgiliau sydd eu hangen i heneiddio'n dda.
- Rhaid teilwra'r gefnogaeth i bobl hŷn o ran mynd i'r fael â thlodi, e.e. mae cynhwysiant digidol yn bwysig, ond ni fydd y grŵp oedran yma'n elwa cymaint ag eraill.



## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Cael gwell dealltwriaeth o'r problemau y mae pobl hŷn yn eu hwynebu.
- Sicrhau bod hybiau cymunedol yn hygyrch ar gyfer y grŵp oedran yma, a sicrhau annibyniaeth, lleihau unigrwydd a gwella iechyd a lles pobl.

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Cefnogi Strategaeth Heneiddio'n Dda Ynys Môn.
- Creu cyfleodd i bobl hŷn ddefnyddio adnoddau cymdeithasol, amgylcheddol ac ariannol i'w galluogi i heneiddio'n dda, er enghraifft hybiau cymunedol/meddygfeydd a thrafnidiaeth gymunedol; a chynyddu eu gallu a'u hyder i ofyn am gymorth.
- Gwneud yn siŵr bod y cenedlaethau nesaf o bobl hŷn wedi paratoi ar gyfer y dyfodol drwy eu hannog i gydnabod y newidiadau ac anghenion y bydd rhaid iddynt, o bosib, eu hwynebu a chynnig hyfforddiant.
- Cynyddu cyfleoedd mewn cymunedau i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n pontio'r cenedlaethau; er mwyn i bobl anabl a phobol hŷn rannu gwybodaeth a dysgu, creu rhwydweithiau cymorth a mynd i'r afael ag unigrwydd drwy gynyddu'r cyfleoedd yn lleol i ddod â'r gwahanol genedlaethau at ei gilydd.

# Gweithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau darpariaeth cartrefi o safon sy'n fforddiadwy ac yn hygyrch.

## Pam bod hyn yn bwysig?

- "Er mwyn sicrhau bod gan bobl Ynys Môn rywle i'w alw'n gartref".



## Beth fyddwn ni'n ei wneud?


- Ymrwymo o hyd i weithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid, megis cymdeithasau tai cofrestredig, i ymateb i'r her tai yn lleol, a chydweithio i nodi anghenion tai'r ynys fel y gallwn gyfarch yr angen yn unol â'r tenantiaethau sydd eu hangen.

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Ychwanegu at ein stoc dai a gwella'r stoc dai bresennol i sicrhau eu bod yn addas i'r diben.
- Cynnig mwy o gartrefi gofal ychwanegol fel y gall pobl barhau i fyw'n annibynnol mewn cymunedau diogel a chroesawgar, gyda gwasanaethau gofal a chymorth ar y safle.
- Cynllunio a rheoli adnoddau yn effeithiol ar gyfer y dyfodol, h.y. y Strategaeth Tai Gwag, a'r grantiau sydd ar gael, er mwyn defnyddio stoc dai'r ynys yn y ffordd fwyaf effeithlon.
- Trwy ddarparu cartrefi i bobl ag anabledd dysgu neu gorfforol
- Sicrhau bod ein darpariaeth atal digartrefedd yn parhau i gael ei defnyddio yn gyflym er mwyn diogelu ein dinasyddion bregus.
- Defnyddio premiwm y Dreth Gyngor i ddarparu cymorth ariannol i brynwyr tro cyntaf nad ydynt yn gallu fforddio prynu cartref ar y farchnad agored.

# Llywodraethiant ac atebolrwydd

Mae trefniadau cadarn wedi cael eu sefydlu i sicrhau bod y Cynllun Strategol hwn yn cael ei wireddu. Mae'r strwythur yn sicrhau eglurder, atebolrwydd a chydlyniant er mwyn monitro cynnydd yn effeithiol. Mae'r dangosfwrdd costau byw yn darparu gwybodaeth a data byw a chywir o bob rhan o'r Cyngor er mwyn hwyluso'r gwaith hwn.




Mae'r Grŵp Llywio yn atebol i'r Bwrdd Rhaglen Datblygiadau Cyfredol.
Mae'r Bwrdd yn gwneud penderfyniadau gweithredol i oresgyn anawsterau ac i weithredu a chydymffurfio mewn da bryd.

Mae'r Grŵp yn gwneud penderfyniadau strategol ar waith o fewn y maes.

Mae'r Grŵp yn cwblhau ffrydiau gwaith ar gyfer y gwaith cysylltiedig mewn ffordd gydlynol.

# Atodiad 1: Demograffeg yr ynys
## (Cyfrifiad 2021)

Tudalen 90

68,900
2021

35,200
Menywod


33,700
Gwrywod

**26.5%**
65 oed a hŷn

**20.1%**
rhwng 0 a 17 oed

Oedran canolrifol
45
2011

Oedran canolrifol
48
2021




Ffynhonell – ONS.gov.uk

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | PWYLLGOR GWAITH |
| **Dyddiad:** | 19 Mawrth 2024 |
| **Pwnc:** | Cynllun Strategol Rheoli Asedau 2024 – 2029 |
| **Aelod Portffolio:** | Dafydd Rhys Thomas – Aelod Portffolio – Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | Huw Percy<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Ffôn:<br>E-bost: | Meilir Hughes, Prif Swyddog Eiddo ac Asedau<br><br>meilirhughes@ynysmon.llyw.cymru |
| **Aelodau Lleol:** | Amherthnasol |

**A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau**

**Argymhelliad: Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith argymell y Cynllun Strategol Rheoli Asedau 2024-2029 i'w gymeradwyo'n ffurfiol gan y Cyngor llawn.**

Mae gwell rheolaeth asedau yn darparu gwell asedau, yn y lleoliad cywir, ac yn gyrru effeithlonrwydd ac yn lleihau gwastraff. Maes o law, gall yr asedau ddarparu'r gefnogaeth orau bosib i gymunedau lleol, a gwella'r ffordd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu i gynnwys eu gwneud yn fwy hygyrch.

Mae'r Cynllun Strategol Rheoli Asedau 2024-2029 yn adeiladu ar y rhaglenni gwaith y blynyddoedd diwethaf sydd wedi llywio blaenoriaethau buddsodd a penderfyniadau rheolaeth portffolio.
Mae'n gosod y cyfeiriad ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

Pwrpas y Cynllun Strategol Rheoli Asedau yw sicrhau bod gan y Cyngor bortffolio asedau ariannol ac amgylcheddol gynaliadwy, wedi'i resymoli i fod yn addas i bwrpas ac yn ddiogel er mwyn darparu gwasanaethau.

Er mwyn cyflawni'r Pwrpas yma, byddwn yn cyfarch y Meysydd Blaenoriaeth Allweddol canlynol;

1. Addasrwydd – portffolio llai, gwell cyflwr, diogel a hygyrch
    - Portffolio wedi'i resymoli
    - Yr eiddo cywir yn y lleoliadau cywir
    - Eiddo sy'n hygyrch ac yn ddiogel i bawb
    - Eiddo mewn cyflwr da (gan gydnabod cyfyngiadau cyllidebol)
2. Cynaliadwyedd – lleihau ôl-troed carbon, gwella effeithiolrwydd ariannol
    - Lleihau ein ôl-troed carbon
    - Cynaliadwy'n ariannol
3. Cydweithio - meddylfryd rhesymegol i gyflawni amcanion economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol
    - Cynllunio a rheoli eiddo fel adnodd corfforaethol er mwyn gwireddu gweledigaeth y Cyngor a chyflawni amcanion strategol.
4. Gyrru gan ddata – cynllunio rhagweithiol, eglurder a thryloywder

- Cynllunio rhagweithiol gan ddefnyddio data
- Eglurder a thryloywder

Mae cyswllt rhwng y Cynllun Strategol Rheoli Asedau a nifer o gynlluniau a strategaethau eraill, gan gynnwys: -

- Cynllun y Cyngor
- Y Strategaeth Gyfalaf
- Y Strategaeth Lleihau Carbon Sero Net;
- Y Strategaeth Gwella Hamdden;
- Y Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Ni ystyriwyd unrhyw opsiynau eraill gan fod swyddogion o'r farn fod llunio a mabwysiadu Cynllun Strategol Rheoli Asedau yn hanfodol er mwyn gwireddu Cynllun y Cyngor. Mae CIPFA a RICS hefyd yn ystyried bod Cynllun Strategol Rheoli Asedau yn ddogfen allweddol.

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith ystyried y Cynllun Strategol Rheoli Asedau a'i argymell i'r Cyngor llawn ei gymeradwyo.

| CH – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? | | |
|---|---|---|
| Gofynnir i’r Cyngor llawn gymeradwyo’r Cynllun Strategol maes o law. | | |
| **D – A yw’r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** | | |
| Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol ar y gyllideb ar hyn o bryd. Efallai y gofynnir am benderfyniadau pellach maes o law. | | |
| **Dd – Asesu’r effaith bosib (os yw’n berthnasol):** | | |
| **1** | Sut mae’r penderfyniad hwn yn cael effaith ar anghenion hir dymor yr Ynys? | Mae’r Cynllun Strategol hwn yn nodi’r cyfeiriad strategol a’r egwyddorion fydd yn llywio ein penderfyniadau a phrosesau yn ymwneud â Rheoli Asedau ar gyfer y cyfnod hyd at 2029, ynghyd â phenderfyniadau i gyflawni’r amcanion tymor hir a nodir yng Nghynllun y Cyngor. |
| **2** | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut? | Mae’r Cynllun Strategol yn nodi cyfeiriad strategol ac egwyddorion i wella cynaliadwyedd ariannol portffolio eiddo’r Cyngor. |
| **3** | A ydym wedi bod yn gweithio ar y cyd â sefydliadau eraill i wneud y penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod i bwy. | Mae’r Cynllun Strategol yn nodi cyfeiriad strategol ac egwyddorion i adeiladu ar a gwella’r cydweithio presennol rhwng Gwasanaethau’r Cyngor a gyda phartneriaid allanol.<br><br>Yn y dyfodol, rhagwelir y bydd y Cyngor yn cydweithio ar brosiectau ac adeiladau penodol gyda nifer o randdeiliaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, cyrff cyhoeddus eraill a chymunedau. |
| **4** | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio’r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai y mae’r penderfyniad yn effeithio’n uniongyrchol arnynt? Eglurwch sut. | Na, dogfen strategol yw hon ac nid yw’n cyfeirio at eiddo a chymunedau unigol.<br><br>Yn y dyfodol, rhagwelir y bydd y Cyngor yn ymwneud yn uniongyrchol â chymunedau mewn perthynas â phrosiectau ac adeiladau penodol. |
| **5** | Nodwch unrhyw effaith y gallai’r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Mae’r Cynllun Strategol yn nodi cyfeiriad strategol ac egwyddorion fydd yn gwella hygyrchedd a diogelwch adeiladau i bawb.<br><br>Yn y dyfodol bydd Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael eu cwblhau wrth ystyried prosiectau ac adeiladau penodol. |
| **6** | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai’r penderfyniad ei gael ar y rhai sy’n profi | Mae’r Cynllun Strategol yn nodi cyfeiriad strategol ac egwyddorion i adeiladu ar a gwella’r cydweithio presennol rhwng |

| | | |
|---|---|---|
| | anfantais economaidd-gymdeithasol. | Gwasanaethau'r Cyngor a gyda phartneriaid allanol i ddarparu gwasanaethau'n effeithlon.<br><br>Yn y dyfodol, bydd Asesiadau Effaith yn cael eu cwblhau wrth ystyried prosiectau ac adeiladau penodol. |
| **7** | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Mae'r Cynllun Strategol yn nodi cyfeiriad strategol ac egwyddorion i wella cynaliadwyedd ariannol portffolio eiddo'r Cyngor.<br>Bydd gwella cynaliadwyedd yn helpu i gynnal cymunedau lleol yn y tymor hir, a bydd hynny'n cael effaith fuddiol ar y Gymraeg. |
| **E -** | **Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| **1** | **Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA)** (gorfodol) | Ymgorfforwyd sylwadau'r TA yn yr adroddiad. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | Ymgorfforwyd sylwadau'r Swyddog Adran 151 yn yr adroddiad. |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol) | Mae'r Swyddog Monitro'n Aelod o'r TA ac mae unrhyw sylwadau wedi cael eu hystyried pan drafodwyd yr adroddiad hwn yn y TA. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Dim effaith uniongyrchol ar staff. |
| **5** | **Eiddo** | Amherthnasol. Yr Adran Eiddo sydd wedi llunio'r Strategaeth. |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu** | Amherthnasol |
| **7** | **Sgriwtini** | I'w gadarnhau |
| **8** | **Aelodau Lleol** | Mae'r cynigion yn berthnasol i bob Aelod. |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall** | Amherthnasol |
| **F – Atodiadau:** | | |
| Atodiad 1 – Cynllun Strategol Rheoli Asedau 2024 – 2029 | | |
| **FF – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth ychwanegol):** | | |
| Cynllun y Cyngor 2023 – 2028 | | |

Ynys Môn
THE ISLE OF Anglesey



Tudalen 95

# Cynllun Strategol Rheoli Asedau

# 2024 – 2029

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn y Gymraeg / This document is also available in Welsh.

Dyma Gynllun Strategol Rheoli Asedau Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer 2024 hyd at 2029. Mae ar gael ar ein gwefan:

www.ynysmon.llyw.cymru

Os ydych angen y ddogfen hon mewn fformat a/neu iaith arall, neu mae gennych gwestiynau am ei chynnwys, cysylltwch â:

Cyngor Sir Ynys Môn

Swyddfeydd y Cyngor

Llangefni

LL77 7TW

Ffôn:

E-bost:

Rydym yn croesawu galwadau a gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd oedi mewn ymateb wrth ddefnyddio'r Gymraeg.



This is the Isle of Anglesey County Council's Asset Management Strategic Plan for 2024 to 2029. It is available on our website:

www.anglesey.gov.wales

If you require this publication in another format and/or language, or have any questions about its contents, please contact:

Isle of Anglesey County Council
Council Offices
Llangefni
LL77 7TW

Tel:
Email:

We welcome calls and correspondence in Welsh and English. Using Welsh will not lead to a delay in responding.

# Rhagair



Cynghorydd Llinos Medi
Arweinydd y Cyngor



Dylan Williams
Prif Weithredwr



Mae'r Cyngor yn wynebu heriau rheolaeth asedau sylweddol ar hyn o bryd;

- mae ein asedau'n heneiddio
- mae eu cyflwr yn dirywio
- baich cydymffurfiaeth deddfwriaethol yn dwysau
- ymrwymiad i ddod yn gyngor net sero
- cynydd disgwyliadau ymhlith y cyhoedd
- diffyg cyllid cyfalaf

ac mae'r rhain i gyd yn golygu bod y dewisiadau sydd ar gael i'r Cyngor, a'r penderfyniadau y mae'n rhaid eu gwneud, yn heriol iawn.

Mae'r buddsoddiad cyfalaf angenrheidiol i foderneiddio a diweddaru asedau presennol ac i gyflawni ei amcanion strategol dros y 5 mlynedd nesaf yn fwy na £300m. Er bod y Cyngor yn ymfalchïo yn ei asedau, mae'r bwlch rhwng uchelgais a'r gallu i ddarparu (oherwydd cynnydd mewn costau a phwysau ar gyllideb) yn tyfu.

Mae buddsoddi yn asedau eiddo'r Cyngor yn hanfodol o safbwynt cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a chymunedol. Yn yr hinsawdd ariannol bresennol, mae'n bwysig fod penderfyniadau'n seiliedig ar dystiolaeth, yn mynd i'r afael â'r risgiau tymor byr a hir mae'r Cyngor yn eu hwynebu ac yn fforddiadwy. Mae hyn yn heriol iawn.

Mae'r Cynllun Strategol Rheoli Asedau'n cael ei yrru gan Gynllun Cyngor 2023-2028 a'r Cynllun Strategol Cyfalaf 2024-2029. Gyda'i gilydd, bydd y cynlluniau'n sicrhau bod penderfyniadau ynghylch rheoli asedau'n cael eu hystyried mewn ffordd gynlluniedig sy'n galluogi'r Cyngor i gyflawni ei amcanion strategol allweddol yn ogystal â sicrhau hyfywedd tymor hir y Cyngor.

# Diben y Cynllun Strategol Rheoli Asedau

Gweledigaeth y Cyngor ar gyfer 2023-2028 yw creu Ynys Môn sy'n iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu.

Pwrpas y Cynllun Strategol Rheoli Asedau yw sicrhau bod gan y Cyngor bortffolio asedau amgylcheddol ac ariannol gynaliadwy, sy'n addas at bwrpas ac yn ddiogel er mwyn darparu gwasanaethau.

Mae cyflwr, diogelwch, hygyrchedd addas a chynaliadwyedd Asedau Gweithredol (ysgolion, canolfannau hamdden, cartrefi gofal, toiledau cyhoeddus ac ati) yn cael effaith uniongyrchol ar ddarpariaeth gwasanaethau rheng-flaen i gymunedau'r Ynys.

Mae'r ffordd y rheolir Asedau Buddsoddi (neu Anweithredol) (Ystadau Diwydiannol, Mân-ddaliadau ac eiddo gosod arall) yn cael effaith ar yr incwm a gynhyrchir a'r costau a wynebir, sydd yn eu tro, yn cael effaith uniongyrchol ar sefyllfa ariannol y Cyngor.

Oherwydd hyn, mae'n bwysig fod yr asedau'n hyn yn cael eu rheoli mewn ffordd ragweithiol ac effeithlon.

Bydd y ddogfen strategol lefel-uchel hon yn weithredol am bum mlynedd a bydd yn darparu'r fframwaith ar gyfer sicrhau bod ymagwedd strategol, corfforaethol a chyd-gysylltiedig i waith rheoli asedau, yn unol â Chynllun y Cyngor.

Rhaid nodi, er bod diben y Cynllun Strategol hwn a'r egwyddorion ynghlwm ag o yn aeddfed, mae'r wybodaeth sydd gennym ynghylch a'n portffolio yn anghyflawn. Felly, mae casglu a phrosesu gwybodaeth yn ffrwd gwaith allweddol sydd eisoes ar y gweill.

# Asedau'r Cyngor

Mae gan y Cyngor bortffolio o asedau amrywiol.

Mae'r asedau hyn yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau; fodd bynnag, mae angen refeniw a chyllid cyfalaf sylweddol i'w rhedeg a'u cynnal a chadw.

Mae'r gwaith o reoli'r asedau hyn yn cael ei bennu gan rwymedigaethau deddfwriaethol a strategol.



| Math o Ased | Nifer | Math o Ased | Nifer | Math o Ased | Nifer |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgolion Cynradd | 39 | Clybiau Ieuenctid | 1 | Cerbydau * | 200 |
| Ysgolion Uwchradd | 5 | Unedau Diwydiannol | 68 | Tai Cymdeithasol* | 3,953 |
| Canolfan Addysg y Bont | 1 | Safleoedd Manwerthu | 20 | Priffyrdd* | 1,188 km |
| Swyddfeydd | 2 | Canolfannau Cymunedol | 8 | Llwybrau Troed* | 661 km |
| Amgueddfeydd ac Archifau | 2 | Sefydliadau Addysgol Eraill | 3 | Llwybrau Beicio* | 211 km |
| Llyfrgelloedd | 7 | Eiddo Amrywiol | 8 | Strwythurau* | 539 |
| Cartrefi Gofal Preswyl | 5 | Safleoedd Morwrol | 7 | Goleuadau* | 20,014 lights |
| Cartrefi Gofal Plant (Cartrefi Clyd) | 3 | Angorau | 468 | Systemau Draenio* | 28,064 |
| Canolfannau Gofal Dydd | 4 | Parciau a Safleoedd Agored | 47 | Arwyddion heb Oleuadau* | 7,629 |
| Canolfannau Hamdden | 4 | | | Asedau Eraill ar y Brifordd* | 9,239 |
| Cyfleustodau Cyhoeddus | 22 | | | | |
| Mân-ddaliadau (5,845 acer) | 75 | | | | |

* Tu hwnt i gwmpas y Cynllun Strategol Rheoli Asedau

# Cynllun y Cyngor 2023-2028 Amcanion Strategol

Cynllun y Cyngor yw'r brif ddogfen sy'n ganolbwynt i'r penderfyniadau a wneir ar bob lefel; darparu fframwaith i gynllunio a gyrru blaenoriaethau yn eu blaen; siapio gwariant blynyddol; monitor perfformiad a chynnydd.
Wrth wraidd y cynllun mae ein dyhead i weithio gyda phreswylwyr, cymunedau a phartneriaid ar Ynys Môn i sicrhau'r gwasanaethau gorau posibl, gwella ansawdd bywyd ar gyfer pawb a chreu cyfleoedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae ei chwe phrif amcan yn adlewyrchu'r prif feysydd y dylai'r Cyngor ganolbwyntio arnynt.

**Gweledigaeth Cynllun y Cyngor yw:**



'Creu Ynys Môn sy'n iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu.'

### Yr iaith Gymraeg

Cynyddu cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith.

### Gofal cymdeithasol a Lles

Darparu'r gefnogaeth gywir ar yr amser iawn.

### Addysg

Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

### Tai

Sicrhau bod gan bawb yr hawl i alw rhywle'n gartref.

### Economi

Hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu economi'r Ynys.

### Newid Hinsawdd

Ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael â newid a gweithio tuag at ddod yn sefydliad sero net erbyn 2030.

[Cynllun y Cyngor 2023 - 2028 (llyw.cymru)]

# Cynllun y Cyngor 2023-2028 -Gwerthoedd

Mae gwerthoedd craidd y sefydliad yn sylfaen i Gynllun y Cyngor 2023-28, ac maent yn cael eu defnyddio i ddatblygu ac arwain gweledigaeth, cynlluniau strategol a gwasanaethau.



## Parch

Rydym yn barchus ac yn ystyriol tuag at eraill waeth beth yw ein gwahaniaethau.

## Cydweithio

Rydym yn gweithio fel tîm, gyda'n cymunedau a'n partneriaid i gyflawni'r canlyniadau gorau i bobl Ynys Môn.

## Gonestrwydd

Rydym yn ymrwymedig i safonnau uchel o ran ymddygiad ac uniondeb.

## Hyrwyddo'r Cyngor a'r Ynys

Rydym yn creu ymdeimlad o falchder wrth weithio i'r Cyngor ac yn cyflwyno delwedd gadarnhaol i'r Cyngor a'r Ynys.


[Cynllun y Cyngor 2023 - 2028 (llyw.cymru)]

# Cylch strategol

Mae'r cylch strategol yn nodi'r cynlluniau sydd ar waith i sicrhau ein bod yn gallu cyflawni ein blaenoriaethau a'n hamcanion.

Mae'r cynllun hwn yn gynllun strategol allweddol sy'n cyd-fynd â Chynllun y Cyngor ac yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion a'r weledigaeth strategol.






[Council Plan 2023 to 2028 (gov.wales)]

# Meysydd Blaenoriaeth Allweddol

Sicrhau bod gan y Cyngor bortffolio o asedau sy'n gynaliadwy'n amgylcheddol ac ariannol, sy'n addas at ei ddiben ac yn ddiogel er mwyn gallu darparu gwasanaethau.

1. Addasrwydd
    - Portffolio wedi'i resymoli
    - Eiddo cywir yn y lleoliadau cywir
    - Eiddo sy'n hygyrch ac yn ddiogel i bawb
    - Eiddo mewn cyflwr da (gan gydnabod cyfyngiadau cyllidebol)

2. Cynaliadwyedd
    - Lleihau ein ôl-troed carbon
    - Cynaliadwy'n ariannol

3. Cydweithio
    - Cynllunio a rheoli eiddo fel adnodd corfforaethol er mwyn gwireddu gweledigaeth y Cyngor a chyflawni amcanion strategol.

4. Gyrru gan ddata
    - Cynllunio'n weithredol gan ddefnyddio data
    - Eglurder a thryloywder

# Addasrwydd – portffolio llai sydd mewn gwell cyflwr, yn fwy diogel a hygyrch



## Pam bod hyn yn bwysig?

Mae gennym bortffolio hanesyddol sylweddol sydd ddim wedi datblygu ar yr un gyfradd â'n cymunedau a'u hanghenion. Mae'n rhaid i ni sicrhau bod ein portffolio eiddo yn cyd-fynd ag anghenion ein cymunedau.

Mae ein hôl-groniad gwaith cynnal a chadw yn cynyddu, ac mae cyflwr ein hadeiladau yn amrywio.

Drwy leihau main ein portffolio, gallwn ganolbwyntio ein cyllidebau a gwella cyflwr ein heiddo. Golyga hyn y bydd gennym lai* o eiddo, ond byddant mewn gwell cyflwr.

Drwy ddarparu eiddo sy'n addas i bwrpas, yn y lleoliadau cywir, gallwn fodloni anghenion presennol ein defnyddwyr a'n Gwasanaethau presennol, a chynllunio yn fwy effeithiol ar gyfer y dyfodol.

Drwy ddarparu eiddo diogel a hygyrch, gallwn warchod ein hunain yn erbyn risgiau iechyd a diogelwch ac atebolrwydd.

## Beth ydyn ni am wneud?

- Cadw asedau â phwrpas penodol yn unig, ac anelu i wella cynaliadwyedd ariannol, economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol ar draws ein portffolio.
- Rhagdybio o blaid gwaredu eiddo os nad oes ei angen ar wasanaethau.
- Herio'r defnydd presennol o asedau drwy adnabod cyfleoedd cyd-leoli, gan gynnwys gyda phartneriaid, a all olygu rhesymoli a chael gwared ar eiddo pan fo'n briodol.
- Cynnal asedau fel eu bod mewn cyflwr da ac yn cydymffurfio'n gyfreithiol, er mwyn cynnal diogelwch ac addasrwydd.
- Datblygu trefniadau casglu gwybodaeth a rheoli er mwyn tystiolaethu cyflawniadau.

## Sut?

- Herio ein hasedau o fewn rhaglen dreigl barhaus.
- Adnabod eiddo y dylid eu cadw / buddsoddi ynddynt, a'r rheiny sydd yn weddill i anghenion ac y dylid cael gwared arnynt.
- Adolygu'r portffolio a chynllunio darpariaeth gwasanaeth yn unol â gofynion gwasanaeth ac ardaloedd daearyddol.
- Ffurfioli trefniadau diogelwch eiddo yn a sicrhau bod y gwiriadau priodol yn cael eu cwblhau o fewn amser priodol.
- Sefydlu rhaglen dreigl barhaus ar gyfer cynnal archwiliadau manwl ar gyflwr ysgolion ac adeiladau eraill.

# Cynaliadwyedd –lleihau ôl-troed carbon, gwella effeithlonrwydd ariannol

## Pam bod hyn yn bwysig?

Mae ein portffolio eiddo yn un o'n prif allyrwyr carbon ac mae'n rhaid i ni leihau ein ôl-troed carbon os ydynt am gyflawni ein Cynllun Sero Net.
Mae grantiau sylweddol ar gael ar gyfer datgarboneiddio, ac os gallwn baratoi a blaenoriaethu'n gywir, maent yn cynnig ffrydiau ariannu i'n galluogi i uwchraddio, gwella a lleihau'r baich o gynnal a chadw ein hadeiladau tra'n cyflawni'r brif amacn o ddatgarboneiddio'n portffolio.

Mae'r hinsawdd ariannol bresennol yn heriol, ac mae oblygiadau ariannol ein portffolio yn sylweddol. Mae'r portffolio eiddo corfforaethol yn cynrychioli cyfran sylweddol o werth asedau'r Cyngor, atebolrwydd, refeniw (rhent) a gwariant (cynnal a chadw, ynni, trethu ac ati), a gall y portffolio hwn gael effaith sylweddol ar gapasiti ariannol y Cyngor.

## Beth ydyn ni am wneud?

- Gosod gwaelodlin carbon ar gyfer ein hadeiladau.
- Lleihau allyriadau carbon asedau eiddo.
- Bod yn uchelgeisiol a dewr wrth ystyried cyfleoedd i ddatgarboneiddio ein stoc wrth dderbyn bod risgiau ynghlwm â thechnolegau newydd.
- Bod yn agored i gyfleoedd i ariannu'r gwaith o ddatgarboneiddio a chynlluniau cynhyrchu ynni.
- Annog enillion bioamrywiaeth wrth wneud penderfyniadau ynghylch eiddo, a gwneud buddsoddiadau doeth a phwyllog.
- Lleihau costau gweithredol drwy ddefnyddio adeiladau'n fwy effeithlon.
- Sicrhau'r buddion ariannol gorau tra'n cydnabod buddion economaidd a chymdeithasol.
- Manteisio ar gyllid allanol.

## Sut?

- Datblygu llwybr ar gyfer y daith tuag at net sero ar gyfer portffolio eiddo'r cyngor.
- Sefydlu safonau dylunio i'w dilyn wrth brynu neu adnewyddu asedau er mwyn sicrhau effeithlonrwydd carbon a hyblygrwydd gofod ar gyfer y dyfodol.
- Datblygu prosesau monitro perfformiad a rheoli ynni'n effeithlon.
- Sefydlu trefniadau casglu dyled ac anfonebu clir a thryloyw.
- Adolygu polisïau gwaredu eiddo gan ragdybio o blaid sicrhau'r pris uchaf.
- Edrych ar yr holl gyfleoedd ariannu fel y nodir yn y Strategaeth Cyfalaf.

# Cydweithio – meddwl fel un er mwyn darparu amcanion economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol

## Pam bod hyn yn bwysig?

Mae'n hanfodol fod penderfyniadau ynghylch eiddo yn cael eu gwneud gyda ystyriaeth ar gyfer, ac yng nghyd-destun, effeithiau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol ar ein cymunedau.

Mae'r portffolio eiddo yn ased a ddeilir gyda'r nod o gyflawni gweledigaeth Cynllun y Cyngor o greu Ynys Môn iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu, a chyflwyno amrywiaeth o wasanaethau i gefnogi'r weledigaeth honno.

## Beth ydyn ni am wneud?

- Gweithio gyda'n gilydd er mwyn cynllunio a rheoli eiddo fel adnodd corfforaethol er mwyn cyflawni gweledigaeth ac amcanion strategol y cyngor.
- Bod yn agored i gyfleoedd i ddefnyddio ein portffolio'n arloesol er mwyn cefnogi adfywiad economaidd a chyflawni amcanion y Cynllun Tai.

## Sut?

- Datblygu cynnig ar gyfer Model Landlord Corfforaethol i'w ystyried gan randdeiliaid.
- Sefydlu safbwynt ar weithio mewn partneriaeth gyda cymunedau'r Ynys a gwasanaethau cyhoeddus eraill – trwy raglen *Ystadau Cymru*.

# Gyrru gan Ddata – cynllunio rhagweithiol, eglurder a thryloywder

## Pam bod hyn yn bwysig?

Mae penderfyniadau sy'n ymwneud ag eiddo yn bwysig, yn anodd eu dadwneud ac yn gallu denu llawer o ddiddordeb cyhoeddus. Mae'n hanfodol bod gweithdrefnau a pholisïau yn glir ac yn dryloyw.

Nid yw barn bob amser yn sail ddigonol ar gyfer penderfyniadau ble mae adnoddau'n gyfyngedig a'r penderfyniadau yn rhai anodd.

Mae angen i ni allu cynllunio ein gwaith a'n rhaglenni buddsoddi ar gyfer y tymor canolig a hir er mwyn sefydlu cyfeiriad hirdymor.



## Beth ydyn ni am wneud?


- Datblygu trefniadau casglu a rheoli data i ddarparu tystiolaeth ar gyfer, ac arwain penderfyniadau.
- Cynllunio ar gyfer y tymor hir er gwaethaf bylchau mewn gwybodaeth ac ansicrwydd ynghylch adnoddau.
- Sicrhau eglurder ynghylch yr hyn sydd angen ei wneud, yr adnoddau sydd eu hangen ac unrhyw rwystrau.
- Gwneud penderfyniadau ar ôl gwerthuso'r opsiynau gyda rhesymu clir wedi'i ddogfennu yn unol ag arfer da cydnabyddedig.

## Sut?

- Symud i feddalwedd rheoli asedau CPM.
- Datblygu rhaglenni cyflawn ar gyfer casglu, gwirio a chynnal data.
- Sefydlu dangosyddion perfformiad allweddol (KPIs) a mesurau addas ar gyfer eu rheoli.
- Datblygu cynlluniau ar gyfer ymgymeryd a gwaith wedi ei flaenoriaethu cyn adnabod cyllid fel ein bod yn barod i ymateb i gyfleoedd grant.
- Adolygu neu ddatblygu polisïau a threfniadau yn ôl yr angen.
- Sefydlu trefniadau addas ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth.

# Risgiau wrth ddarparu'r Cynllun Strategol Rheoli Asedau





# Llywodraethu ac Atebolrwydd




Er mwyn sicrhau bod y cynllun yn cael ei wireddu, byddwn yn sefydlu trefniadau cadarn. Byddwn yn adolygu cylch gorchwyl y Grŵp Tir ac Asedau i sicrhau ei fod yn addas at ei ddiben.

Byddwn yn adrodd i'n Tîm Arweinyddiaeth a'n Pwyllgor Gwaith.

Bydd ein trefniadau'n sicrhau eglurder, atebolrwydd, cydymffurfiaeth a'r strwythur i fonitro cynnydd yn effeithiol.

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **19 Mawrth 2024** |
| **Pwnc:** | **Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai 2024-2054** |
| **Aelod Portffolio:** | **Cynghorydd Gary Pritchard** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Ned Michael** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Ned Michael**<br>**01248 752200**<br>**nedmichael@ynysmon.llyw.cymru** |
| **Aelod Lleol:** | **Pob Aelod** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Yn unol â gofyniad Llywodraeth Cymru, mae'n ofynnol i ni gyflwyno ein cais am ein Lwfans Atgyweiriadau Mawr, ynghyd â Chynllun Busnes 30 Mlynedd y Cyfrif Refeniw Tai (CRT), erbyn 31 Mawrth er mwyn sicrhau ein Lwfans Atgyweiriadau Mawr o oddeutu £2.7m ar gyfer 2024-25.

Mae Cynllun Busnes 30 mlynedd y CRT ynghlwm ac, wedi iddo gael ei gymeradwyo, bydd yn cael ei fformadu yn yr arddull corfforaethol.

Rwyf yn argymell fod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo:-

**A1.** Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) 2024-2054 i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

**1.0 Cefndir**

**1.1** Paratowyd yr Adroddiad a'r Cynllun Busnes hwn ar y cyd â Swyddogion o'r Gwasanaethau Tai a Chyllid a'r Cynllun Busnes yw'r arf cynllunio ariannol pennaf ar gyfer cyflawni a rheoli stoc dai'r Cyngor.

Yn benodol, mae'r Cynllun Busnes yn dangos:-

- sut mae'r Cyngor yn sicrhau fod y stoc gyfan yn cydymffurfio â Safonau Ansawdd Tai Cymru (SATC) - er y bydd rhai eiddo yn parhau i gael eu dynodi fel 'methiannau derbyniol';
- sut mae'r Cyngor yn bwriadu cynnal a gweithio tuag at y SATC 2023, ac
- y buddsoddiad sydd ei angen i ariannu ein rhaglen datblygu tai cyngor newydd.

**1.2** Trwy ei Gyfrif Refeniw Tai, mae'r cyngor yn rheoli ac yn berchen ar 3981 eiddo a 675 o garejys ledled yr Ynys. Trwy gydol cyfnod y Cynllun Busnes hwn byddwn yn gweld cynnydd o dros 25% yn ein stoc dai, i dros 5000 eiddo, er mwyn cwrdd â'r angen tai lleol cynyddol. Ar hyn o

bryd mae gennym dros 747 o bobl ar y rhestr aros Tai Cymdeithasol ac mae hyn yn cynnwys 85 o deuluoedd sydd mewn llety dros dro ar yr Ynys, ffigwr nas gwelwyd ei debyg o'r blaen.

**1.3** Mae Cynllun Busnes y CRT (Atodiad 1) yn cyfrannu at yr holl themâu sylfaenol yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor. Mae'n cyfrannu'n bennaf at sicrhau bod gan pawb yr hawl i alw rhywle yn gartref, Gofal Cymdeithasol a Lles yn ogystal a Datblygu'r Economi.

**1.4** Mae'r CRT yn parhau i gael ei glustnodi ar gyfer swyddogaethau Landlord y Cyngor sy'n ymwneud â stoc dai'r Cyngor. Oherwydd bod y cyfrif wedi'i glustnodi, nid yw'r Cyngor yn gallu defnyddio arian o'r gronfa gyffredinol i gyllido tai cyngor.

## 2.0 Safonau Ansawdd Tai Cymru (SATC)

2.1 Mae'r Cyngor wedi llwyddo i gwrdd â'r SATC ers 2012, a ni oedd yr ail Awdurdod yng Nghymru i gyflawni'r safon hon.

2.2 Byddwn yn ymrwymo'n llwyr i gwrdd â'r SATC 2023 a gyhoeddwyd mis Tachwedd gan Lywodraeth Cymru, yn ystod 2023/24, cwblhawyd arolwg o gyflwr ein holl stoc dai, a chafwyd mynediad i 88% o'r eiddo er mwyn sefydlu ein gwaelodlin bresennol er mwyn paratoi ar gyfer cwrdd â'r safonau newydd hyn.

***Dywed Safon Ansawdd Tai Cymru y dylai bob aelwyd gael y cyfle i fyw mewn tai o ansawdd da sydd:***

- Mewn cyflwr da.
- Yn ddiogel.
- Wedi eu gwresogi'n ddigonol, yn effeithlon o ran defnyddio tanwydd ac wedi'u hinsiwleiddio'n dda.
- Yn cynnwys ceginau ac ystafelloedd ymolchi modern.
- Wedi eu rheoli'n dda.
- Wedi eu lleoli mewn amgylchedd deniadol a diogel.
- Yn cwrdd â gofynion penodol yr aelwyd i'r graddau y mae hynny'n bosib (e.e. gofynion pobl ag anableddau penodol).

## 3.0 Rhaglen Gyfalaf 2024-2025

3.1 Mae'r Cynllun Busnes yn cynnwys rhaglen gyfalaf gwerth oddeutu £13m. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer gwaith allanol, gwaith yn gysylltiedig â risg tân, asbestos, addasiadau ar gyfer yr anabl a gwaith effeithlonrwydd ynni. Mae'r gyllideb hefyd yn caniatáu ar gyfer cydymffurfio'n llawn â'r SATC trwy dargedu methiannau derbyniol a safonau amgylcheddol.

3.2 **Gwaith Ynni a Datgarboneiddio**

Rydym yn bwriadu parhau â'r rhaglen hon yn 2024/25 a chlustnodwyd £1.0m yn y gyllideb i dargedu 200 o osodiadau systemau paneli solar gyda batri i storio trydan a fyddai'n cyfrannu'n

gadarnhaol tuag at dargedau effeithlonrwydd ynni a lleihau carbon a gostwng costau i'n tenantiaid.

Byddwn yn cynnal ymarfer arfarnu a chynllunio buddsoddiad i arfarnu perfformiad ynni, targedau lleihau carbon a chydymffurfio â'r Llwybr Ynni er mwyn paratoi ar gyfer disgwyliadau SATC 2023.

3.3 Mae darpariaeth o £5.744m wedi'i gynnwys yn y gyllideb refeniw ar gyfer gwaith trwsio a chynnal a chadw (gwaith trwsio ymatebol).

3.4 Yn ogystal, mae swm o £17.002m wedi'i gynnwys yng nghyllideb 2024-25 ar gyfer datblygu rhaglen adeiladu tai cyngor newydd a phrynu cyn-dai cyngor ar yr Ynys. Mae'r Cynllun Busnes yn rhagdybio rhaglen ddatblygu o 45 uned yn 2024-25 a thrwy gydol cyfnod y Cynllun Busnes.

**4.0 Model Ariannol a Rhagdybiaethau**

4.1 Mae'n rhaid cael model ariannol 30 mlynedd i gefnogi Cynllun Busnes y CRT sy'n cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

4.2 Gan fod y mynegai prisiau defnyddwyr (CPI) ar gyfer Medi 2023 yn 6.7%, a'i fod tu allan i'r ystod o 0% i 3%, mae'n golygu felly nad yw'r cynnydd o CPI +1% mewn rhenti yn gymwys a chadarnhaodd Llywodraeth Cymru ar 27 Hydref 2023 y byddai'r Gweinidog sydd â chyfrifoldeb am Newid Hinsawdd yn penderfynu ar newid priodol mewn Rhenti Tai Cymdeithasol ar gyfer 2024/25.

Penderfynodd y Gweinidog mai'r cynnydd blynyddol uchaf ar draws yr holl stoc fyddai hyd at 6.7%.

Er mai 6.7% oedd y cynnydd uchaf a ganiatawyd, roedd disgwyl i benderfyniad yr Awdurdod ar y cynnydd mewn rhenti roi'r un ystyriaeth i anghenion landlordiaid a fforddiadwyedd rhenti i denantiaid.

4.3 Cynhaliwyd prawf straen ar y cynllun busnes er mwyn ystyried y risgiau, ar wahân a gyda'i gilydd, ac i sicrhau fod y cynllun busnes yn parhau i fod yn hyfyw yn ystod cyfnod y cynllun o 30 mlynedd.

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
| --- |
| Amherthnasol |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
| --- |

| |
|---|
| Mae gan y Pwyllgor Gwaith awdurdod dirprwyedig i gymeradwyo Cynllun Busnes y CRT. |

| **CH – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi |

| **D – A yw’r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi |

| Dd – Asesu’r effaith bosib (os yw’n berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae’r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaeth ar yr Awdurdod i’r dyfodol? Os felly, sut? | |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio’r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai’r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy’n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. | |

| **E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (gorfodol) | Cefnogi’r cynllun. |
| **2** | **Cyllid / Swyddog Adran 151** (gorfodol) | Cefnogi’r cynllun. |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol) | Cefnogi’r cynllun. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Amherthnasol |
| **5** | **Eiddo** | Amherthnasol |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Amherthnasol |
| **7** | **Sgriwtini** | 12.03.2024 |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall** | |

| **F - Atodiadau** |
|---|
| Cynllun Busnes y CRT 2024-2054 |

| **FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| |

Ynys Môn
THE ISLE OF Anglesey

# Cynllun Busnes 2024-2054
## Y Cyfrif Refeniw Tai

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn y Gymraeg
This document is also available in Welsh
www.anglesey.gov.wales

# RHAGAIR

- Mae Ynys Môn yn lle diogel. Mae mwyafrif y trigolion yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus iawn yn eu cartrefi. Mae ethos cymunedol cryf mewn ardaloedd gwledig, pentrefi a threfi, ac mae'r cyfraddau unigedd ymhlith yr isaf yng Nghymru.

- Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i weithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid er mwyn ymateb i'r heriau tai lleol.

- Nod Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai, y cyfeirir ato yn y ddogfen fel CB CRT, yw paratoi ymlaen llaw er mwyn sicrhau bod cynllun sy'n hyfyw yn ariannol ar waith ar gyfer stoc tai'r Cyngor.

- Mae'r CRT yn ariannu holl waith y Cyngor mewn perthynas â'i rôl fel landlord cymdeithasol, gan gynnwys casglu mwy o incwm rhent er mwyn ariannu'r gwaith cynnal a chadw dyddiol, gwaith adnewyddu sydd wedi'i drefnu, rheoli ystadau yn ogystal ag annog Cyfranogiad Tenantiaid er mwyn dylanwadau ar ein blaenoriaethau.

- Mae fformat cynllun busnes y CRT 2024-2054 wedi'i addasu er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys pob tenant, trigolyn a chymuned mewn ffordd sy'n hwylus i'r defnyddiwr.

# Cynllun y Cyngor 2023-2028

**Gweledigaeth Cynllun y Cyngor yw:**



Creu Ynys Môn sy'n iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu'

[Cynllun y Cyngor 2023 - 2028 (llyw.cymru)]

- Cynllun y Cyngor yw'r brif ddogfen sy'n ganolbwynt i'r penderfyniadau a wneir ar bob lefel; darparu fframwaith i gynllunio a gyrru blaenoriaethau yn eu blaen; siapio gwariant blynyddol; monitor perfformiad a chynnydd.
- Wrth wraidd y cynllun mae ein dyhead i weithio gyda phreswylwyr, cymunedau a phartneriaid ar Ynys Môn i sicrhau'r gwasanaethau gorau posibl, gwella ansawdd bywyd ar gyfer pawb a chreu cyfleoedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
- Mae ei chwe phrif amcan yn adlewyrchu'r prif feysydd y dylai Gwasanaethau Tai Cyngor Sir Ynys Môn ganolbwyntio arnynt.

### Yr iaith Gymraeg

Cynyddu cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith.

### Gofal cymdeithasol a Lles

Darparu'r gefnogaeth gywir ar yr amser iawn.

### Addysg

Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

### Tai

Sicrhau bod gan bawb yr hawl i alw rhywle'n gartref.

### Economi

Hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu economi'r Ynys.

### Newid Hinsawdd

Ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael â newid a gweithio tuag at ddod yn sefydliad sero net erbyn 2030.

# Gwerthoedd

- Mae gwerthoedd craidd y sefydliad yn sylfaen i Gynllun y Cyngor 2023-28, ac maent yn cael eu defnyddio i ddatblygu ac arwain gweledigaeth, cynlluniau strategol a gwasanaethau.

- Mae'r Gwasanaethau Tai yn adran hanfodol o fewn Cyngor Sir Ynys Môn, ac mae'n glynu wrth y gwerthoedd hyn wrth ymwneud â thenantiaid a chwsmeriaid.

[Cynllun y Cyngor 2023 - 2028 (llyw.cymru)]

## Parch

Rydym yn barchus ac yn ystyriol tuag at eraill waeth beth yw ein gwahaniaethau.

## Cydweithio

Rydym yn gweithio fel tîm, gyda'n cymunedau a'n partneriaid i gyflawni'r canlyniadau gorau i bobl Ynys Môn.

## Gonestrwydd

Rydym yn ymrwymedig i safonnau uchel o ran ymddygiad ac uniondeb.

## Hyrwyddo'r Cyngor a'r Ynys

Rydym yn creu ymdeimlad o falchder wrth weithio i'r Cyngor ac yn cyflwyno delwedd gadarnhaol i'r Cyngor a'r Ynys.

# Cylch Strategol

- Mae'r cylch strategol yn adnabod y cynlluniau sydd ar waith i sicrhau ein bod yn gallu cyflawni ein blaenoriaethau a'n hamcanion.
- Mae Cynllun Busnes Strategol y Cyfrif Refeniw Tai yn cyd-fynd â Chynllun y Cyngor ac mae'n cyfrannu at gyflawni'r amcanion a'r weledigaeth strategol.
- **Mae cyflawni blaenoriaethau strategol a bodloni meysydd blaenoriaeth allweddol yn gosod mandad clir ac uchelgeisiol.**




**Rydym eisiau sicrhau ein bod yn:**

Defnyddio'r stoc tai presennol i'r eithaf a gwella tai a chymunedau (Thema 2 yn Strategaeth Tai 2022-27 y Cyngor).

Cynnig cefnogaeth i hyrwyddo annibyniaeth o ran tai (Thema 4 yn Strategaeth Tai 2022-27 y Cyngor).

Bodloni SATC2023 a'n Cynllun Cyfranogiad Tenantiaid Strategol.

[Cynllun y Cyngor 2023 - 2028 (llyw.cymru)]



# GWELEDIGAETH TAI, TAI MÔN

***"Sicrhau bod gan bawb yr hawl i alw rhywle'n gartref"***

***Cartrefi Fforddiadwy, Hygyrch o Ansawdd***

sy'n seiliedig ar werthoedd ein gwasanaeth, sy'n cefnogi ein gwaith ac yn ein gyrru i ddarparu ein gwasanaethau, fel y nodir:-

- Canolbwyntio ar anghenion ein cwsmeriaid ac ymateb iddynt.
- Cefnogi ein cwsmeriaid, tenantiaid, cydweithwyr a phartneriaid allweddol i'n galluogi ni i gefnogi ein cymunedau.
- Bod yn arloesol er mwyn gwella ein darpariaeth tai drwy fanteisio ar newidiadau deddfwriaethol a lleihau gwastraff sy'n gysylltiedig â'r broses datblygu.
- Arloesi er mwyn gwella gwasanaethau a sicrhau gwerth am arian ar gyfer ein tenantiaid a'n preswylwyr.

# Pam bod angen Cynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai arnom?

Mae fformat y cynllun busnes hwn wedi'i addasu er mwyn sicrhau bod ein hamcanion yn cael eu dehongli mewn ffordd y mae pawb yn ei deall.

- Darparu Gwasanaeth Tai o'r safon gorau i bobl Ynys Môn, gan weithio mewn partneriaeth gyda'n tenantiaid er mwyn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w bywydau a'n cymunedau.

- Glynu wrth Ddeddf Tai Cymru (2014) sy'n gosod rhwymedigaeth statudol ar Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru i ddarparu, cymryd cyfrifoldeb dros waith cynllunio ariannol a rheoli stoc tai'r Cyngor.

- Cyflawni'r nod tymor hir o barhau i wella'r cartrefi a'r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu ledled Ynys Môn, gan gynnwys ein hymrwymiad i fodloni Safonau Ansawdd Tai Cymru 2023, ein hamcanion sero net a datgarboneiddio cyfochr â'n rhaglen i ddatblygu cartrefi newydd.


- Bodloni amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy ein gwaith.

# Llywodraethiant


Mae awdurdodau lleol yn defnyddio system Llywodraethiant Corfforaethol er mwyn cyfarwyddo a rheoli eu swyddogaethau ac ymwneud â'u cymunedau. Mae'n seiliedig ar yr egwyddor sylfaenol o fod yn agored a chynhwysol, bod yn onest ac atebol ynghyd â'r cysyniad cyffredin o fod yn arweinydd. Mae'n system gydberthnasol sy'n dwyn ynghyd set sylfaenol o ofynion deddfwriaethol, egwyddorion llywodraethu a phrosesau rheoli.

Mae'r Cyngor yn credu bod Llywodraethiant Corfforaethol yn fodd o wneud y pethau cywir, yn y ffordd gywir ar gyfer y bobl gywir yn brydlon, agored, gonest ac atebol. Mae'n cynnwys y systemau, prosesau, diwylliant a'r gwerthoedd sy'n gyrru ac yn rheoli'r Cyngor, a sut mae'n ymateb ac yn ymwneud â'i ddinasyddion.

Tudalen 123



# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol




Tudalen 124

- Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn disgrifio'r maes tai fel y sylfaen ar gyfer llesiant unigolion, teuluoedd a chymunedau.

- Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn darparu'r amcan, caniatâd a rhwymedigaeth gyfreithiol i wella ein llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd, ac mae'n gofyn i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith tymor hir eu penderfyniadau, i weithio gyda phobl, cymunedau a'i gilydd y well, ac i atal problemau cyson megis tlodi, iechyd, anghydraddoldeb a newid hinsawdd.

# Iechyd a Diogelwch Tai
# *Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith*




## Pam bod hyn yn bwysig?

Gofyniad cyfreithiol dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974

Cynnal diogelwch staff yn y gwaith

## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

Parhau â Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch

Darparu anwythiad Iechyd a Diogelwch i staff newydd

Cyflawni Cynllun Iechyd a Diogelwch Tai

## Sut?

- Hyfforddi Staff
- Cyflwyniad Diogelwch
- Cynnwys hyfforddiant iechyd a diogelwch yn arfarniadau staff
- Asesiad risg yn dilyn digwyddiadau sy'n arwain at lenwi ffurflen adrodd am ddigwyddiad mewnol (Adir)

# Yr Angen Presennol am Dai

## *"Rhywle i alw'n gartref"*



| | 1 ystafell wely | 2 ystafell wely | 3 ystafell wely | 4+ ystafell wely | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Anghenion Cyffredinol | 271 | 162 | 73 | 48 | 559 |
| Llety Pobl Hŷn | 115 | 26 | 4 | 0 | 145 |
| **Cyfanswm** | 391 | 188 | 77 | 48 | 704 |
| **%** | 55% | 27% | 11% | 7% | |

Mae'r galw am dai cymdeithasol ar Ynys Môn yn fwy nag erioed. Mae **704** o ymgeiswyr yn disgwyl am dŷ cymdeithasol ar hyn o bryd.

Mae **5,319** eiddo tai cymdeithasol ar Ynys Môn gyda **3981** ohonynt yn eiddo i'r Cyngor.

ClwydAlyn

TAI MÔN

Grŵp Cynefin
Mwy na thai • More than housing

NORTH WALES HOUSING
TAI GOGLEDD CYMRU

# Mynd i'r afael â thlodi a chreu gwydnwch ariannol ymhlith tenantiaid

Tudalen 127

**Cymorth gyda gwydnwch ariannol yn y gymuned**



**Gwella effeithlonrwydd ynni yn ein heiddo**




Tenantiaid a Chymunedau

**Gweithio mewn partneriaeth gyda rhaglenni cyflogaeth lleol, datblygu sgiliau a chyfleoedd gwirfoddoli**

**Mynd i'r afael â digartrefedd, rhoi terfyn ar ddigartrefedd ym maes tai cymdeithasol a dulliau ail-gartrefu cyflym**


Targedu ein dulliau yn seiliedig ar werthusiadau data a mewnweledlad lleol. Mabwysiadu dull sy'n cael ei arwain gan y gymuned i fynd i'r afael â thlodi

Dod yn wasanaeth sy'n WYBODUS O DRAWMA

MÔN SY'N WYBODUS AM DRAWMA
TRAUMA INFORMED ANGLESEY

# Ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a pharhau i wella ein hystadau a'r amgylchedd






MÔN SY'N WYBODUS AM DRAWMA
TRAUMA INFORMED ANGLESEY

## Nid yw bod yn

## *Gymuned sy'n Wybodus o Drawma*

## yn deitl, ymyriad nac yn rhywbeth mae llond llaw yn ei wneud.

Mae'n ddiwylliant. Dyma ein dull. Mae'n cynnwys pawb.

O'r swyddog rheoli tai, gweithiwr cymdeithasol, swyddog cymorth tai, swyddog Heddlu lleol…..er mwyn rhoi strwythur i'r dull hwn, mae'n rhaid i ni gael staff/unigolion medrus sydd â'r cyfarpar i ymateb i anghenion pawb a'r gymuned ehangach.

# Trawsnewidiad Digidol

## Gwella ein galluoedd, ein dull cyfathrebu a darparu gwasanaeth mwy effeithlon i'n tenantiaid drwy ddefnyddio technolegau digidol gwell.

### Pam bod hyn yn bwysig?

I gyflawni'r uchelgais Cenedlaethol i newid i'r digidol erbyn 2025.

Rhoi hyder i'n tenantiaid allu rheoli llawer o'r agweddau ar eu tenantiaeth ar-lein.

Gwella ein dulliau o ddehongli a chasglu data er mwyn rhoi strwythur i wasanaethau yn y dyfodol a bodloni anghenion.

Creu gweithlu mwy effeithlon drwy ddefnyddio llwyfannau digidol yn well…newid sianelau.

### Beth fyddwn ni'n ei wneud?

Bodloni gofynion yr uchelgais newid i'r digidol ar gyfer tenantiaid sy'n dibynnu ar Teleofal i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi.

Gweithredu ein porth digidol i denantiaid a pharhau i'w ddatblygu.

Defnyddio ein System Rheoli Asedau i sefydlu ffyrdd o weithio sy'n fwy effeithlon a chynnal a chadw'r amserlen.

Bod yn fwy amlwg ar-lein er mwyn lleihau'r galw.

### Sut?

Buddsoddi mewn technolegau digidol.

Trefnu paneli a grwpiau tenantiaid er mwyn cael eu safbwynt a'u barn.

Parhau gyda'n huchelgais hyrwyddwyr digidol ar gyfer tenantiaid nad ydynt ynghlwm â'r byd digidol.

Defnyddio ein Tîm Cynhwysiant Ariannol.

Bydd yr uchod yn cael ei alluogi gan ein Gwasanaeth Tai a'n timau yn y Gwasanaeth TG Corfforaethol.

# SATC 2023
# Cyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru


Yn ystod mis Hydref 2023, lansiodd Llywodraeth Cymru Safon Ansawdd Tai Cymru 2023. Mae'r safonau newydd yn adeiladu ar dargedau gwreiddiol ar gyfer cynnal a chadw a gwella tai cymdeithasol yng Nghymru. Mae SATC 2023 yn gosod y safonau sy'n ymwneud â datgarboneiddio cartrefi cymdeithasol, ac mae'n ceisio lleihau'r allyriadau carbon sy'n deillio o stoc tai Cymru.

Yn ystod 2022/23, cafodd Savills ei benodi gan y Gwasanaethau Tai i gwblhau Arolwg ar Gyflwr Stoc llawn er mwyn cael i wybodaeth i wneud penderfyniadau fel rhan o Gynllun Busnes CRT blynyddol. **Roedd yr arolwg yn cynnwys:**

- Asesiad ar eiddo yn erbyn disgwyliadau SATC 2023
- Arolwg cyfradd ynni
- System Sgorio Iechyd a Diogelwch Tai
- Rhagolwg ariannol mewn perthynas ag atgyweiriadau, gwelliannau a gwaith adnewyddu wedi'i drefnu.

Mae'r arolwg wedi darparu'r sicrwydd y gallwn barhau i fodloni'r SATCau gwreiddiol.

- Rydym yn fodlon fod pob eiddo, lle bynnag y bo'n ymarferol bosibl, yn bodoli'r SATCau gwreiddiol oni bai am y rheiny sy'n cael eu gwrthod, neu'r rheiny sy'n cyrraedd y meini prawf methu derbyniol. Mae gwelliannau ar eiddo oedd wedi'u gwrthod gan denantiaid yn cael eu gwneud yn awtomatig wrth newid tenantiaeth. Dim ond os bydd y gost ar gyfer y gwaith atgyweirio yn anymarferol o safbwynt economaidd y byddwn yn ystyried hysbysu methiant derbyniol.
- O safbwynt lleihau carbon ac effeithlonrwydd ynni, bydd yr Arolwg Cyfradd Ynni i gasglu data RdSAP 10 presennol yn darparu sylfaen gadarn i gynllunio buddsoddiadau a chydymffurfiaeth yn y dyfodol gyda thargedau SATC 2023. Yn dilyn cyfnod adolygu gofalus, rydym wedi mabwysiadu canfyddiadau'r arolwg llawn, ei gasgliadau a goblygiadau ariannol yn ystod Ch3 2023/24.



# SATC 2023
# Cyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru Newydd

**Pam bod hyn yn bwysig?**

Mae'n ofyniad cyfreithiol i bob Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru gyflawni SATC 2023 o fewn 10 mlynedd.



Ei fwriad yw gwella ansawdd Tai Cymdeithasol ar Ynys Môn ac adlewyrchu newidiadau i'r ffordd mae pobl yn byw, yn gweithio ac yn teimlo am eu cartrefi, ac i ddechrau'r gwaith o ddatgarboneiddio Stoc Tai Cymdeithasol Cymru'n raddol.

**Beth fyddwn ni'n ei wneud?**

Cyflawni net sero erbyn 2033.
Darparu gorchuddion llawr ar gyfer pob cartref wrth gofrestru tenantiaeth newydd.

Lleihau tlodi ac anghydraddoldebau iechyd drwy wella cartrefi a mesurau effeithlonrwydd ynni yn ein cartrefi ledled yr Ynys.

Diweddaru ein Rhaglen Gwaith Cyfalaf yn ystod y 10 mlynedd nesaf.

**Sut?**

Drwy ein tenantiaid a'n gweithlu.

Drwy wella sgiliau staff technegol yr adran Dai mewn perthynas â'r uchelgais net sero.

Buddsoddiad Cyfalaf y CRT.

Buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru.

Cyflenwyr a chontractwyr lleol.

Tîm prosiect SATC 2023 gyda chylchlythyrau cyson a diweddariadau corfforaethol.

# Rheoli'r Risg o Dân

Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus gyda'r Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005, rydym wedi neilltuo cyfanswm o £400k tuag at ddiweddaru a/neu adnewyddu offer diffodd tân a systemau synhwyro tân er mwyn cydymffurfio gydag asesiadau risg o dân. Bydd mesurau arfaethedig yn cynnwys disodli drysau tân fflat 1-awr a diweddaru larymau tân mewn blociau o fflatiau.

Yn ystod 2023/24, lwyddodd y Gwasanaethau Tai i ddefnyddio gwerth £393k o gyllid gan Lywodraeth Cymru, o'r Gronfa Grant Cyfalaf Cyweirio Adeiladau Preswyl Uchel Iawn.

Roedd y gwaith yn cynnwys Adrannu a gosod Systemau Llethu Tân, ac erbyn hyn mae gan ein 4 bloc uchder canolig system chwistrellu dŵr.



# Caffael a Buddion i'r Gymuned


Mae'r contractau sylweddol sydd wedi'u caffael gan y Gwasanaeth Tai yn cynnwys Recriwtio a Hyfforddiant wedi'i Dargedu, Buddion i'r Gymuned Ehangach a Chyfleoedd Cadwyn Gyflenwi.


**Mae'r elfennau allweddol yn cynnwys:**

- Hyfforddiant a recriwtio
- Cyfleoedd i'r gadwyn gyflenwi leol
- Buddion i'r gymuned ehangach sy'n gysylltiedig â'r ardal leol
- Cwblhau Pecyn Mesur Buddion Cymunedol Cymru wrth gwblhau contract.

Mae'r holl gyfleoedd ar gyfer tendrau cyfalaf yn cael eu hysbysebu ar borth caffael Gwerthwch i Gymru. Gweledigaeth y Gwasanaeth Tai yw sicrhau bod contractwyr lleol a chadwyni cyflenwi yn cael pob cyfle i gystadlu am gontractau cyfalaf fframwaith a blynyddol. Bydd dyfarnu i gontractwyr lleol yn cyfrannu at leihau ôl-troed carbon ein cynlluniau buddsoddi yn ogystal â hyrwyddo'r gwaith o greu a chadw swyddi.





Rydym yn parhau i weithio gyda Gweithredwr Rhwydwaith Adran er mwyn cael caniatâd i osod nifer o systemau PV Solar ar sawl ystâd. Yn anffodus, oherwydd problemau gyda chapasiti’r rhwydwaith, mae cael caniatâd i osod systemau yn gymhleth. Rydym nawr wedi cyrraedd cyfaddawd, a bydd gwaith gosod yn y dyfodol yn cynnwys mesurau cyfyngu allforio.

Rydym yn bwriadu parhau â’r rhaglen hon yn ystod 2024/25 a thu hwnt, ac mae £2.0m wedi’i glustnodi yn y gyllideb i osod 200 o baneli PV Solar, fydd yn gyfraniad da tuag at effeithlonrwydd ynni a thargedau lleihau carbon. Mae’r Gwasanaethai Tai yn cynnig sefydlu fframwaith 5 mlynedd yn ystod 2024/25 ar gyfer darparu ynni adnewyddadwy a gwneud gwaith datgarboneiddio tymor hir, fydd yn cyfrannu at dargedau perfformiad ynni uchelgeisiol SATC 2023.

# Cynyddu ein Stoc Tai Cymdeithasol

## Pam bod hyn yn bwysig?

I fodloni'r galw am dai ar Ynys Môn, gan sicrhau bod pobl leol yn gallu galw rhywle'n gartref.

Ymateb i'r her tai lleol.

Cynyddu'r stoc o gartrefi sy'n effeithlon o ran ynni a mynd i'r afael â thlodi tanwydd.

Lleihau lefelau digartrefedd drwy gynyddu nifer y tai cymdeithasol ar Ynys Môn.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

Yn ystod y 12 mis nesaf byddwn yn:-

Cwblhau 31 eiddo newydd ledled Ynys Môn

Prynu x 15 eiddo yn ôl (eiddo a oedd yn cael eu hadnabod y flaenorol fel eiddo Hawl i Brynu)

Dechrau adeiladu x 46 cartref newydd fel rhan o stoc y Cyngor

Cyflwyno cais cynllunio ar gyfer datblygiad Gofal Ychwanegol gyda 45 fflat yn Nhyddyn Mostyn, Porthaethwy.

## Sut?

Defnyddio cyllid ar gyfer tai cymdeithasol gan Lywodraeth Cymru.

Gwneud cynnydd gyda cheisiadau cynllunio ar gyfer Maes Mona, Amlwch a Phlas Penlan, Llangefni.

Parhau i weithio gyda'n partneriaid LCC er mwyn cynyddu stoc tai cymdeithasol Ynys Môn.

# Rheoli Perfformiad

**Pam bod hyn yn bwysig?**

Monitro a gwella perfformiad tai.

Gwella ymgysylltiad â staff.

Helpu i gyflawni amcanion.



**Beth fyddwn ni'n ei wneud?**

Adolygu dangosyddion perfformiad.

Adnabod anghenion hyfforddi.

Adnabod bylchau mewn sgiliau.

**Sut?**

Adolygu dangosyddion perfformiad mewn ymgynghoriad gyda'n tenantiaid.

Gosod targedau perfformio cyraeddadwy.

Sicrhau bod arfarniadau staff yn cael eu cwblhau.

# Recriwtio a Dylanwadau - Gwella lefelau cyfranogiad tenantiaid a rhoi hyder i'n tenantiaid ddylanwadu a siapio ein gwasanaethau.



## Pam bod hyn yn bwysig?

Recriwtio tenantiaid a rhoi hyder iddynt ddylanwadu a siapio ein gwasanaethau.

Datrys problemau a heriau a all effeithio ar wasanaethau presennol a darparu gwasanaethau yn y dyfodol.

Bodloni anghenion cwsmeriaid.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

Sicrhau bod gan denantiaid y gallu a'r hyder i gymryd rhan.

Sicrhau bod cyfleoedd ar gael i denantiaid gyfrannu mewn amrywiaeth o ffyrdd.

Cefnogi tenantiaid i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth er mwyn gallu dylanwadu ar benderfyniadau a gwella darpariaeth gwasanaeth.

## Sut?



***Byddwn yn recriwtio aelodau newydd drwy:***

- Rwydweithio
- Ymgysylltu ar-lein
- Ymgysylltu â'r gymuned
- Cofrestriadau eiddo
- Ein partneriaid

***Byddwn yn cefnogi tenantiaid i ddylanwadu ar benderfyniadau a darpariaeth gwasanaeth drwy:***

- Gwella sgiliau tenantiaid
- Rhoi hwb i hyder tenantiaid er mwyn dylanwadu ar ein gwasanaethau a'r broses o wneud penderfyniadau.
- Darparu cyfleoedd i denantiaid gyfrannu at lefel weithredol a strategol.

***Byddwn yn monitro effaith hyn drwy:***

- Nifer y tenantiaid sy'n cymryd rhan, gan gynnwys annog mwy o denantiaid newydd a grwpiau lleiafrifol.
- Gwella nifer y tenantiaid sy'n cyfrannu ar-lein.
- Cymharu arolygon amser go iawn ac arolygon STAR.

# RHEOLI INCWM
## Yn ystod 2024-25, bydd ein codiad rhent yn 6.7% sy’n gyfanswm o £22.9 miliwn

### Pam bod hyn yn bwysig?

- Parhau i fuddsoddi yn ein cartrefi, gwasanaethau tenantiaid a staff.

- Cyflawni lefelau incwm er mwyn cefnogi rhaglen waith SATC 2023.

- Talu costau rhedeg a gorbenion sy’n cynnwys costau staff, costau nwyddau cynnal a chadw, costau trafnidiaeth, trawsnewid digidol a chostau canolog.

- Darparu’r gwasanaeth gorau i’n tenantiaid.

### Beth fyddwn ni’n ei wneud?

- Parhau i gefnogi tenantiaid sy’n wynebu caledi ariannol i dalu eu biliau rhent. Bydd hyn yn cynnwys trafodaethau mewn perthynas â symud i eiddo llai, ein Cynllun Cymorth Rhent, atgyfeiriadau ar gyfer DAF / DHP.
- Peidio â dadfeddiannu tenantiaid sy’n ymwneud â’r agwedd ôl-ddyledion o’u contractau tai.
- Parhau i gynnal tenantiaethau cynaliadwy drwy ddiwydrwydd fforddiadwyedd cyd-denantiaeth.

### Sut?

- Swyddog Rheoli Tai arbenigol mewn ardal benodol sy’n cefnogi’r holl denantiaid mewn ôl-ddyledion.

- Annog opsiynau i wella gwydnwch ariannol, gan gynnwys atgyfeiriadau ar gyfer Cynhwysiant Ariannol neu gymorth Hawliau Lles.

- Gwella’n stoc tai er mwyn cynnig opsiynau mwy fforddiadwy - megis cyfleoedd i symud i eiddo llai.

- Targedu cymunedau gyda lefelau uwch o ôl-ddyledion gan gynnig cymorth holistig.

# Cynllun Ariannol 5 Mlynedd
# 5 Year Financial Plan



| | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 |
|---|---|---|---|---|---|
| **CYFRIF INCWM A GWARIANT** | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **INCOME AND EXPENDITURE ACCOUNT** | | | | | |
| **Incwm/Income** | | | | | |
| Rhenti Eiddo Annedd/Dwelling Rents | 23,119 | 23,546 | 24,514 | 25,514 | 26,684 |
| Foidiau/Voids | (439) | (447) | (466) | (485) | (507) |
| Rhenti Net Rents | 22,680 | 23,099 | 24,048 | 25,029 | 26,177 |
| Rhenti Arall/Other Rents | 267 | 275 | 283 | 291 | 457 |
| Tal Gwasanaeth/ Service Charges | 180 | 182 | 190 | 197 | 205 |
| Cyfraniadau Eraill/ Other Contributions | 130 | 132 | 135 | 138 | 140 |
| Incwm Arall/ Other Income | 116 | 116 | 116 | 116 | 116 |
| | | | | | |
| **Gwariant/Expenditure** | | | | | |
| Cynnal a Chadw/Repairs and maintenance | (5,744) | (5,842) | (5,959) | (6,078) | (6,199) |
| Goruchwyliaeth a Rheoli/ Supervision and Management | (6,289) | (6,396) | (6,524) | (6,654) | (6,787) |
| Gwariant Arall/ Other Expenditure | (10) | (10) | (114) | (116) | (118) |
| Darpariaeth Dyledion Drwg/ Provision for Bad Debts | (350) | (356) | (371) | (386) | (403) |
| Costau Rheoli Dyledion/ Debt Management Costs | (10) | (11) | (15) | (19) | (23) |
| **Costau Gwasanaeth Net/ Net cost of services** | **10,971** | **11,189** | **11,790** | **12,518** | **13,565** |
| | | | | | |
| Llog Taliadwy/Interest Payable | (1,907) | (2,451) | (3,177) | (3,835) | (4,383) |
| Incwm Buddsoddiadau CRT/ HRA investment income | 183 | 50 | 54 | 51 | 48 |
| Syrffed (Gwarged) am y flwyddyn/ Surplus (deficit) for the year | 9,248 | 8,788 | 8,667 | 8,734 | 9,230 |
| | | | | | |
| **MANTOLEN CRT/ HRA BALANCE** | | | | | |
| Syrffed (Gwarged) am y flwyddyn/ Surplus (deficit) for the year | 9,248 | 8,788 | 8,667 | 8,734 | 9,230 |
| Gwariant Cyfalaf Arianwyd/ Capital Expenditure Funded | (17,064) | (8,183) | (7,930) | (8,194) | (8,483) |
| Ad-dalu Benthyciadau/ Repayment of loans | (142) | (395) | (723) | (734) | (690) |
| Cynnydd (gostyngiad) y Fantolen/ Increase/(decrease) in Balance | (7,958) | 210 | 13 | (194) | 57 |
| Mantolen CRT d/y/ HRA Balance b/f | 9,305 | 1,347 | 1,556 | 1,569 | 1,376 |
| **Mantolen CRT i Gau /Closing HRA Balance** | **1,347** | **1,556** | **1,569** | **1,376** | **1,433** |



# Rhaglen Gyfalaf 5 Mlynedd
# 5 Year Capital Programme

| | 2024/25 £000 | 2025/26 £000 | 2026/27 £000 | 2027/28 £000 | 2028/29 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **GWARIANT CYFALAF/ CAPITAL EXPENDITURE** | | | | | |
| Gwelliannau SATC/ WHQS Improvements | 13,000 | 13,221 | 13,485 | 13,755 | 14,030 |
| Datblygiadau Newydd/ New Development | 17,002 | 21,002 | 21,224 | 15,268 | 12,210 |
| Arall/ Other | 100 | 102 | 104 | 106 | 108 |
| **Cyfanswm Gwariant/Total Expenditure** | **30,102** | **34,325** | **34,814** | **29,129** | **26,348** |
| | | | | | |
| **ARIANNU FINANCING** | | | | | |
| Benthyciadau/ Borrowing | 1,050 | 12,100 | 18,000 | 16,700 | 13,600 |
| Lwfans Atgyweirio Sylweddol/ Major Repairs Allowance | 2,690 | 2,690 | 2,690 | 2,690 | 2,690 |
| Grant Tai Cymdeithasol/ Social Housing Grant | 4,888 | 1,485 | 1,514 | 1,545 | 1,576 |
| Rhaglen ORP/ Programme (ORP) | 873 | - | - | - | - |
| Cynllun Tai Gofal Ychwanegol/ Extra Care Housing Scheme | 3,217 | 9,867 | 4,679 | - | - |
| SATC 2023/WHQS 2023 | 320 | - | - | - | - |
| Cyfraniad Refeniw/ Revenue Contributions | 17,064 | 8,183 | 7,930 | 8,194 | 8,483 |
| **Cyfanswm Ariannu/ Total Financing** | **30,102** | **34,325** | **34,814** | **29,129** | **26,348** |

# Cynllun Ariannol y CRT



Mae'r rhagdybiaethau ariannol ar gyfer y Cynllun Busnes fel a ganlyn:


- Mae chwyddiant yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio cyfradd targed y Llywodraeth o 3.1% yn 24/25, 1.7% yn 25/26 a 2% ar ôl hynny.
- Bydd rhent yn cynyddu 1% yn uwch na chwyddiant bob blwyddyn.
- Y ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg yw 1.5% bob blwyddyn.
- Mae colledion oherwydd cyfnodau gwag yn 1.9% bob blwyddyn.
- Bydd gwariant ar gyfer cynnal a chadw a chontractau newydd yn cynyddu 1% yn uwch na'r targed chwyddiant bob blwyddyn ar gyfer 2024/25, 2025/26, 2026/27, ac yn unol â chwyddiant ar ôl hynny.
- Bydd y rhaglen ar gyfer datblygu tai newydd a chaffael tai cyngor blaenorol yn parhau. O 2024/25 ymlaen, bydd 45 o unedau'n cael eu darparu (30 tŷ newydd a 15 tŷ cyngor blaenorol) bob blwyddyn. Bydd cynllun tai gofal ychwanegol, yn cynnwys 48 uned (yn ogystal â 28 uned breswyl) yn cael ei ddatblygu a'i gwblhau erbyn 2027/28, a bydd yn costio £27m.


# Cynaliadwyedd Ariannol

*I gefnogi'r gwaith o ddatblygu eiddo newydd, gweithdrefnau busnes fel arfer a gwaith cynnal a chadw sydd wedi'i drefnu*



Tudalen 141



This page is intentionally left blank

# DDIM I'W GYHOEDDI
# NOT FOR PUBLICATION

## Moderneiddio Ysgolion – Cyflwyno'r Rhaglen Amlinellol Strategol – Rhaglen Dreigl i Lywodraeth Cymru
## School modernisation - Presenting the Strategic Outline Programme – Rolling Programme to Welsh Government

### PRAWF BUDD Y CYHOEDD
### PUBLIC INTEREST TEST

| | |
|---|---|
| **Paragraff 14 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972**<br><br>**Paragraph 14 Schedule 12A Local Government Act 1972** | |
| Y PRAWF – THE TEST | |
| Mae yna fudd i'r cyhoedd **wrth ddatgan** oherwydd:<br><br>Mae moderneiddio'r stoc ysgolion yn bwysig i drigolion Ynys Môn er mwyn sicrhau fod holl ysgolion yr Ynys yn addas at y pwrpas.<br><br>*There is a public interest **in disclosure** as:*<br><br>*Modernising the school estate on Anglesey is important to Anglesey residents in order to ensure that all school buildings are fit for purpose.* | Y budd i'r cyhoedd **wrth beidio** datgelu yw:<br><br>Mae'r Rhaglen Amlinellol Strategol – Rhaglen Dreigl (RhAS) sy'n atodol yn cynnwys gwybodaeth sensitif am ddyfodol ysgolion all gael ei gamddehongli. Gall yr wybodaeth sy'n ymwneud â materion ariannol roi'r Cyngor dan anfantais pan mae'n dod i osod contractau ac ati ar gyfer gwaith i'r dyfodol.<br><br>*The public interest **in not disclosing** is:*<br><br>*The accompanying Strategic Outline Programme – Rolling Programme (SOP) contains sensitive information about the future of schools that could be misinterpreted. Information relating to financial issues could put the Council at a commercial disadvantage when it comes to awarding contracts etc. for future work.* |
| **Argymhelliad** -Yn rhinwedd Paragraff 14 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>-Gwybodaeth yn ymwneud â materion ariannol neu fasnachol unigolyn penodol. (Gan gynnwys yr awdurdod sy'n dal y wybodaeth honno).<br><br>**Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad yn fwy o bwys na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth.**<br><br>***Recommendation*** *- By Virtue of Paragraph 14 Schedule 12A Local Government Act 1972*<br>*-Information relating to the financial or business affairs of any particular person (including the authority holding that information).*<br><br>***The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information.*** | |

PG 19-3-24

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

# DDIM I'W GYHOEDDI
# NOT FOR PUBLICATION

***Porthladd Rhydd Ynys Môn – Llywodraethiant a Trefniadau Gweithredol***

***Anglesey Freeport – Governance and Operational Arrangements***
**PRAWF BUDD Y CYHOEDD**
**PUBLIC INTEREST TEST**

| | |
|---|---|
| **Paragraff(au) 14, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972**<br>Paragraph(s) **14**, of Schedule 12A Local Government Act 1972 | |
| Y PRAWF / THE TEST | |
| **Mae yna fudd i'r cyhoedd o ddatgelu sef:-**<br><br>**Bydd y cyhoedd â diddordeb i weld sut y mae'r Cygnor a'u partneriaid wedi gweithredu y rhaglen Porthladd Rhydd:**<br><br>• **Adolygu atebolrwydd a thryloywder**<br>• **Herio penderfyniadau a wneir**<br>• **Deall a chymryd rhan mewn penderfyniadau ynghylch dyrannu cyllid yn y dyfodol**<br><br>• **Deall a chymryd rhan mewn penderfyniadau ynghylch dyrannu cyllid yn y dyfodol** | **Y budd i'r cyhoedd o beidio datgelu yw:**<br><br>**Gallai datgelu rhagfarnu a chael effaith andwyol ar fuddiannau busnes, ariannol a masnachol partner datblygu/ ymgeiswyr a'u prosiectau.**<br><br>**Gallai datgelu niweidio trafodaethau'r Cyngor gyda phartneriaid/ rhanddeiliaid wrth fwrw ymlaen â gweithgareddau ffrwd gwaith y Porthladd Rhydd.** |
| There is a public interest in disclosure as:-<br><br>The public will be interested in how the Council and its partners has implemented the Freeports programme:<br><br>• Review accountability and transparency<br>• Challenge decisions made<br>• Understand and participate in decisions regarding future allocation of funding | The public interest in not disclosing is:-<br><br>Disclosure could adversely impact and prejudice the financial and business affairs and commercial interests of a development partner/ applicants and their projects.<br><br>Disclosure may adversely prejudice the Council's discussions with partners/ stakeholders in progressing the Freeports workstream activities. |
| Mae'r budd i'r cyhoedd o gadw'r eithriad o bwys mwy na'r budd i'r cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth<br><br>The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information. | |

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank